**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU**

**CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020**

**Dyddiad:** Dydd Iau 26 Ionawr 2022

**Amser:** 9:30am

**Lleoliad:** Yn rhithwir drwy MS Teams

## AGENDA

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | Croeso ac ymddiheuriadau | 09:30 – 09:35 | |
| 2. | Cofnodion cyfarfod mis Mai 2022, camau gweithredu a materion eraill sy'n codi | 09:35 – 09:40 | WPMC(21)M25 |
| 3. | Y diweddaraf ynghylch cynnydd Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, gan gynnwys gwaith datblygu portffolio:<br>• Rhaglen Datblygu Gwledig<br>• Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)<br>• Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) | 09:40 – 10:00<br>10:00 – 10:15<br>10:15 – 10:30 | |
| 4. | Addasu ERDF | 10:30 – 11:15 | |
| | *Egwyl fer* | 11:15 – 11:25 | |
| 5. | Cymorth Technegol 4% cyfradd fflat | 11:25 – 11:45 | |
| 6. | Y diweddaraf ynghylch Gwerthuso | 11:45 – 12:00 | |
| 7. | Cynllun Cyfathrebu Blynyddol Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd | 12:00 – 12:20 | |
| 8. | Unrhyw Fater Arall<br><br>**Papurau i'w nodi:**<br>• Y diweddaraf ynghylch Themâu Trawsbynciol Cronfeydd Strwythurol<br>• Y diweddaraf ynghylch Cyfathrebu'r Rhaglen Datblygu Gwledig | 12:20 – 12:30 | |

**CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020**

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU**

**Dydd Iau 19 Mai 2022**

**Cyfarfod Rhithwir trwy Microsoft Teams**

**Nodiadau Cyfarfod**

**EITEM 1: Croeso ac Ymddiheuriadau**

1. Croesawodd y Cadeirydd Aelodau i gyfarfod rhithiol Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru (PMC) gan hysbysu Aelodau o brotocolau'r cyfarfod / cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

2. Mae cworwm yn y cyfarfod, gan alluogi cymeradwyo'r Adroddiadau Gweithredu Blynyddol (AGBau) yn Eitem Agenda 7. Rhestrir y rhai sy'n bresennol ac ymddiheuriadau yn **Atodiad A.**

**EITEM 2: Cofnodion cyfarfod Rhagfyr 2021, camau gweithredu a materion eraill yn codi**

3. Gofynnodd aelodau am eglurhad ar yr eitemau agenda canlynol:

• Eitem 3, Cynlllun Datblygu Gwledig (RDP), paragraff 6, gwariant ar y rhaglen – anghysondeb posibl mewn perthynas â chyfanswm y gwariant sy'n gysylltiedig â thaliadau trosglwyddo Colofn 1 h.y. £267m yn cael ei nodi o fewn cofnodion Rhagfyr 2021, yn hytrach na £231m a gynhwysir ym mhapur y Cynllun Datblygu Gwledig a gyhoeddwyd i Aelodau, 5 Mai 2022.

• Eitem 3, RDP, paragraff 10 – Gofyniad rheoleiddio'r UE i gyhoeddi yn flynyddol fanylion derbynwyr cyllid PAC & a yw gofyniad rheoleiddiol tebyg wedi'i osod ar dderbynwyr Cyswllt Ffermio / is-set o dderbynwyr. Cafodd yr aelodau wybod am gronfa ddata ledled y DU sy'n darparu dadansoddiad cyffredinol o fuddiolwyr/ symiau a ddyfarnwyd, fodd bynnag, angen gwirio a yw is-setiau o dderbynwyr yn cael eu cadw. **GWEITHREDU: Swyddogion RDP i fynd i'r afael â'r anghysondeb mewn perthynas â chyfanswm y gwariant ar gyfer taliadau trosglwyddo Colofn 1 yn y**

**papur diweddaru ac a yw manylion derbynwyr cyswllt ffermio / is-set y derbynwyr yn cael eu cyhoeddi a'u cadarnhau/ egluro yn ysgrifenedig yn dilyn y cyfarfod.**

4. Ac eithrio y 2 bwnc am eglurhad, cytunwyd ar y cofnodion fel cofnod cywir ac nid oedd unrhyw weithredoedd heb eu cyflawni. Mae cynnydd ar bwyntiau gweithredu sy'n codi wedi'u rhestru yn **Atodiad B.**

**EITEM 3: Y diweddaraf ar Gynnydd Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd**

**Y Cynllun Datblygu Gwledig**

5. Rhoddodd Ryan Doyle, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Economi a Deddfwriaeth Wledig ddiweddariad ar y Cynllun Datblygu Gwledig (RDP) 2014-2020:

• Mae'r RDP yn parhau i wneud cynnydd da o ran ymrwymiad, cyflawniad a gwariant.  Ar ddiwedd mis Mawrth 2022 mae ymrwymiad lefel y prosiect yn £833m, sy'n 99% o ymrwymiad mewn cronfeydd, cyfanswm gwerth y rhaglen yw £842m

• Gwariant rhaglen hyd yn hyn: £625m a £439m ohono yn EAFRD. Cyflawnwyd targedau N+3 ar gyfer 2021 yn gynharach yn y flwyddyn er gwaethaf heriau COVID-19, ymadawiad y DU o'r UE a'r argyfwng costau byw presennol yn y DU. Rhagwelir y bydd nifer y cynlluniau sy'n cael eu gweithredu trwy'r Rhaglen, er ar wahanol gamau yn eu gwerthusiad o brosiectau, yn cynorthwyo i sicrhau gwariant rhaglen lawn erbyn diwedd 2023

• Mae cyfraddau gwallau/arolygu rhaglenni yn isel a phob cyfrif Asiantaeth Dalu (Taliadau Gwledig Cymru (RPW)) wedi'u clirio gan CE – gan ddangos mecanweithiau cadarn ar waith ar gyfer RPW

• Atgoffwyd aelodau y bydd angen cyflwyno ceisiadau terfynol am dalu arian o bob cynllun erbyn Mehefin 2023 ac ni fydd estyniad i'r dyddiad hwn. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd fod yr argyfwng costau byw yn cael effaith ar gyflawni prosiectau ar hyn o bryd.  Bydd RPW yn monitro'r sefyllfa hon yn fanwl a bydd yn gweithio gyda prosiectau/ buddiolwyr i fynd i'r afael â hyn.

6. Rhoddodd Ryan Doyle ddiweddariadau ar bob blaenoriaeth RDP a chafodd yr Aelodau wybod bod yr wybodaeth a gyflwynwyd yn cynnwys cymeradwyo y Comisiwn Ewropeaidd (CE) o 5ed addasiad y Rhaglen:

• Blaenoriaeth 2 – Mae Cyswllt Ffermio (CFf), y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (GCC), y Grant Busnes i Ffermydd (GBFf) a’r Bartneriaeth Arloesi Ewropeaidd (EIP) ar gyfer Cynhyrchiant Amaethyddol a Chynaliadwyedd wedi cyflawni'r holl ddangosyddion nad ydynt yn ariannol a byddant yn gorgyflawni. Bydd dangosyddion ariannol yn cael eu hadrodd/ eu gwireddu tuag at ganol/ diwedd y cynlluniau/ Rhaglen.

• Blaenoriaeth 3 - Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (FBIS) heb newid ers y PMC diwethaf, gyda dros £161 miliwn o fuddsoddiadau cyfalaf newydd yng Nghymru i helpu/cefnogi'r sector bwyd amaeth. Hefyd, bydd y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig yn darparu buddsoddiad cyfalaf sy'n cyfateb â £2.7m. Fel y nodwyd yn y cyfarfod diwethaf, mae Mesur 16 wedi cronni gwariant is na'r disgwyl, yn bennaf oherwydd COVID-19. Mae cymeradwyo 5ed addasiad y Rhaglen wedi galluogi adleoli cyllideb Mesur 16.

• Blaenoriaeth 4 – Glastir Amaeth-amgylchedd a Grantiau Bach Glastir – mae'r ddau gynllun wedi'u cymeradwyo i redeg tan ddiwedd cyfnod y Rhaglen trwy gymeradwyaeth y CE o 5ed Addasiad y Rhaglen

• Blaenoriaeth 5 – gan gynnwys (a) Glastir - Creu Coetir (GCC) – prosiectau a ddewiswyd drwy'r swm crwn diwethaf o £4 miliwn, (b) Glastir Adfer Coetir (GAC) a (c) Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren (CBBP), Mesur 8.6 – sy'n adrodd yn erbyn dau Faes Ffocws h.y. 5C (ynni adnewyddadwy a'r bio-economi) a 6A (Creu Swyddi). Yn dilyn galwad diweddar am Ddatganiadau o Ddiddordeb (EOIs) mae Mae Ffocws 6A wedi cael mwy o brosiectau cymeradwy, fodd bynnag o ran targedau creu swyddi, ni fydd y rhain yn cael eu gwireddu nes i brosiectau gael eu cwblhau.

• Blaenoriaeth 6 - mae cynlluniau a gefnogir yn cynnwys LEADER, Cronfa Datblygu Cymunedol Gwledig (RCDF), TBIS, Adnoddau Naturiol yr Amgylchedd a Llesiant (ENRaW) a'r Cynllun Buddsoddi Mewn Busnesau Gwledig newydd (anamaethyddol) (RBIS Anamaethyddol). Mae nifer y buddiolwyr a gefnogir yn ymddangos yn isel gan mai dim ond dau gais a gymeradwywyd gan RPW. Caiff hyn ei ddatrys wedi derbyn ffurflenni hawlio taliadau pan fydd y dangosyddion cysylltiedig yn cael eu diweddaru a byddant yn cael cymorth pellach gyda manylion cyflawni trwy gynlluniau RBIS Anamaethyddol ac RBIS Bwyd.

7. Cynghorodd Ryan Doyle aelodau mai dyma fydd ei PMC olaf a bydd James Burgess yn cymryd yr awenau fel Pennaeth yr Awdurdod Rheoli. Diolchodd y Cadeirydd i Ryan am ei gyflwyniad ac am ei gyfraniadau i'r PMC.

8. Croesawodd yr aelodau'r diweddariad ac mewn trafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

• Mae'r dyrannu, yr ymrwymiad a'r gwariant data a gedwir yn nhabl 1 o'r papur diweddaru RDP yn gofyn am eglurhad o gyfanswm y ffigur gwariant mewn % a nodwyd fel 41%, a ddylai adlewyrchu 74% yn seiliedig ar ffigurau a ddarparwyd. Bydd swyddogion y RDP yn mynd i'r afael â hyn ac yn rhoi cadarnhad ysgrifenedig o'r ffigwr cywir mewn % i'w ddefnyddio.

• Byddai aelodau'n croesawu sicrwydd y bydd gwariant y Rhaglen lawn yn cael ei gyflawni yn enwedig gan ei bod yn ymddangos y bydd angen i'r Rhaglen wario dros £200m yn ei blynyddoedd olaf o gyflwyno ac ynghyd â'r gofynion/ dibyniaeth ar gyllid cyllid domestig. Rhoddwyd cyngor i'r aelodau fod y Rhaglen yn ddeinamig o ran cwmpas/ natur a bod perygl o wariant hwyr. Er eu bod ar y trywydd iawn i gyflawni gwariant llawn mae llawer o ffactorau allanol h.y. ffactorau economaidd/ cymdeithasol a fydd o bosibl yn cael effaith ar hyn.

• Yr angen i addasu y 6ed Rhaglen i sicrhau gwariant llawn y Rhaglen. Mae RDP yn edrych ar hyn ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyflwyno i'r PMC ym mis Hydref 2022. Roedd yr aelodau'n nodi'r angen i roi hysbysiad cynnar i'r PMC o addasiadau yn y dyfodol er mwyn rhoi digon o amser i ystyried y newidiadau arfaethedig. Sicrhawyd yr aelodau bod yn rhaid i bob addasiad gadw at ofynion rheoleiddio'r UE o ran prydlondeb a bydd y rhain yn cael sylw fel o'r blaen. Hefyd, bydd swyddogion y RDP yn rhoi'r cyfle i gael trafodaethau cyn-addasu gydag Aelodau ac yng ngoleuni ystyried unrhyw gymeradwyaethau Gweinidogol angenrheidiol.

• Mae gwerthuso Cywain a nodwyd yn y PMC yn werthusiad annibynnol a gomisiynwyd gan arweinydd cyflenwi'r prosiect ac nid Llywodraeth Cymru. Mae gwerthuswyr Cywain wedi cadarnhau y bydd gwerth am arian yn cael ei ystyried fel rhan o'u gwerthusiad yn amodol ar y data perthnasol sydd ar gael. Cadarnhaodd tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso Llywodraeth Cymru (RME) y bydd y rhyngweithio rhwng Cywain â'r Cynlluniau Bwyd yn cael ei asesu, fel rhan o werthuso Cynlluniau Bwyd, a bydd yn cynnwys asesiad gwerth am arian, unwaith eto yn amodol ar argaeledd data perthnasol ar gyfer Cywain.

• Dathliad Datblygu Gwledig, Mehefin 2022 – rhai arsylwadau o fuddiolwyr sydd ddim yn cadw at ofynion rheoleiddio'r UE yn llawn ynghylch cyhoeddusrwydd. Dywedodd yr aelodau fod yr holl gytundebau ariannu / llythyrau cymeradwyo i fuddiolwyr yn cynnwys amod i roi cyhoeddusrwydd i dderbyn arian gan RDP ac y gallai peidio â gwneud hynny arwain at adfachu arian.

9. Cododd un aelod fater argyfwng presennol Wcráin a gofynnwyd a yw y CE wedi/ a fydd yn cyhoeddi unrhyw hyblygrwydd o ran defnyddio rheoliadau'r RDP i ddarparu cymorth ychwanegol i ffermwyr o ran cnydau, yn enwedig gan (a) bod y prif dymor tyfu yn agosáu, felly bod angen gweithredu ar frys a (b) i atal unrhyw niwed posibl i'r gadwyn cyflenwi bwyd. Dywedwyd wrth yr aelodau am becyn Gweithredu Cydlyniant y CE ar gyfer Ffoaduriaid yn Ewrop (CARE) a gyhoeddwyd fis Mawrth 2022 – gan alluogi Aelod-wladwriaethau i ddarparu cymorth brys sy'n cwmpasu anghenion sylfaenol pobl sy'n ffoi rhag ymosodiad Rwsia ar Wcráin e.e. mynediad at lety dros dro, bwyd, dŵr a gofal meddygol – pecyn sydd ddim yn canolbwyntio ar gyflenwadau bwyd/ economi ehangach pan gafodd ei sefydlu. Mae pecyn CARE

sydd ar gael i Awdurdodau Rheoli o fewn y DU, fodd bynnag, ar hyn o bryd dim ond yn benodol o ran cymhwyso rheoliadau'r gronfa strwythurol ac nid RDP.

10. Ychwanegodd Peter Ryland bod WEFO wedi rhoi diweddariad i'r buddiolwyr ar y pecyn CARE, gan amlinellu sut y gellir ei ddefnyddio o fewn Rhaglenni presennol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)/ Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) h.y. helpu gyda hyfforddiant sgiliau a helpu i weithio drwy gynlluniau/ gweithrediadau presennol. Un o'r newidiadau craidd yn arbennig yw'r posibilrwydd o ariannu ar y cyd 100% o UE ar gyfer 2014-2020 yn cael ei ymestyn ar gyfer y flwyddyn gyfrifo 2021-2022. Nododd swyddogion y RDP nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw hyblygrwydd penodol ar gyfer rheoleiddio'r RDP ond byddant yn cysylltu â’r CE ar becynnau / cyhoeddiadau posibl ac yn adrodd yn ôl i Aelodau. **GWEITHREDU: Swyddogion RDP i gysylltu â’r CE ar becynnau / cyhoeddiadau posibl ac adrodd yn ôl i Aelodau.**

<u>Trosolwg o Gronfeydd Strwythurol</u>:

11. Diolchodd Peter Ryland, Prif Swyddog Gweithredol WEFO, i aelodau am yr amser a roddwyd i gyfarfodydd PMC a'r Adroddiadau Gweithredu Blynyddol sy'n elfen fonitro bwysig i'r Comisiwn Ewropeaidd i sicrhau bod arian yn cael ei wario'n gywir.

12. Mae'r pedair rhaglen yn parhau i wneud cynnydd da yn ystod cyfnod heriol parhaus. Hyd yn hyn, ymrwymodd 100% o'r cronfeydd, sy'n cyfateb i tua £2.1bn yn erbyn 266 o weithrediadau. Bydd y gyfradd gynllunio o £1/€1:17 yn parhau i gael ei fonitro bob mis oherwydd amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid ac ansicrwydd parhaus. Daw y gyfradd gynllunio yn fwy sylfaenol wrth inni ddod yn nes at ddiwedd y rhaglenni, er mwyn sicrhau bod cymaint o wariant â phosibl a bod digon o arian i dalu buddiolwyr.

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)**

13. Rhoddodd Peter Ryland ddiweddariad i aelodau ar weithgarwch yn rhaglen ERDF, gan dynnu sylw at 148 o weithrediadau a gymeradwywyd gyda dros £1.2bn wedi'i ymrwymo. Mae cymeradwyaethau ac estyniadau newydd a gytunwyd ers y PMC diwethaf yn cynnwys:

• Seilwaith Morlais (ERDF £31m) sy'n cael ei arwain gan Menter Mon Morlais Limited.

• Cynllun Monitro a Lliniaru Amgylcheddol (EMMP) (ERDF dros £4.7) Hefyd yn cael ei arwain gan Menter Mon Morlais Limited

• Ymestyn Busnes Cymdeithasol Cymru (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) hyd at Mawrth 2023

• Ymestyn Prosiect Nova Enlli hyd at Gorffennaf 2023

14. Mae'r gwariant cyffredinol ychydig y tu ôl i ble yr hoffem fod ar y pwynt hwn yn y rhaglenni gyda thynnu i lawr ar 50% ar yr ERDF yng Nghymru (o'i gymharu â 57% ar gyfartaledd ledled y DU, a 56% ar draws yr UE). Y prif reswm am hyn yw fod nifer o raglenni cyfalaf sy'n tueddu i fod â hawliadau mawr ar ddiwedd y rhaglenni. Mae ERDF Gorllewin Cymru a’r Cymoedd wedi cyrraedd ei darged N+3 ar gyfer 2021 ond nid yw targedau 2022 ar gyfer Gorllewin Cymru a’r Cymoedd a Dwyrain Cymru wedi'u cyrraedd eto. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa i annog eu priod sectorau/ buddiolwyr i gyflawni/ gwario i'w cynlluniau busnes/ proffiliau cyflenwi cymeradwy.

15. Fel y nodwyd yn y cyfarfod diwethaf, bydd angen addasu rhaglenni ERDF unwaith y bydd yr adolygiad Dangosydd wedi’i ystyried ochr yn ochr ag ail-ddyrannu arian o fewn yr echelinau Blaenoriaeth. Fodd bynnag, nid yw'r addasiad hwn yn debygol o gael ei gyflwyno i'r PMC tan yn ddiweddarach yn 2022.

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)**

16. Diweddarodd Peter Ryland yr aelodau ar weithgaredd o fewn y rhaglen ESF, gan dynnu sylw at y ffaith bod 118 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo gyda £857m wedi'i ymrwymo. O dan y Flaenoriaeth ESF Cynnwys Covid trwy Gapasiti, mae ceisiadau cyllid i gefnogi gweithgarwch GIG Cymru sy'n delio â phandemig Covid-19 yn cael eu paratoi ar hyn o bryd.

17. Mae'r gwariant ar hyn o bryd ar 66% (£583m) a thynnu i lawr ar 75% (o'i gymharu â chyfartaleddau o 49% ar draws y DU, a 57% ar draws yr UE). Mae'r ddwy raglen ESF wedi cyrraedd eu targed 2022 N+3.

18. Hefyd, tynnodd Peter sylw at y canlynol:

• Er bod y rhaglenni wedi ymateb yn gadarnhaol i'r pandemig y ffocws yw darparu'r gweithrediadau i sicrhau bod yr holl arian yn cael ei ddefnyddio i'w heffaith orau. Mae WEFO yn ymwybodol o bryderon ynghylch adnoddau staff a phwysigrwydd sicrhau bod llwybrau archwilio ac ati ar gael tan ddiwedd y cyfnodau cadw.

• Fel y nodwyd eisoes, mae gwario a chyflwyno hawliadau yn flaenoriaeth ac mae ceisiadau ymestyn bellach yn eithriadau gan fod gormod o weithgaredd tuag at ddyddiad gorffen y rhaglen h.y. 31 Rhagfyr 2023, yn effeithio'n sylweddol ar y broses o gau.

• Mewn rowndiau gwariant blaenorol, roedd hyblygrwydd i ddefnyddio gwariant cymwys dros ben mewn un Blaenoriaeth i danwariant mewn Blaenoriaethau eraill yn yr un Rhaglen, gan hyd at 10% o gyfanswm gwerth y Blaenoriaethau dan sylw. Fodd bynnag, ar gyfer y rownd bresennol, mae'r hyblygrwydd hwn wedi'i gyfyngu i 10% o werth gwariant ym mlwyddyn olaf y Rhaglen yn unig. Felly mae rheoli cau yn flaenoriaeth i WEFO a dylai prosiectau edrych i baratoi cymaint â phosib.

• Cyhoeddwyd canllawiau ynghylch cymhwysedd Wcrainiaid sy'n setlo yng Nghymru ar gyfer cynlluniau CGE a phrosiectau cymorth busnes ERDF drwy fwletin e-gylchlythyr a hefyd sianeli cyfathrebu RETs. Mae WEFO hefyd wedi diweddaru Canllawiau ESF 2014-20 ar asesu cymhwysedd cyfranogwyr i roi mwy o fanylion am gymhwysedd unigolion.

• Adolygiad Dangosydd Annibynnol – asesiad diduedd ac annibynnol o ddarparu rhaglenni a darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer unrhyw newidiadau i ddangosyddion y gallwn eu cynnig. Bydd y tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso yn cwblhau'r adroddiad ddiwedd mis Mai ac yn ceisio cyhoeddi canol / diwedd Mehefin.

12. Diolchodd y Cadeirydd i Peter am ei gyflwyniad ac mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau nododd Peter mai'r cynllun ar hyn o bryd yn y rhaglenni yw cyflawni'r hyn y maent wedi ymrwymo iddo ac ychydig iawn o hyblygrwydd sydd o ran gwariant. Does dim modd ail-leoli arian yn hawdd ac mae'r rhaglenni wedi gor-ymrwymo gan fod disgwyl rhywfaint o danberfformio. Mae WEFO wedi gweld problemau ei hun o ran adnoddau, fodd bynnag mae'r timau taliadau ac MVT bellach wedi sefydlogi a gellir symud ymlaen ar ôl-groniad hawliadau. Mae WEFO yn ymwybodol o anghenion penodol rhai buddiolwyr lle mae llif arian yn fwy aciwt a blaenoriaethu lle bo angen.

**EITEM 4: Diweddariad wedi'r Cyfnod Pontio a Therfynu**

13. Rhoddodd Peter Ryland ddiweddariad i'r aelodau gan dynnu sylw at y canlynol:

• Cysylltodd Llywodraeth y DU â'r awdurdodau datganoledig yn gynnar ym mis Ebrill 2022 i gael sgwrs ystyrlon ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SPF) cyn i Prosbectws SPF gael ei ryddhau. Cafodd rhywfaint o gynnydd ei wneud ond doedd Gweinidogion Cymru ddim yn gallu cymeradwyo dull Llywodraethau'r DU.

• Gwnaed cynnydd dros gwmpas/ blaenoriaethau a ffocws yr arian a chytunwyd i gynnwys y fframwaith buddsoddi rhanbarthol fel rhan o'r prosbectws. Trafodwyd trefniadau llywodraethu hefyd ac nid oes unrhyw rôl ffurfiol ar gyfer Gweinidogion / Llywodraeth Cymru yn SPF y DU. Serch hynny, y fethodoleg ariannu oedd yr hyn na ellid cytuno arno, ac er bod trysorlys Cymru yn cynnig fformiwla amgen fyddai'n

dosbarthu cyllid yn decach ledled Cymru yn ôl angen economaidd, cafodd hyn ei wrthod gan Lywodraeth y DU ac ar y sail yma doedd dim modd cytuno ar y model.

• Er nad yw Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo SPF y DU, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cefnogi rhanbarthau/ partneriaid llywodraeth leol lle mae buddsoddiadau'n alinio ac yn gallu cynnig cefnogaeth i helpu yn y ffordd y maent yn darparu/ gweithredu buddsoddiadau.

19. Diolchodd yr aelodau i Peter am y diweddariad ac mewn trafodaeth cododd y canlynol:

• Cais am eglurhad am werth colli mwy na £1bn o gyllid i Gymru. Cadarnhaodd Peter fod y ffigwr hwn yn cynnwys cronfeydd strwythurol a RDP.

• Cwestiwn ar sut y bydd SPF y DU yn cael ei fonitro a'i graffu yng Nghymru - nododd Peter nad oes canllawiau cyfredol, ac nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd. O safbwynt technegol bydd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol gyfrifoldeb i adolygu'r gronfa ar lefel Brydeinig a swyddfa Archwilio Cymru ar lefel awdurdodau lleol Cymru gyda lefel / sgôp adolygiadau yn cael eu penderfynu gan y swyddfeydd archwilio amrywiol. Bydd yn anodd monitro / gwerthuso ar lefel Cymru er o safbwynt Llywodraeth y DU efallai y bydd yn cael ei weld fel lleihad mewn biwrocratiaeth.

• Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gael trafodaethau gyda llywodraeth leol/ trydydd sector ar lefel strategol ar gyllid yn y dyfodol er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn cyllid/ osgoi dyblygu

20. Nododd Lowri Gwilym, o safbwynt llywodraeth leol, fod y gwaith yn parhau o ran cynllunio ar gyfer yr SPF, nodi bylchau allweddol ac ymgysylltu â phartneriaid cymunedol lleol ar gyfer ymyriadau lleol / micro.

**EITEM 5: Digwyddiad Dathlu Rhwydwaith Gwledig Cymru**

21. Gwahoddwyd John Davies, Pennaeth Rhwydwaith Gwledig Cymru i roi cyflwyniad ar y digwyddiad i'w gynnal ym mis Mehefin 2022. Cyn rhoi gwybod i Aelodau am y digwyddiad, cyfeiriodd John at yr ymholiad a godwyd gan Aelodau mewn perthynas â chyhoeddusrwydd a gofynnodd am fanylion er mwyn mynd i'r afael y tu allan i gyfarfod PMC. Yna tynnodd John sylw at y canlynol o ran y digwyddiad dathlu:

• Mae'r digwyddiad 2 ddiwrnod yn cael ei gynnal i dynnu sylw at lwyddiannau y rhaglenni gwledig, dathlu cyflawniadau ac edrych ymlaen at ddyfodol Cymru wledig.

• Bydd y Gweinidog Materion Gwledig, y Gweinidog Newid Hinsawdd a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd a'r Môr yn mynychu'r digwyddiad. Bydd gweithdai a phaneli rhanddeiliaid/ arbenigol a seremoni wobrwyo wledig, gan arddangos cyflawni prosiectau gwledig.

• Bydd y Prif Weinidog yn bresennol yn nigwyddiad rhwydweithio Blas ar Gymru, ar y 9fed Mai a bydd yn gyfle i flasu bwyd a diod o Gymru a dysgu am y rhaglenni datblygu gwledig.

**EITEM 6: Adroddiadau Gweithredu Blynyddol (AIRs)**

Cronfeydd Strwythurol (ERDF ac ESF)

22. Cyflwynodd Richard Self, Pennaeth Ymchwil, Monitro a Gwerthuso yr AIRs i'r pwyllgor a nododd fod y cyflwyniad yn cwmpasu (i) gofynion ar gyfer cyflwyno AIRs y Cronfeydd Strwythurol/ RDP i'r Comisiwn Ewropeaidd (ii) cynnwys a strwythur yr AIRs a (iii) Uchafbwyntiau, gan gynnwys pa faterion gweithredu y mae'r adroddiadau'n tynnu sylw atynt, gwerthuso, a chynnydd ariannol a pherfformiad yn erbyn dangosyddion. Ymhlith yr uchafbwyntiau allweddol roedd:

• Mae'r AIRs drafft yn manylu ar y gweithgareddau a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Rheoli i weithredu'r Rhaglenni ac mae adroddiadau eleni yn cwmpasu'r cyfnod 01/01/2021 i 31/12/2021.

• Mae adrannau 2 a 3.1 yn rhoi trosolwg o gynnydd ariannol cyffredinol, mae Adran 3.2 yn darparu data manwl yn erbyn yr holl dargedau dangosyddion cyffredin a rhaglen-benodol, mae adran 3.3 yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn targedau 2023 y Fframwaith Perfformiad, Adran 4 yn adrodd ar unrhyw dystiolaeth werthuso sydd wedi dod ar gael yn ystod y flwyddyn adrodd, mae Adran 6 yn adrodd ar unrhyw faterion sy'n effeithio ar berfformiad y Rhaglen ac Adran 8 yn darparu data manwl ar weithredu unrhyw Offerynnau Ariannol a gymeradwywyd o dan y Rhaglenni.

• Yn ôl pob un o'r pedwar AIR, gofynnwyd am estyniadau yn ystod 2021 gan nifer o weithrediadau er mwyn mynd i'r afael â'r amser a gollwyd oherwydd effaith Covid-19 a chomisiynwyd adolygiad allanol o ddangosyddion perfformiad, gan gynnwys edrych ar effaith Covid-19.

• Materion allweddol - Ar gyfer ERDF ac ESF, effeithiodd Covid-19 ar gyflawni. Ar gyfer yr ERDF bydd gwariant yn cynyddu yn ystod gweddill blynyddoedd y rhaglenni, yn enwedig o ran isadeiledd, ond gyda'r rhan fwyaf o weithrediadau'n cwblhau eu gwariant ac yn cyflenwi erbyn mis Mehefin 2023. Roedd portffolio ESF yn parhau i fod yn berthnasol i'r heriau sy'n cael eu hwynebu yn y farchnad lafur, o ganlyniad i'r pandemig.

• Yn gryno:

o Parhawyd i wneud cynnydd da ar draws y pedair rhaglen yn ystod 2021, yn ariannol ac ar gyfer dangosyddion perfformiad

o Covid-19 wedi cael effaith ar weithredu ac mae hyn wedi arwain at estyniadau i nifer o weithrediadau

o Adolygiad annibynnol o berfformiad ei holl raglenni ESF, ERDF ac ETC yn erbyn dangosyddion, gan gynnwys yr effaith y mae Covid-19 wedi'i gael ar gynnydd, wedi ei gomisiynu gan WEFO. Ni chafwyd yr adroddiad terfynol a'r canfyddiadau yn ystod 2021 ond mae disgwyl iddynt gael eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2022.

Rhaglen Datblygu Gwledig

23. Cyflwynodd Richard Self hefyd AIR y RDP ac amlygodd y canlynol:

• Mae adran 1 yn rhoi diweddariad ar weithredu'r rhaglen, mae Adran 2 yn rhoi diweddariad ar weithredu'r cynllun Gwerthuso yn ystod 2019, mae Adran 3 yn ymdrin â materion sy'n effeithio ar berfformiad y Rhaglen a'r mesurau a gymerwyd i ddatrys y rhain, mae Adran 4 yn edrych ar ddefnyddio TA a gofynion cyhoeddusrwydd, ac mae gwaith Rhwydwaith Gwledig Cymru ac Adran 11 yn cynnwys tablau ar gyfer y dangosyddion cyffredin a'r gwerthoedd targed.

• Roedd materion sy'n effeithio ar berfformiad y rhaglen yn cynnwys materion yn ymwneud â mesurau economaidd cymdeithasol ym mis Ebrill 2021, gweithredwyd camau cywiro sy'n gyflawn ac ar gyfer blwyddyn hawlio 2020, manteisiodd yr Asiantaeth Dalu ar y Rhanddirymiad yn Rheoliad Gweithredu Comisiwn (UE) 2020/532 gan leihau'r cyfraddau arolygu gofynnol oherwydd achosion Coronafeirws

• Rhaglen wedi ymrwymo'n llawn erbyn diwedd 2021 a chynnydd cryf a wnaed wrth gyflawni yn ystod 2021 gyda thaliadau €112.2m ar gyfer gweithgarwch a gynhaliwyd ac a hawliwyd yn ystod 2021.

• Erbyn diwedd 2021 roedd rhai o'r llwyddiannau allweddol a gyflwynwyd drwy'r Rhaglen yn cynnwys: Derbyniodd 90,879 o gyfranogwyr hyfforddiant, 8,491ha o goetir newydd wedi'i greu, derbyniodd 7,396 o ddaliadau gymorth buddsoddi drwy'r SPG a FBG. Cefnogwyd 7,491 o gontractau o dan amaeth-yr amgylchedd-hinsawdd erbyn mis Mawrth 2022, a 4,330ha wedi derbyn cymorth drwy Gynllun Rheoli Coetir Glastir, ynghyd â 1,342 hectar o goetir wedi'u hailstocio drwy Gynllun Adfer Coetir Glastir a 46 o brosiectau wedi eu hariannu drwy'r Bartneriaeth Arloesi Ewropeaidd.

**EITEM 7: Holi ac Ateb ar Adroddiadau Gweithredu Blynyddol (AIRs) a chymeradwyaeth**

24. Bu aelodau yn trafod yr adroddiadau ac yn codi'r canlynol:

• Gwallau a nodwyd yn yr AIR RDP (1) yn tud. 38, ffigurau ymrwymo yn dangos fel €19.55m/ £23m a (2) 7,000 yn dal cytundebau amaeth-amgylcheddol, fodd bynnag

mae crynodeb y dinesydd yn nodi 4,800 ac mae nifer o'r contractau hyn wedi dod i ben a (3) Anghyfartaledd o ran nifer y contractau amaeth-amgylcheddol - nid yw hectorau tir cryno AIR a gan ddinasyddion yn cyd-fynd. Cadarnhaodd Richard y bydd tîm RME yn gwirio'r ffigyrau ac yn adolygu os oes angen.

• Mae AIR RDP tud. 35 yn nodi bod tir Llywodraeth Cymru wedi derbyn grantiau ar gyfer atal clefydau ac ati, a gofynnodd yr aelodau am fanylion pellach ynghylch os yw dyfarnu RDP yn arfer safonol? Cyfeiriad at fesur 10 & 11 - mae costau wedi cynyddu'n aruthrol oherwydd chwyddiant ac a ellid ystyried adolygu'r cyfrifiadau cost o ystyried yr hinsawdd bresennol.

• Mae AIR RDP tud. 38/39 yn cyfeirio at 41% o'r gyllideb wedi'i wario ar y cynllun SMS fodd bynnag mae hyn yn llawer is na’r targedau.

25. Nododd swyddogion RDP y byddent yn dod yn ôl at aelodau yn ysgrifenedig gydag atebion i'r cwestiynau / materion uchod a godwyd gan y bydd angen i rywfaint o'r wybodaeth gael sylw gan dimau polisi.

26. Cododd yr aelodau'r cwestiynau canlynol hefyd mewn perthynas â'r AIR RDP:

• Gwybodaeth bellach y gofynnwyd amdano am y 2 brif ddull rheoli a godwyd gan archwiliad CE 2021 a pha brosesau sydd wedi newid ers 2018 a arweiniodd at y materion hyn? Esboniodd Stuart Brailsford mai (a) rhesymoldeb y costau ar gyfer mesurau economaidd cymdeithasol (b) gwirio meini prawf cymhwysedd ar brosiectau. Roedd y mesurau a welwyd yn archwiliad 2018 a 2021 yn wahanol, felly aseswyd cyfundrefnau rheoli gwahanol. Nid oedd archwiliad y CE yn 2021 yn gysylltiedig ag archwiliad SAC ac roeddent yn faterion ar wahân. Nid yw'r cywiriad ariannol (cosb ariannol) ar gyfer 2021 sy'n cael ei ddefnyddio gan y CE yn hysbys eto ac maent yn aros am gofnodion cyfarfod dwyochrog diweddar. Unwaith y bydd cyfanswm y cosbau ariannol yn hysbys, gellir dosbarthu'r rhain i'r aelodau am wybodaeth. **GWEITHREDU: Swyddogion RDP i ddosbarthu ffigurau cosbau ariannol i aelodau unwaith eu bod yn hysbys.**

• Mwy o wybodaeth y gofynnwyd amdano am yr adroddiad gwerthuso yn ymwneud â'r rhaglen Cyswllt Ffermio ac os yw hyn yn cwmpasu'r newid i gyflenwi digidol yn hytrach na wyneb yn wyneb ac ar gyfer beth y defnyddiwyd y codiad mewn cyllid. Cadarnhaodd Richard fod mwy o waith gwerthuso yn cael ei wneud ar gyswllt ffermio, gan ganolbwyntio ar werth am arian a'r newid i ddarparu rhithwir.

27. Diolchodd swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd i'r awdurdodau rheoli am y gwaith o baratoi'r AIRs ac y byddant mewn cysylltiad drwy e-bost gydag unrhyw fân welliannau a awgrymir.

28. Diolchodd Peter Ryland i dîm RME am yr ymdrech o baratoi'r AIRs ac i aelodau am gymryd yr amser i roi ystyriaeth ddyledus.

29. Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau gymeradwyo'r AIRs canlynol:

- Rhaglen Datblygu Gwledig
- Cronfa Gymdeithasol Ewrop (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd)
- Cronfa Gymdeithasol Ewrop (Dwyrain Cymru)
- Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd)
- Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (Dwyrain Cymru)

30. Cymeradwywyd pob AIR heb unrhyw wrthwynebiadau.

**EITEM 8: Unrhyw Fusnes Arall**

31. Croesawodd y Cadeirydd farn yr aelodau ar a ddylid parhau i gynnal y cyfarfod PMC nesaf ar 17 Tachwedd yn rhithiol neu a fyddai'n well gan aelodau gyfarfod wyneb yn wyneb.  Nodwyd y sylwadau canlynol:

- Mae cyfarfod hybrid yn bosibl, fodd bynnag, heb fwy na 10 yn rhithiol gan y gall hyn fod yn anodd ei reoli.
- Croesawodd rhai aelodau'r cyfle i gwrdd yn bersonol yn y cyfarfod nesaf gan awgrymu'r posibilrwydd o gael cyfarfod estynedig i gwmpasu trafodaethau ariannu'r dyfodol.
- Os bydd cyfarfod wyneb yn wyneb, dylid ystyried lleoliad y cyfarfod, gan ystyried amseroedd teithio ar gyfer aelodau o bob cwr o Gymru.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am fynychu ac am eu cyfraniadau i'r trafodaethau.

**Ysgrifenyddiaeth PMC**

**Ebrill 2022**

**ATODIAD A**

**CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020**

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU**

**Dydd Iau 19 Mai 2022**

**Cyfarfod rhithwir trwy Microsoft Teams**

**Cadeirydd – Mike Hedges AS**

***Enwebwyd aelodau ar sail gynrychioliadol, gan bartneriaid a chyrff statudol:***

| | |
|---|---|
| Lowri Gwilym | CLILC (yn lle y Cynghorydd Cllr Dyfrig Siencyn) |
| Rachel Lewis-Davies | Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (NFU) |
| Matthew Brown | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) |
| Bill Purvis | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Huw Evans | Prifysgol Abertawe (yn lle yr Athro Steve Wilkes) |
| Nick Fenwick | Undeb Ffermio Cymru (FUW) |
| Lisa Michelle Thomas | Colegau Cymru |
| Arfon Williams | RSPB |
| Matthew Bennett | DWP |
| Lowri Owain | LEADER |
| Duncan Hamer | Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| Scott Morgan | Llywodraeth Cymru |
| Nigel Hollett | CLA |
| Tom Whyatt | Diwydiant Cymru |
| Derek Walker | Cymru Cydweithredol |

| ***Aelodau a ddewiswyd drwy broses penodiadau Cyhoeddus:*** |
|---|
| Grahame Guilford |
| Sian Price |

***Cynghorwyr:***

| | |
|---|---|
| Guus Muijzers | Comisiwn Ewropeaidd, CG Rhanbarthol |
| Evert Veltkamp | European Commission, CG Cyflogaeth |
| Egle Puosiunaite | European Commission, CG Amaethyddiaeth |

**Awdurdodau Rheoli Rhaglenni:**

| | |
|---|---|
| Peter Ryland | Prif Weithredwr, WEFO |
| Ryan Doyle | Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Economi Wledig a Deddfwriaeth |
| Karl James | Rhaglenni EDRF, WEFO |
| Geraint Green | Pennaeth Rhaglenni ESF Programmes, WEFO |
| Richard Self | Pennaeth Ymchwil, Monitro a Gwerthuso, WEFO |
| James Burgess | Dirprwy Bennaeth Awdurdod Rheoli RDP |
| John Davies | Pennaeth Rhwydwaith Gwledig Cymru |
| Stuart Brailsford | Pennaeth Achredu Asiantaeth Dalu |
| Lois Wilson | Ysgrifenyddiaeth |
| Vanessa Crew | Ysgrifenyddiaeth |

***Ymddiheuriadau:***

| | |
|---|---|
| Alison Parken | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| Cllr Dyfrig Siencyn | CLlLC |
| Beth Winkley | Penodiad Cyhoeddus |
| Yr Athro Steve Wilkes | Prifysgol Aberatwe |
| David Blaney | HEFCW |
| Iestyn Davies | Colegau Cymru |
| Cllr Rob Stewart | CLlLC |
| Dai Davies | Penodiad Cyhoeddus |
| Janis Richards | Make UK |

**CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020**

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU**

**Dydd Iau 19 Mai 2022**

**Cyfarfod Rhithwir trwy Microsoft Teams**

**Nodiadau Cyfarfod**

**EITEM 1: Croeso ac Ymddiheuriadau**

1. Croesawodd y Cadeirydd Aelodau i gyfarfod rhithiol Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru (PMC) gan hysbysu Aelodau o brotocolau’r cyfarfod / cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

2. Mae cworwm yn y cyfarfod, gan alluogi cymeradwyo'r Adroddiadau Gweithredu Blynyddol (AGBau) yn Eitem Agenda 7. Rhestrir y rhai sy'n bresennol ac ymddiheuriadau yn **Atodiad A.**

**EITEM 2: Cofnodion cyfarfod Rhagfyr 2021, camau gweithredu a materion eraill yn codi**

3. Gofynnodd aelodau am eglurhad ar yr eitemau agenda canlynol:

• Eitem 3, Cynlllun Datblygu Gwledig (RDP), paragraff 6, gwariant ar y rhaglen – anghysondeb posibl mewn perthynas â chyfanswm y gwariant sy'n gysylltiedig â thaliadau trosglwyddo Colofn 1 h.y. £267m yn cael ei nodi o fewn cofnodion Rhagfyr 2021, yn hytrach na £231m a gynhwysir ym mhapur y Cynllun Datblygu Gwledig a gyhoeddwyd i Aelodau, 5 Mai 2022.

• Eitem 3, RDP, paragraff 10 – Gofyniad rheoleiddio'r UE i gyhoeddi yn flynyddol fanylion derbynwyr cyllid PAC & a yw gofyniad rheoleiddiol tebyg wedi'i osod ar dderbynwyr Cyswllt Ffermio / is-set o dderbynwyr. Cafodd yr aelodau wybod am

gronfa ddata ledled y DU sy'n darparu dadansoddiad cyffredinol o fuddiolwyr/ symiau a ddyfarnwyd, fodd bynnag, angen gwirio a yw is-setiau o dderbynwyr yn cael eu cadw. **GWEITHREDU: Swyddogion RDP i fynd i'r afael â'r anghysondeb mewn perthynas â chyfanswm y gwariant ar gyfer taliadau trosglwyddo Colofn 1 yn y papur diweddaru ac a yw manylion derbynwyr cyswllt ffermio / is-set y derbynwyr yn cael eu cyhoeddi a'u cadarnhau/ egluro yn ysgrifenedig yn dilyn y cyfarfod.**

4. Ac eithrio y 2 bwnc am eglurhad, cytunwyd ar y cofnodion fel cofnod cywir ac nid oedd unrhyw weithredoedd heb eu cyflawni. Mae cynnydd ar bwyntiau gweithredu sy'n codi wedi'u rhestru yn **Atodiad B.**

**EITEM 3: Y diweddaraf ar Gynnydd Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd**

**Y Cynllun Datblygu Gwledig**

5. Rhoddodd Ryan Doyle, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Economi a Deddfwriaeth Wledig ddiweddariad ar y Cynllun Datblygu Gwledig (RDP) 2014-2020:

• Mae'r RDP yn parhau i wneud cynnydd da o ran ymrwymiad, cyflawniad a gwariant. Ar ddiwedd mis Mawrth 2022 mae ymrwymiad lefel y prosiect yn £833m, sy'n 99% o ymrwymiad mewn cronfeydd, cyfanswm gwerth y rhaglen yw £842m

• Gwariant rhaglen hyd yn hyn: £625m a £439m ohono yn EAFRD. Cyflawnwyd targedau N+3 ar gyfer 2021 yn gynharach yn y flwyddyn er gwaethaf heriau COVID-19, ymadawiad y DU o'r UE a'r argyfwng costau byw presennol yn y DU. Rhagwelir y bydd nifer y cynlluniau sy'n cael eu gweithredu trwy'r Rhaglen, er ar wahanol gamau yn eu gwerthusiad o brosiectau, yn cynorthwyo i sicrhau gwariant rhaglen lawn erbyn diwedd 2023

• Mae cyfraddau gwallau/arolygu rhaglenni yn isel a phob cyfrif Asiantaeth Dalu (Taliadau Gwledig Cymru (RPW)) wedi'u clirio gan CE – gan ddangos mecanweithiau cadarn ar waith ar gyfer RPW

• Atgoffwyd aelodau y bydd angen cyflwyno ceisiadau terfynol am dalu arian o bob cynllun erbyn Mehefin 2023 ac ni fydd estyniad i'r dyddiad hwn. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd fod yr argyfwng costau byw yn cael effaith ar gyflawni prosiectau ar hyn o bryd. Bydd RPW yn monitro'r sefyllfa hon yn fanwl a bydd yn gweithio gyda prosiectau/ buddiolwyr i fynd i'r afael â hyn.

6. Rhoddodd Ryan Doyle ddiweddariadau ar bob blaenoriaeth RDP a chafodd yr Aelodau wybod bod yr wybodaeth a gyflwynwyd yn cynnwys cymeradwyo y Comisiwn Ewropeaidd (CE) o 5ed addasiad y Rhaglen:

• Blaenoriaeth 2 – Mae Cyswllt Ffermio (CFf), y Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (GCC), y Grant Busnes i Ffermydd (GBFf) a’r Bartneriaeth Arloesi Ewropeaidd (EIP) ar gyfer Cynhyrchiant Amaethyddol a Chynaliadwyedd wedi cyflawni'r holl ddangosyddion nad ydynt yn ariannol a byddant yn gorgyflawni. Bydd dangosyddion ariannol yn cael eu hadrodd/ eu gwireddu tuag at ganol/ diwedd y cynlluniau/ Rhaglen.

• Blaenoriaeth 3 - Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (FBIS) heb newid ers y PMC diwethaf, gyda dros £161 miliwn o fuddsoddiadau cyfalaf newydd yng Nghymru i helpu/cefnogi'r sector bwyd amaeth. Hefyd, bydd y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig yn darparu buddsoddiad cyfalaf sy'n cyfateb â £2.7m. Fel y nodwyd yn y cyfarfod diwethaf, mae Mesur 16 wedi cronni gwariant is na'r disgwyl, yn bennaf oherwydd COVID-19. Mae cymeradwyo 5ed addasiad y Rhaglen wedi galluogi adleoli cyllideb Mesur 16.

• Blaenoriaeth 4 – Glastir Amaeth-amgylchedd a Grantiau Bach Glastir – mae'r ddau gynllun wedi'u cymeradwyo i redeg tan ddiwedd cyfnod y Rhaglen trwy gymeradwyaeth y CE o 5ed Addasiad y Rhaglen

• Blaenoriaeth 5 – gan gynnwys (a) Glastir - Creu Coetir (GCC) – prosiectau a ddewiswyd drwy'r swm crwn diwethaf o £4 miliwn, (b) Glastir Adfer Coetir (GAC) a (c) Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren (CBBP), Mesur 8.6 – sy'n adrodd yn erbyn dau Faes Ffocws h.y. 5C (ynni adnewyddadwy a'r bio-economi) a 6A (Creu Swyddi). Yn dilyn galwad diweddar am Ddatganiadau o Ddiddordeb (EOIs) mae Mae Ffocws 6A wedi cael mwy o brosiectau cymeradwy, fodd bynnag o ran targedau creu swyddi, ni fydd y rhain yn cael eu gwireddu nes i brosiectau gael eu cwblhau.

• Blaenoriaeth 6 - mae cynlluniau a gefnogir yn cynnwys LEADER, Cronfa Datblygu Cymunedol Gwledig (RCDF), TBIS, Adnoddau Naturiol yr Amgylchedd a Llesiant (ENRaW) a'r Cynllun Buddsoddi Mewn Busnesau Gwledig newydd (anamaethyddol) (RBIS Anamaethyddol). Mae nifer y buddiolwyr a gefnogir yn ymddangos yn isel gan mai dim ond dau gais a gymeradwywyd gan RPW. Caiff hyn ei ddatrys wedi derbyn ffurflenni hawlio taliadau pan fydd y dangosyddion cysylltiedig yn cael eu diweddaru a byddant yn cael cymorth pellach gyda manylion cyflawni trwy gynlluniau RBIS Anamaethyddol ac RBIS Bwyd.

7. Cynghorodd Ryan Doyle aelodau mai dyma fydd ei PMC olaf a bydd James Burgess yn cymryd yr awenau fel Pennaeth yr Awdurdod Rheoli. Diolchodd y Cadeirydd i Ryan am ei gyflwyniad ac am ei gyfraniadau i'r PMC.

8. Croesawodd yr aelodau'r diweddariad ac mewn trafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

• Mae’r dyrannu, yr ymrwymiad a’r gwariant data a gedwir yn nhabl 1 o'r papur diweddaru RDP yn gofyn am eglurhad o gyfanswm y ffigur gwariant mewn % a nodwyd fel 41%, a ddylai adlewyrchu 74% yn seiliedig ar ffigurau a ddarparwyd. Bydd swyddogion y RDP yn mynd i'r afael â hyn ac yn rhoi cadarnhad ysgrifenedig o'r ffigwr cywir mewn % i'w ddefnyddio.

• Byddai aelodau'n croesawu sicrwydd y bydd gwariant y Rhaglen lawn yn cael ei gyflawni yn enwedig gan ei bod yn ymddangos y bydd angen i'r Rhaglen wario dros £200m yn ei blynyddoedd olaf o gyflwyno ac ynghyd â'r gofynion/ dibyniaeth ar gyllid cyllid domestig. Rhoddwyd cyngor i’r aelodau fod y Rhaglen yn ddeinamig o ran cwmpas/ natur a bod perygl o wariant hwyr. Er eu bod ar y trywydd iawn i gyflawni gwariant llawn mae llawer o ffactorau allanol h.y. ffactorau economaidd/ cymdeithasol a fydd o bosibl yn cael effaith ar hyn.

• Yr angen i addasu y 6ed Rhaglen i sicrhau gwariant llawn y Rhaglen. Mae RDP yn edrych ar hyn ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gyflwyno i’r PMC ym mis Hydref 2022. Roedd yr aelodau'n nodi'r angen i roi hysbysiad cynnar i'r PMC o addasiadau yn y dyfodol er mwyn rhoi digon o amser i ystyried y newidiadau arfaethedig. Sicrhawyd yr aelodau bod yn rhaid i bob addasiad gadw at ofynion rheoleiddio'r UE o ran prydlondeb a bydd y rhain yn cael sylw fel o'r blaen. Hefyd, bydd swyddogion y RDP yn rhoi'r cyfle i gael trafodaethau cyn-addasu gydag Aelodau ac yng ngoleuni ystyried unrhyw gymeradwyaethau Gweinidogol angenrheidiol.

• Mae gwerthuso Cywain a nodwyd yn y PMC yn werthusiad annibynnol a gomisiynwyd gan arweinydd cyflenwi'r prosiect ac nid Llywodraeth Cymru. Mae gwerthuswyr Cywain wedi cadarnhau y bydd gwerth am arian yn cael ei ystyried fel rhan o'u gwerthusiad yn amodol ar y data perthnasol sydd ar gael. Cadarnhaodd tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso Llywodraeth Cymru (RME) y bydd y rhyngweithio rhwng Cywain â'r Cynlluniau Bwyd yn cael ei asesu, fel rhan o werthuso Cynlluniau Bwyd, a bydd yn cynnwys asesiad gwerth am arian, unwaith eto yn amodol ar argaeledd data perthnasol ar gyfer Cywain.

• Dathliad Datblygu Gwledig, Mehefin 2022 – rhai arsylwadau o fuddiolwyr sydd ddim yn cadw at ofynion rheoleiddio'r UE yn llawn ynghylch cyhoeddusrwydd. Dywedodd yr aelodau fod yr holl gytundebau ariannu / llythyrau cymeradwyo i fuddiolwyr yn cynnwys amod i roi cyhoeddusrwydd i dderbyn arian gan RDP ac y gallai peidio â gwneud hynny arwain at adfachu arian.

9. Cododd un aelod fater argyfwng presennol Wcráin a gofynnwyd a yw y CE wedi/ a fydd yn cyhoeddi unrhyw hyblygrwydd o ran defnyddio rheoliadau'r RDP i ddarparu cymorth ychwanegol i ffermwyr o ran cnydau, yn enwedig gan (a) bod y prif dymor tyfu yn agosáu, felly bod angen gweithredu ar frys a (b) i atal unrhyw niwed posibl i'r gadwyn cyflenwi bwyd. Dywedwyd wrth yr aelodau am becyn Gweithredu Cydlyniant y CE ar gyfer Ffoaduriaid yn Ewrop (CARE) a gyhoeddwyd fis Mawrth 2022 – gan alluogi Aelod-wladwriaethau i ddarparu cymorth brys sy'n cwmpasu anghenion sylfaenol pobl sy'n ffoi rhag ymosodiad Rwsia ar Wcráin e.e. mynediad at lety dros dro, bwyd, dŵr a gofal meddygol – pecyn sydd ddim yn canolbwyntio ar

gyflenwadau bwyd/ economi ehangach pan gafodd ei sefydlu. Mae pecyn CARE sydd ar gael i Awdurdodau Rheoli o fewn y DU, fodd bynnag, ar hyn o bryd dim ond yn benodol o ran cymhwyso rheoliadau'r gronfa strwythurol ac nid RDP.

10. Ychwanegodd Peter Ryland bod WEFO wedi rhoi diweddariad i'r buddiolwyr ar y pecyn CARE, gan amlinellu sut y gellir ei ddefnyddio o fewn Rhaglenni presennol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)/ Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) h.y. helpu gyda hyfforddiant sgiliau a helpu i weithio drwy gynlluniau/ gweithrediadau presennol. Un o'r newidiadau craidd yn arbennig yw'r posibilrwydd o ariannu ar y cyd 100% o UE ar gyfer 2014-2020 yn cael ei ymestyn ar gyfer y flwyddyn gyfrifo 2021-2022. Nododd swyddogion y RDP nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw hyblygrwydd penodol ar gyfer rheoleiddio'r RDP ond byddant yn cysylltu â’r CE ar becynnau / cyhoeddiadau posibl ac yn adrodd yn ôl i Aelodau. **GWEITHREDU: Swyddogion RDP i gysylltu â’r CE ar becynnau / cyhoeddiadau posibl ac adrodd yn ôl i Aelodau.**

<u>Trosolwg o Gronfeydd Strwythurol</u>:

11. Diolchodd Peter Ryland, Prif Swyddog Gweithredol WEFO, i aelodau am yr amser a roddwyd i gyfarfodydd PMC a'r Adroddiadau Gweithredu Blynyddol sy'n elfen fonitro bwysig i'r Comisiwn Ewropeaidd i sicrhau bod arian yn cael ei wario'n gywir.

12. Mae'r pedair rhaglen yn parhau i wneud cynnydd da yn ystod cyfnod heriol parhaus. Hyd yn hyn, ymrwymodd 100% o'r cronfeydd, sy'n cyfateb i tua £2.1bn yn erbyn 266 o weithrediadau. Bydd y gyfradd gynllunio o £1/€1:17 yn parhau i gael ei fonitro bob mis oherwydd amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid ac ansicrwydd parhaus. Daw y gyfradd gynllunio yn fwy sylfaenol wrth inni ddod yn nes at ddiwedd y rhaglenni, er mwyn sicrhau bod cymaint o wariant â phosibl a bod digon o arian i dalu buddiolwyr.

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)**

13. Rhoddodd Peter Ryland ddiweddariad i aelodau ar weithgarwch yn rhaglen ERDF, gan dynnu sylw at 148 o weithrediadau a gymeradwywyd gyda dros £1.2bn wedi'i ymrwymo. Mae cymeradwyaethau ac estyniadau newydd a gytunwyd ers y PMC diwethaf yn cynnwys:

• Seilwaith Morlais (ERDF £31m) sy'n cael ei arwain gan Menter Mon Morlais Limited.

• Cynllun Monitro a Lliniaru Amgylcheddol (EMMP) (ERDF dros £4.7) Hefyd yn cael ei arwain gan Menter Mon Morlais Limited

• Ymestyn Busnes Cymdeithasol Cymru (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) hyd at Mawrth 2023

• Ymestyn Prosiect Nova Enlli hyd at Gorffennaf 2023

14. Mae'r gwariant cyffredinol ychydig y tu ôl i ble yr hoffem fod ar y pwynt hwn yn y rhaglenni gyda thynnu i lawr ar 50% ar yr ERDF yng Nghymru (o'i gymharu â 57% ar gyfartaledd ledled y DU, a 56% ar draws yr UE). Y prif reswm am hyn yw fod nifer o raglenni cyfalaf sy'n tueddu i fod â hawliadau mawr ar ddiwedd y rhaglenni. Mae ERDF Gorllewin Cymru a’r Cymoedd wedi cyrraedd ei darged N+3 ar gyfer 2021 ond nid yw targedau 2022 ar gyfer Gorllewin Cymru a’r Cymoedd a Dwyrain Cymru wedi'u cyrraedd eto. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa i annog eu priod sectorau/ buddiolwyr i gyflawni/ gwario i'w cynlluniau busnes/ proffiliau cyflenwi cymeradwy.

15. Fel y nodwyd yn y cyfarfod diwethaf, bydd angen addasu rhaglenni ERDF unwaith y bydd yr adolygiad Dangosydd wedi’i ystyried ochr yn ochr ag ail-ddyrannu arian o fewn yr echelinau Blaenoriaeth. Fodd bynnag, nid yw'r addasiad hwn yn debygol o gael ei gyflwyno i'r PMC tan yn ddiweddarach yn 2022.

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)**

16. Diweddarodd Peter Ryland yr aelodau ar weithgaredd o fewn y rhaglen ESF, gan dynnu sylw at y ffaith bod 118 o weithrediadau wedi'u cymeradwyo gyda £857m wedi'i ymrwymo. O dan y Flaenoriaeth ESF Cynnwys Covid trwy Gapasiti, mae ceisiadau cyllid i gefnogi gweithgarwch GIG Cymru sy'n delio â phandemig Covid-19 yn cael eu paratoi ar hyn o bryd.

17. Mae'r gwariant ar hyn o bryd ar 66% (£583m) a thynnu i lawr ar 75% (o'i gymharu â chyfartaleddau o 49% ar draws y DU, a 57% ar draws yr UE). Mae'r ddwy raglen ESF wedi cyrraedd eu targed 2022 N+3.

18. Hefyd, tynnodd Peter sylw at y canlynol:

• Er bod y rhaglenni wedi ymateb yn gadarnhaol i'r pandemig y ffocws yw darparu'r gweithrediadau i sicrhau bod yr holl arian yn cael ei ddefnyddio i'w heffaith orau. Mae WEFO yn ymwybodol o bryderon ynghylch adnoddau staff a phwysigrwydd sicrhau bod llwybrau archwilio ac ati ar gael tan ddiwedd y cyfnodau cadw.

• Fel y nodwyd eisoes, mae gwario a chyflwyno hawliadau yn flaenoriaeth ac mae ceisiadau ymestyn bellach yn eithriadau gan fod gormod o weithgaredd tuag at ddyddiad gorffen y rhaglen h.y. 31 Rhagfyr 2023, yn effeithio'n sylweddol ar y broses o gau.

• Mewn rowndiau gwariant blaenorol, roedd hyblygrwydd i ddefnyddio gwariant cymwys dros ben mewn un Blaenoriaeth i danwariant mewn Blaenoriaethau eraill yn yr un Rhaglen, gan hyd at 10% o gyfanswm gwerth y Blaenoriaethau dan sylw. Fodd bynnag, ar gyfer y rownd bresennol, mae'r hyblygrwydd hwn wedi'i gyfyngu i 10% o werth gwariant ym mlwyddyn olaf y Rhaglen yn unig. Felly mae rheoli cau yn flaenoriaeth i WEFO a dylai prosiectau edrych i baratoi cymaint â phosib.

• Cyhoeddwyd canllawiau ynghylch cymhwysedd Wcrainiaid sy'n setlo yng Nghymru ar gyfer cynlluniau CGE a phrosiectau cymorth busnes ERDF drwy fwletin e-gylchlythyr a hefyd sianeli cyfathrebu RETs. Mae WEFO hefyd wedi diweddaru Canllawiau ESF 2014-20 ar asesu cymhwysedd cyfranogwyr i roi mwy o fanylion am gymhwysedd unigolion.

• Adolygiad Dangosydd Annibynnol – asesiad diduedd ac annibynnol o ddarparu rhaglenni a darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer unrhyw newidiadau i ddangosyddion y gallwn eu cynnig. Bydd y tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso yn cwblhau'r adroddiad ddiwedd mis Mai ac yn ceisio cyhoeddi canol / diwedd Mehefin.

12. Diolchodd y Cadeirydd i Peter am ei gyflwyniad ac mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau nododd Peter mai'r cynllun ar hyn o bryd yn y rhaglenni yw cyflawni'r hyn y maent wedi ymrwymo iddo ac ychydig iawn o hyblygrwydd sydd o ran gwariant. Does dim modd ail-leoli arian yn hawdd ac mae'r rhaglenni wedi gor-ymrwymo gan fod disgwyl rhywfaint o danberfformio. Mae WEFO wedi gweld problemau ei hun o ran adnoddau, fodd bynnag mae'r timau taliadau ac MVT bellach wedi sefydlogi a gellir symud ymlaen ar ôl-groniad hawliadau. Mae WEFO yn ymwybodol o anghenion penodol rhai buddiolwyr lle mae llif arian yn fwy aciwt a blaenoriaethu lle bo angen.

**EITEM 4: Diweddariad wedi'r Cyfnod Pontio a Therfynu**

13. Rhoddodd Peter Ryland ddiweddariad i'r aelodau gan dynnu sylw at y canlynol:

• Cysylltodd Llywodraeth y DU â'r awdurdodau datganoledig yn gynnar ym mis Ebrill 2022 i gael sgwrs ystyrlon ar Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (SPF) cyn i Prosbectws SPF gael ei ryddhau. Cafodd rhywfaint o gynnydd ei wneud ond doedd Gweinidogion Cymru ddim yn gallu cymeradwyo dull Llywodraethau'r DU.

• Gwnaed cynnydd dros gwmpas/ blaenoriaethau a ffocws yr arian a chytunwyd i gynnwys y fframwaith buddsoddi rhanbarthol fel rhan o'r prosbectws. Trafodwyd trefniadau llywodraethu hefyd ac nid oes unrhyw rôl ffurfiol ar gyfer Gweinidogion / Llywodraeth Cymru yn SPF y DU. Serch hynny, y fethodoleg ariannu oedd yr hyn na ellid cytuno arno, ac er bod trysorlys Cymru yn cynnig fformiwla amgen fyddai'n

dosbarthu cyllid yn decach ledled Cymru yn ôl angen economaidd, cafodd hyn ei wrthod gan Lywodraeth y DU ac ar y sail yma doedd dim modd cytuno ar y model.

• Er nad yw Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo SPF y DU, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cefnogi rhanbarthau/ partneriaid llywodraeth leol lle mae buddsoddiadau'n alinio ac yn gallu cynnig cefnogaeth i helpu yn y ffordd y maent yn darparu/ gweithredu buddsoddiadau.

19. Diolchodd yr aelodau i Peter am y diweddariad ac mewn trafodaeth cododd y canlynol:

• Cais am eglurhad am werth colli mwy na £1bn o gyllid i Gymru. Cadarnhaodd Peter fod y ffigwr hwn yn cynnwys cronfeydd strwythurol a RDP.

• Cwestiwn ar sut y bydd SPF y DU yn cael ei fonitro a'i graffu yng Nghymru - nododd Peter nad oes canllawiau cyfredol, ac nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd. O safbwynt technegol bydd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol gyfrifoldeb i adolygu'r gronfa ar lefel Brydeinig a swyddfa Archwilio Cymru ar lefel awdurdodau lleol Cymru gyda lefel / sgôp adolygiadau yn cael eu penderfynu gan y swyddfeydd archwilio amrywiol. Bydd yn anodd monitro / gwerthuso ar lefel Cymru er o safbwynt Llywodraeth y DU efallai y bydd yn cael ei weld fel lleihad mewn biwrocratiaeth.

• Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gael trafodaethau gyda llywodraeth leol/ trydydd sector ar lefel strategol ar gyllid yn y dyfodol er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn cyllid/ osgoi dyblygu

20. Nododd Lowri Gwilym, o safbwynt llywodraeth leol, fod y gwaith yn parhau o ran cynllunio ar gyfer yr SPF, nodi bylchau allweddol ac ymgysylltu â phartneriaid cymunedol lleol ar gyfer ymyriadau lleol / micro.

**EITEM 5: Digwyddiad Dathlu Rhwydwaith Gwledig Cymru**

21. Gwahoddwyd John Davies, Pennaeth Rhwydwaith Gwledig Cymru i roi cyflwyniad ar y digwyddiad i'w gynnal ym mis Mehefin 2022. Cyn rhoi gwybod i Aelodau am y digwyddiad, cyfeiriodd John at yr ymholiad a godwyd gan Aelodau mewn perthynas â chyhoeddusrwydd a gofynnodd am fanylion er mwyn mynd i'r afael y tu allan i gyfarfod PMC. Yna tynnodd John sylw at y canlynol o ran y digwyddiad dathlu:

• Mae'r digwyddiad 2 ddiwrnod yn cael ei gynnal i dynnu sylw at lwyddiannau y rhaglenni gwledig, dathlu cyflawniadau ac edrych ymlaen at ddyfodol Cymru wledig.

• Bydd y Gweinidog Materion Gwledig, y Gweinidog Newid Hinsawdd a Chyfarwyddwr yr Amgylchedd a'r Môr yn mynychu'r digwyddiad. Bydd gweithdai a phaneli rhanddeiliaid/ arbenigol a seremoni wobrwyo wledig, gan arddangos cyflawni prosiectau gwledig.

• Bydd y Prif Weinidog yn bresennol yn nigwyddiad rhwydweithio Blas ar Gymru, ar y 9fed Mai a bydd yn gyfle i flasu bwyd a diod o Gymru a dysgu am y rhaglenni datblygu gwledig.

**EITEM 6: Adroddiadau Gweithredu Blynyddol (AIRs)**

Cronfeydd Strwythurol (ERDF ac ESF)

22. Cyflwynodd Richard Self, Pennaeth Ymchwil, Monitro a Gwerthuso yr AIRs i'r pwyllgor a nododd fod y cyflwyniad yn cwmpasu (i) gofynion ar gyfer cyflwyno AIRs y Cronfeydd Strwythurol/ RDP i'r Comisiwn Ewropeaidd (ii) cynnwys a strwythur yr AIRs a (iii) Uchafbwyntiau, gan gynnwys pa faterion gweithredu y mae'r adroddiadau'n tynnu sylw atynt, gwerthuso, a chynnydd ariannol a pherfformiad yn erbyn dangosyddion. Ymhlith yr uchafbwyntiau allweddol roedd:

• Mae'r AIRs drafft yn manylu ar y gweithgareddau a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Rheoli i weithredu'r Rhaglenni ac mae adroddiadau eleni yn cwmpasu'r cyfnod 01/01/2021 i 31/12/2021.

• Mae adrannau 2 a 3.1 yn rhoi trosolwg o gynnydd ariannol cyffredinol, mae Adran 3.2 yn darparu data manwl yn erbyn yr holl dargedau dangosyddion cyffredin a rhaglen-benodol, mae adran 3.3 yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn targedau 2023 y Fframwaith Perfformiad, Adran 4 yn adrodd ar unrhyw dystiolaeth werthuso sydd wedi dod ar gael yn ystod y flwyddyn adrodd, mae Adran 6 yn adrodd ar unrhyw faterion sy'n effeithio ar berfformiad y Rhaglen ac Adran 8 yn darparu data manwl ar weithredu unrhyw Offerynnau Ariannol a gymeradwywyd o dan y Rhaglenni.

• Yn ôl pob un o'r pedwar AIR, gofynnwyd am estyniadau yn ystod 2021 gan nifer o weithrediadau er mwyn mynd i'r afael â'r amser a gollwyd oherwydd effaith Covid-19 a chomisiynwyd adolygiad allanol o ddangosyddion perfformiad, gan gynnwys edrych ar effaith Covid-19.

• Materion allweddol - Ar gyfer ERDF ac ESF, effeithiodd Covid-19 ar gyflawni. Ar gyfer yr ERDF bydd gwariant yn cynyddu yn ystod gweddill blynyddoedd y rhaglenni, yn enwedig o ran isadeiledd, ond gyda'r rhan fwyaf o weithrediadau'n cwblhau eu gwariant ac yn cyflenwi erbyn mis Mehefin 2023. Roedd portffolio ESF yn parhau i fod yn berthnasol i'r heriau sy'n cael eu hwynebu yn y farchnad lafur, o ganlyniad i'r pandemig.

• Yn gryno:

o Parhawyd i wneud cynnydd da ar draws y pedair rhaglen yn ystod 2021, yn ariannol ac ar gyfer dangosyddion perfformiad

o Covid-19 wedi cael effaith ar weithredu ac mae hyn wedi arwain at estyniadau i nifer o weithrediadau

o Adolygiad annibynnol o berfformiad ei holl raglenni ESF, ERDF ac ETC yn erbyn dangosyddion, gan gynnwys yr effaith y mae Covid-19 wedi'i gael ar gynnydd, wedi ei gomisiynu gan WEFO. Ni chafwyd yr adroddiad terfynol a'r canfyddiadau yn ystod 2021 ond mae disgwyl iddynt gael eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2022.

Rhaglen Datblygu Gwledig

23. Cyflwynodd Richard Self hefyd AIR y RDP ac amlygodd y canlynol:

• Mae adran 1 yn rhoi diweddariad ar weithredu'r rhaglen, mae Adran 2 yn rhoi diweddariad ar weithredu'r cynllun Gwerthuso yn ystod 2019, mae Adran 3 yn ymdrin â materion sy'n effeithio ar berfformiad y Rhaglen a'r mesurau a gymerwyd i ddatrys y rhain, mae Adran 4 yn edrych ar ddefnyddio TA a gofynion cyhoeddusrwydd, ac mae gwaith Rhwydwaith Gwledig Cymru ac Adran 11 yn cynnwys tablau ar gyfer y dangosyddion cyffredin a'r gwerthoedd targed.

• Roedd materion sy'n effeithio ar berfformiad y rhaglen yn cynnwys materion yn ymwneud â mesurau economaidd cymdeithasol ym mis Ebrill 2021, gweithredwyd camau cywiro sy'n gyflawn ac ar gyfer blwyddyn hawlio 2020, manteisiodd yr Asiantaeth Dalu ar y Rhanddirymiad yn Rheoliad Gweithredu Comisiwn (UE) 2020/532 gan leihau'r cyfraddau arolygu gofynnol oherwydd achosion Coronafeirws

• Rhaglen wedi ymrwymo'n llawn erbyn diwedd 2021 a chynnydd cryf a wnaed wrth gyflawni yn ystod 2021 gyda thaliadau €112.2m ar gyfer gweithgarwch a gynhaliwyd ac a hawliwyd yn ystod 2021.

• Erbyn diwedd 2021 roedd rhai o'r llwyddiannau allweddol a gyflwynwyd drwy'r Rhaglen yn cynnwys: Derbyniodd 90,879 o gyfranogwyr hyfforddiant, 8,491ha o goetir newydd wedi'i greu, derbyniodd 7,396 o ddaliadau gymorth buddsoddi drwy'r SPG a FBG. Cefnogwyd 7,491 o gontractau o dan amaeth-yr amgylchedd-hinsawdd erbyn mis Mawrth 2022, a 4,330ha wedi derbyn cymorth drwy Gynllun Rheoli Coetir Glastir, ynghyd â 1,342 hectar o goetir wedi'u hailstocio drwy Gynllun Adfer Coetir Glastir a 46 o brosiectau wedi eu hariannu drwy'r Bartneriaeth Arloesi Ewropeaidd.

**EITEM 7: Holi ac Ateb ar Adroddiadau Gweithredu Blynyddol (AIRs) a chymeradwyaeth**

24. Bu aelodau yn trafod yr adroddiadau ac yn codi'r canlynol:

• Gwallau a nodwyd yn yr AIR RDP (1) yn tud. 38, ffigurau ymrwymo yn dangos fel €19.55m/ £23m a (2) 7,000 yn dal cytundebau amaeth-amgylcheddol, fodd bynnag

mae crynodeb y dinesydd yn nodi 4,800 ac mae nifer o'r contractau hyn wedi dod i ben a (3) Anghyfartaledd o ran nifer y contractau amaeth-amgylcheddol - nid yw hectorau tir cryno AIR a gan ddinasyddion yn cyd-fynd. Cadarnhaodd Richard y bydd tîm RME yn gwirio'r ffigyrau ac yn adolygu os oes angen.

• Mae AIR RDP tud. 35 yn nodi bod tir Llywodraeth Cymru wedi derbyn grantiau ar gyfer atal clefydau ac ati, a gofynnodd yr aelodau am fanylion pellach ynghylch os yw dyfarnu RDP yn arfer safonol? Cyfeiriad at fesur 10 & 11 - mae costau wedi cynyddu'n aruthrol oherwydd chwyddiant ac a ellid ystyried adolygu'r cyfrifiadau cost o ystyried yr hinsawdd bresennol.

• Mae AIR RDP tud. 38/39 yn cyfeirio at 41% o'r gyllideb wedi'i wario ar y cynllun SMS fodd bynnag mae hyn yn llawer is na’r targedau.

25. Nododd swyddogion RDP y byddent yn dod yn ôl at aelodau yn ysgrifenedig gydag atebion i'r cwestiynau / materion uchod a godwyd gan y bydd angen i rywfaint o'r wybodaeth gael sylw gan dimau polisi.

26. Cododd yr aelodau'r cwestiynau canlynol hefyd mewn perthynas â'r AIR RDP:

• Gwybodaeth bellach y gofynnwyd amdano am y 2 brif ddull rheoli a godwyd gan archwiliad CE 2021 a pha brosesau sydd wedi newid ers 2018 a arweiniodd at y materion hyn? Esboniodd Stuart Brailsford mai (a) rhesymoldeb y costau ar gyfer mesurau economaidd cymdeithasol (b) gwirio meini prawf cymhwysedd ar brosiectau. Roedd y mesurau a welwyd yn archwiliad 2018 a 2021 yn wahanol, felly aseswyd cyfundrefnau rheoli gwahanol. Nid oedd archwiliad y CE yn 2021 yn gysylltiedig ag archwiliad SAC ac roeddent yn faterion ar wahân. Nid yw'r cywiriad ariannol (cosb ariannol) ar gyfer 2021 sy'n cael ei ddefnyddio gan y CE yn hysbys eto ac maent yn aros am gofnodion cyfarfod dwyochrog diweddar. Unwaith y bydd cyfanswm y cosbau ariannol yn hysbys, gellir dosbarthu'r rhain i'r aelodau am wybodaeth. **GWEITHREDU: Swyddogion RDP i ddosbarthu ffigurau cosbau ariannol i aelodau unwaith eu bod yn hysbys.**

• Mwy o wybodaeth y gofynnwyd amdano am yr adroddiad gwerthuso yn ymwneud â'r rhaglen Cyswllt Ffermio ac os yw hyn yn cwmpasu'r newid i gyflenwi digidol yn hytrach na wyneb yn wyneb ac ar gyfer beth y defnyddiwyd y codiad mewn cyllid. Cadarnhaodd Richard fod mwy o waith gwerthuso yn cael ei wneud ar gyswllt ffermio, gan ganolbwyntio ar werth am arian a'r newid i ddarparu rhithwir.

27. Diolchodd swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd i'r awdurdodau rheoli am y gwaith o baratoi'r AIRs ac y byddant mewn cysylltiad drwy e-bost gydag unrhyw fân welliannau a awgrymir.

28. Diolchodd Peter Ryland i dîm RME am yr ymdrech o baratoi'r AIRs ac i aelodau am gymryd yr amser i roi ystyriaeth ddyledus.

29. Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau gymeradwyo'r AIRs canlynol:

• Rhaglen Datblygu Gwledig

• Cronfa Gymdeithasol Ewrop (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd)

• Cronfa Gymdeithasol Ewrop (Dwyrain Cymru)

• Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd)

• Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (Dwyrain Cymru)

30. Cymeradwywyd pob AIR heb unrhyw wrthwynebiadau.

**EITEM 8: Unrhyw Fusnes Arall**

31. Croesawodd y Cadeirydd farn yr aelodau ar a ddylid parhau i gynnal y cyfarfod PMC nesaf ar 17 Tachwedd yn rhithiol neu a fyddai'n well gan aelodau gyfarfod wyneb yn wyneb.  Nodwyd y sylwadau canlynol:

• Mae cyfarfod hybrid yn bosibl, fodd bynnag, heb fwy na 10 yn rhithiol gan y gall hyn fod yn anodd ei reoli.

• Croesawodd rhai aelodau'r cyfle i gwrdd yn bersonol yn y cyfarfod nesaf gan awgrymu'r posibilrwydd o gael cyfarfod estynedig i gwmpasu trafodaethau ariannu'r dyfodol.

• Os bydd cyfarfod wyneb yn wyneb, dylid ystyried lleoliad y cyfarfod, gan ystyried amseroedd teithio ar gyfer aelodau o bob cwr o Gymru.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am fynychu ac am eu cyfraniadau i'r trafodaethau.

**Ysgrifenyddiaeth PMC**

**Ebrill 2022**

**ATODIAD A**

**CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014-2020**

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU**

**Dydd Iau 19 Mai 2022**

**Cyfarfod rhithwir trwy Microsoft Teams**

**Cadeirydd – Mike Hedges AS**

***Enwebwyd aelodau ar sail gynrychioliadol, gan bartneriaid a chyrff statudol:***

| | |
|---|---|
| Lowri Gwilym | CLILC (yn lle y Cynghorydd Cllr Dyfrig Siencyn) |
| Rachel Lewis-Davies | Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (NFU) |
| Matthew Brown | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) |
| Bill Purvis | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Huw Evans | Prifysgol Abertawe (yn lle yr Athro Steve Wilkes) |
| Nick Fenwick | Undeb Ffermio Cymru (FUW) |
| Lisa Michelle Thomas | Colegau Cymru |
| Arfon Williams | RSPB |
| Matthew Bennett | DWP |
| Lowri Owain | LEADER |
| Duncan Hamer | Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| Scott Morgan | Llywodraeth Cymru |
| Nigel Hollett | CLA |
| Tom Whyatt | Diwydiant Cymru |
| Derek Walker | Cymru Cydweithredol |

| ***Aelodau a ddewiswyd drwy broses penodiadau Cyhoeddus:*** |
|---|
| Grahame Guilford |
| Sian Price |

***Cynghorwyr:***

| | |
|---|---|
| Guus Muijzers | Comisiwn Ewropeaidd, CG Rhanbarthol |
| Evert Veltkamp | European Commission, CG Cyflogaeth |
| Egle Puosiunaite | European Commission, CG Amaethyddiaeth |

**Awdurdodau Rheoli Rhaglenni:**

| | |
|---|---|
| Peter Ryland | Prif Weithredwr, WEFO |
| Ryan Doyle | Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Economi Wledig a Deddfwriaeth |
| Karl James | Rhaglenni EDRF, WEFO |
| Geraint Green | Pennaeth Rhaglenni ESF Programmes, WEFO |
| Richard Self | Pennaeth Ymchwil, Monitro a Gwerthuso, WEFO |
| James Burgess | Dirprwy Bennaeth Awdurdod Rheoli RDP |
| John Davies | Pennaeth Rhwydwaith Gwledig Cymru |
| Stuart Brailsford | Pennaeth Achredu Asiantaeth Dalu |
| Lois Wilson | Ysgrifenyddiaeth |
| Vanessa Crew | Ysgrifenyddiaeth |

***Ymddiheuriadau:***

| | |
|---|---|
| Alison Parken | Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol |
| Cllr Dyfrig Siencyn | CLlLC |
| Beth Winkley | Penodiad Cyhoeddus |
| Yr Athro Steve Wilkes | Prifysgol Aberatwe |
| David Blaney | HEFCW |
| Iestyn Davies | Colegau Cymru |
| Cllr Rob Stewart | CLlLC |
| Dai Davies | Penodiad Cyhoeddus |
| Janis Richards | Make UK |

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020:**

**Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig (RhDG) 2014-2020**

## 1. Y Diweddaraf am y RhDG yn ei chyfanrwydd

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i fwrw ymlaen i roi'r rhaglen ar waith, ar sail cyfradd gyfnewid gynllunio o £1:€1.176. Ym mis Tachwedd 2022 roedd £847m wedi'i ymrwymo ar lefel prosiectau, sef ymrwymiad o 100.6% y cronfeydd. Cyfanswm gwerth y rhaglen yw £842,027,473. Mae mwy na gwerth y rhaglen wedi'i hymrwymo, a disgwylir i brosiectau gyflawni'u hamcanion o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt. Ers y PMRh diwethaf, mae gwariant y Rhaglen gyfan hyd yma wedi cynyddu i £673 miliwn (£466m EAFRD). O hynny, mae £236m yn ymwneud â thaliadau trosglwyddo Colofn I.

Cyhoeddir y data monitro ar wefan Llywodraeth Cymru yma.

£ Miliwn

| Dyrannwyd[1] | | Ymrwymwyd[2] | | Gwariwyd[2] | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM** | **EAFRD** | **CYFANSWM** | **EAFRD** | **CYFANSWM** | **EAFRD** |
| 842 | 562 | 847 *(100.6%)* | 567 *(100.9%)* | 673 *(80%)* | 466 *(83%)* |

1 Yn seiliedig ar gyfradd gyfnewid gynllunio o £1:€1.176
Mae'r canrannau'n dangos cyfran yr hyn a ddyrannwyd

## 2. Newidiadau i'r Rhaglen

Cymeradwyodd y Comisiwn Ewropeaidd y 5ed newid i'r rhaglen ar 26 Ionawr 2022. Roedd y cynnig yn blaenoriaethu cymorth ar gyfer estyn mesurau Amaeth-Amgylchedd Glastir ac estyn y contract Cyswllt Ffermio.

Mae effaith COVID, ynghyd â Brexit, wedi bod yn fwy ar rai meysydd o'r rhaglen nag eraill, gan arwain at orfod gohirio ac addasu gweithgarwch. Adlewyrchwyd hyn yn y 5ed newid a welodd leihau'r cyllid i Fesur 16.

Mae gwaith cynllunio ar y gweill ar gyfer newid pellach fel rhan o broses cau’r rhaglenni. Defnyddir tanwariant i ailddosbarthu arian i sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddyrannu'n gywir i'r mesurau sydd ei angen i gyflawni dangosyddion y rhaglen orau.

### 3. Diweddaru’r Cynlluniau

Dyraniadau, ymrwymiadau, gwariant y Cynlluniau

Ffigurau diwedd Tachwedd 2022 yw’r rhai isod.

| Cynllun | Dyraniad Cynllun | Cyfanswm sydd wedi'i ymrwymo i brosiectau | Cyfanswm Gwariant |
|---|---|---|---|
| Cynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio* | £ 54,712,137 | £ 75,131,891 | £ 51,399,328 |
| Cynllun Cydweithio i Gynllunio Coedwigaeth | £ 109,892 | £ 63,932 | £ 63,932 |
| Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant | £ 31,000,000 | £ 29,572,994 | £ 7,899,522 |
| Partneriaeth Arloesi Ewrob | £ 2,475,000 | £ 2,474,680 | £ 1,884,462 |
| Seilwaith Fferm a Choedwigaeth | £ 50,000 | £ - | £ - |
| Cynllun Grant Busnes i Ffermydd | £ 23,607,843 | £ 21,184,034 | £ 20,375,858 |
| Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd* | £ 50,061,706 | £ 58,360,576 | £ 40,091,380 |
| Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi* | £ 91,290,028 | £ 94,373,814 | £ 78,476,844 |
| LEADER | £ 46,480,799 | £ 47,424,311 | £ 38,043,918 |
| Gwasanaeth Cynghori Busnesau Gwledig* | £ 14,322,407 | £ 14,211,326 | £ 12,653,973 |
| Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig* | £ 7,742,315 | £ 6,287,595 | £ 5,061,881 |
| Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig* | £ 18,330,782 | £ 20,479,242 | £ 18,729,268 |
| Cynllun Rheoli Cynaliadwy | £ 20,162,336 | £ 23,657,976 | £ 13,484,881 |
| Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy | £ 27,710,459 | £ 27,743,023 | £ 20,084,368 |
| Cymorth Technegol | £ 37,000,000 | £ 37,258,573 | £ 29,896,914 |
| Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren | £ 7,015,663 | £ 6,893,181 | £ 6,393,009 |
| **Cyfanswm Economaidd-Gymdeithasol** | **£432,071,366** | **£ 465,117,147** | **£344,539,538** |
| | | | |
| Cynllun Monitro Coedwigoedd a Rheoli Risgiau | £ 163,927 | £ 298,851 | £ 163,927 |
| Glastir Uwch | £192,133,026 | £ 178,166,502 | £147,392,212 |
| Tir Comin Gastir | £ 37,490,097 | £ 33,723,543 | £ 28,592,265 |
| Glastir Sylfaenol | £ 99,822,830 | £ 100,147,729 | £100,148,603 |
| Glastir Organig | £ 33,192,041 | £ 29,260,475 | £ 25,994,871 |
| Grantiau Bach Glastir | £ 10,607,802 | £ 10,339,473 | £ 10,327,199 |
| Creu Coetir Glastir | £ 22,480,615 | £ 15,924,084 | £ 11,803,992 |
| Rheoli Coetir Glastir | £ 959,900 | £ 620,100 | £ 620,997 |
| Adfer Coetir Glastir | £ 5,003,946 | £ 5,013,335 | £ 3,729,935 |
| Hen Gynlluniau | £ 8,101,923 | £ 8,217,312 | £ 6,992,314 |
| **Cyfanswm Amaeth-Amgylchedd** | **£409,956,107** | **£ 381,711,404** | **£335,766,315** |
| | | | |
| **Cyfanswm** | **£ 842,027,473** | **£ 846,828,551** | **£ 680,305,853** |

Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP)

Mae’r EIP wedi cael ei chyflwyno’n llwyddiannus yng Nghymru, gan annog ffermwyr o gymryd rhan a dod at ei gilydd fel Grwpiau Gweithredol. Ar 30 Tachwedd, roedd 231 o ffermwr a choedwigwyr yn aelodau, o 46 o Grwpiau cymeradwy. Mae cyfanswm o £1,799,515.17 wedi'i ddyfarnu rhwng y 46 grŵp, gyda chyfartaledd o £39,125 fesul grŵp (y cymorth mwyaf y gellir ei roi yw £40k).

Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi (KT&I)

Mae rhaglen estynedig KT&I yn parhau i helpu i drawsnewid rhagolygon busnes miloedd o ffermwyr a choedwigwyr. Ar 31 Hydref 2022, roedd cyfanswm o 12,572 o fusnesau gyda 26,409 o unigolion wedi’u cofrestru ac wedi gweithio ar y rhaglen. Ceir rhagor o wybodaeth am raglenni Cyswllt Ffermio yma.

Y Gwasanaeth Cynghori Busnesau Gwledig (RBAS)

Mae RBAS yn darparu cyngor arbenigol, annibynnol, cyfrinachol a phwrpasol i fusnesau sydd wedi’u cofrestru gyda Cyswllt Ffermio. Ar 30 Tachwedd 2022, roedd 4,818 o fusnesau wedi cael eu cynghori 8,403 gwaith ar gymorth busnes a/neu gyngor technegol. Cefnogwyd 5,427 o unigolion drwy ymgysylltu â 3,875 o grwpiau.

Daw’r rhaglen KT&I bresennol i ben ar 19 Mawrth, 2023, ac mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn caffael y Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth nesaf 2023-2025.

Cywain

Prosiect yw hwn sydd wedi canolbwyntio ar gefnogi busnesau micro a busnesau bach a chanolig newydd a phresennol sy'n dymuno tyfu ac ehangu. Gwerth y cynllun yw £16.6 miliwn a hyd yma mae wedi helpu 983 o gyfranogwyr. Mae 851 o gyfranogwyr wedi derbyn hyfforddiant, a thros 1,158 o ddiwrnodau hyfforddi wedi’u darparu. Mae'r rhan fwyaf yn perthyn i'r diffiniad o Ficro Busnes. Mae 337 o farchnadoedd newydd wedi’u cyrchu ac mae 156 o swyddi parhaol wedi’u creu.

Prosiect Helix

Mae Prosiect Helix, sy'n cael ei redeg gan Arloesi Bwyd Cymru (FIW), yn brosiect cymorth 'helics triphlyg' unigryw ar gyfer gweithgynhyrchu bwyd ac arloesi, sy'n darparu pecyn cymorth cynhwysfawr i fusnesau bwyd Cymru iddynt allu gwneud y mwyaf o'u potensial i fod yn fwy cystadleuol yn y farchnad. Mae'r prosiect yn rhoi cyngor arbenigol i gyfranogwyr i sicrhau arbedion, i ddatblygu ac arloesi cynnyrch a gwybodaeth dechnegol a gweithredol sy'n ofynnol ar gyfer llwyddiant wrth weithgynhyrchu bwyd. Mae hwn yn becyn o brosiectau gwerth £28.8m, wedi'i rannu ar draws tri safle yng Nghymru.

Effaith ariannol gwerth £46,446,180.81

- 567 o fentrau wedi derbyn cymorth.
- 949 o gyfranogwyr wedi cael hyfforddiant dros 940 o ddiwrnodau hyfforddi.
- 467.65 o swyddi wedi'u creu.
- 2481.9 o swyddi wedi'u diogelu.
- 1,402 o gynhyrchion bwyd a diod newydd.
- 827 o farchnadoedd newydd wedi'u cyrchu.

Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd (FBIS)

Ers sefydlu FBIS, mae dros £188.5m wedi'i fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf newydd yng Nghymru ac mae'n parhau i ddenu buddsoddiadau newydd a chyffrous o fewn y sector i helpu a chefnogi'r sector Bwyd-Amaeth. Mae cyfanswm o £58.36 miliwn o grantiau wedi'u cymeradwyo ar gyfer 133 o gwmnïau.

Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig (RBIS) - Bwyd

Mae hwn yn gynllun buddsoddi cyfalaf mewn gweithgareddau prosesu neu weithgynhyrchu bwyd a diod nad ydynt yn gymwys o dan yr FBIS. Daeth y ffenestr ymgeisio olaf i ben ar 30/4/2021 gyda gormod wedi tanysgrifio. Derbyniwyd 25 Datganiad o Ddiddordeb, a gwahoddwyd 16 i wneud cais llawn. O'r 16 cais:

- Cafodd 6 cais eu tynnu yn ôl/eu gwrthod.
- Ni chyflwynodd 5 ymgeisydd eu cais erbyn y dyddiad cau.
- Cafodd 5 cais eu cymeradwyo a dyfarnwyd cyfanswm o £178,200 mewn grantiau.

Roedd hwn yn gynllun pwysig ar gyfer helpu i ddatblygu busnesau bach, ac roedd llawer ohonynt yn arallgyfeirio gweithgareddau ar y fferm.

Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren (TBIS)

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal 5 rownd lwyddiannus o'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Pren dros y 6 mlynedd diwethaf. Mae'r cynllun wedi galluogi perchnogion coedwigoedd preifat, awdurdodau lleol neu berchnogion coedwigoedd eraill yn y sector cyhoeddus i fuddsoddi cyfalaf sy'n ychwanegu gwerth at goedwigoedd yng Nghymru drwy weithgareddau rheoli coetiroedd, drwy gynaeafu pren a/neu drwy brosesu pren. Daeth y 5ed rownd i ben ar 9 Ebrill 2021, ac ehangwyd ei chylch gwaith i gynnwys buddsoddi mewn prosiectau sy'n delio â choed sydd wedi'u heintio â Chalara, a/neu gynyddu maint meithrinfa goed. Cafwyd 38 Datganiad o Ddiddordeb llwyddiannus, gydag 20 o brosiectau'n cael eu cymeradwyo, gwerth cyfanswm o £1,463,641 o grantiau.

Grant Busnesau Fferm (FBG)

Mae Grant Busnes Fferm yn darparu grantiau o £3,000 i £12,000, cyfraniad o hyd at 40% o werth prosiect, i ffermwyr allu gwneud buddsoddiadau pwysig yn eu busnesau er mwyn gallu cynhyrchu'n fwy effeithiol, cynyddu cynhyrchiant a gwella cynaliadwyedd y fferm. Mae'r grant yn cyfrannu at gost ystod eang o offer, o systemau trin da byw a thechnoleg ar gyfer ffermio manwl gywir, i offer ar gyfer defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.  Wrth i'r diwydiant ddechrau ar gyfnod tyngedfennol o newid, mae angen i fusnesau fanteisio ar y cyfle hwn i sicrhau eu bod yn buddsoddi i fod yn fwy cynaliadwy a ffyniannus i wrthsefyll heriau'r dyfodol.

Agorodd nawfed cyfnod ymgeisio yr FBG ar 1 Medi 2021 a daeth i ben ar 1 Hydref. Y gyllideb ar gyfer y rownd hon yw £2m.

Derbyniwyd 413 o Ddatganiadau o Ddiddordeb ac mae contractau gwerth £1.8m wedi'u cynnig i 378 o gwsmeriaid. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau ar gyfer ffenestr 9 oedd 8 Chwefror 2022. Derbyniwyd 188 o hawliadau dilys a hyd yma, mae 186 o hawliadau wedi'u prosesu ar gyfer taliadau gwerth £849k.

Oherwydd lefel uchel o alw am eitemau penodol sydd ar gael yn FBG, yn ogystal â phroblemau cyflenwi oherwydd Covid-19, Brexit a'r rhyfel yn Wcráin, efallai y bydd rhai deiliaid contract yn ei chael hi'n anodd prynu'r holl eitemau yn eu contractau, sydd, ar hyn o bryd, yn angenrheidiol i allu cael taliad ar gyfer yr eitemau eraill a brynir.  Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r sefyllfa hon ac mae'n annog deiliaid contract sy'n wynebu anawsterau am y rhesymau hyn i gysylltu â ni dros eu cyfrifon RPW Ar-lein cyn gynted â phosibl. Ymdrinnir â phob achos yn ôl ei deilyngdod, o ystyried cyfyngiadau'r contract.

Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig (RBIS) - Anamaethyddol

Mae hwn yn gynllun buddsoddi newydd i helpu adferiad yr economi ar ôl Covid-19. Mae'r RBIS (Anamaethyddol) yn talu costau buddsoddi cyfalaf ac yn cefnogi prosiectau yng Nghymru sy'n cyfrannu at un neu fwy o'r canlynol:

a) arallgyfeirio'r economi wledig,
b) datblygu'r gadwyn gyflenwi ar gyfer cynhyrchion naturiol,
c) cynyddu cynhyrchiant, effeithlonrwydd a chystadleurwydd busnesau gwledig.

Roedd grant o hyd at £50,000 ar gael i fentrau sy'n bod eisoes a busnesau anamaethyddol newydd.

Mae dau gyfnod ymgeisio wedi bod ar gyfer y cynllun hwn. Rhoddwyd 15 o gontractau, gyda grantiau gwerth £488,397.61. Hyd yma, mae hawliadau gwerth £340,119.66 wedi'u cyflwyno.

Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gael yma.

Grantiau Bach Glastir

Dŵr 2020 - Mae pob hawliad cymwys sydd wedi dod i law wedi'i dalu. Rhoddodd RPW estyniad ar gyfer 3 hawliad gwerth £1,950. Rhaid i'r cwsmeriaid gwblhau'r gwaith a hawlio erbyn 31 Mawrth 2023.

Carbon - 2021 – Mae pob hawliad cymwys sydd wedi dod i law wedi'i dalu. Rhoddodd RPW estyniad ar gyfer 12 hawliad gwerth £12,221. Raid i'r cwsmeriaid gwblhau'r gwaith a hawlio erbyn 31 Rhagfyr 2022 neu 31 Mawrth 2023.

Tirwedd a Pheillwyr 2021 - Mae pob hawliad cymwys sydd wedi dod i law wedi'i dalu.. Rhoddodd RPW estyniad ar gyfer 8 hawliad gwerth £7,236. Rhaid i'r cwsmeriaid gwblhau'r gwaith a hawlio erbyn 31 Rhagfyr 2022 neu 31 Mawrth 2023.

Grant Cynhyrchu Cynaliadwy (SPG)

Mae grantiau'n amrywio o £12,000 i £50,000 gan gyfrannu hyd at 40% o gostau'r prosiect. Mae'r eitemau a gefnogir yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, storfeydd slyri gyda chlawr a heb glawr ac offer rheoli slyri. Bydd hyn yn rhoi cyfle i fwy o ffermwyr fynd i'r afael â llygredd amaethyddol a gwella ansawdd dŵr, pridd ac aer. Mae lefel y diddordeb yn y rhan fwyaf o rowndiau ymgeisio'r SPG wedi dangos bod ffermwyr yn barod i fuddsoddi yn eu busnesau i ddod yn fwy cynaliadwy, ffyniannus a gwydn.

Mae 304 o hawliadau yng nghyfnodau ymgeisio SPG 1-3 wedi'u prosesu i'w talu, gwerth dros £12.767m. Derbyniwyd 564 o hawliadau yng nghyfnodau SPG 4-7, ac mae 95% ohonynt wedi'u prosesu i'w talu, gwerth £7.31m. Gwneir pob ymdrech i brosesu'r hawliadau sy'n weddill cyn gynted â phosibl. Mae hawliadau SPG yn aml yn gymhleth a rhaid gofyn i'r hawliwr yn aml am ragor o wybodaeth neu am archwiliad gweinyddol ar y fferm cyn y gellir talu.

Agorodd seithfed rownd yr SPG ar 1 Chwefror 2021 a daeth i ben ar 12 Mawrth. Daeth 601 o Ddatganiadau o Ddiddordeb, gwerth £20,766,099, i law. Ar ôl eu didoli, cyflwynwyd 194 o geisiadau llawn am gontractau gwerth £6.3m ar gyfer eu gwerthuso. Mae 155 o gontractau, gwerth £5.01m, wedi eu rhoi a'u derbyn. Yn sgil cyflwyno'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, rhoddwyd pwyslais yn y rownd hon o'r SPG ar ddarparu cymorth i ffermwyr allu bodloni gofynion storio'r Rheoliadau erbyn y dyddiad cau yn Awst 2024. Yn wahanol i rowndiau blaenorol, dim ond y capasiti storio ychwanegol sydd ei angen i fodloni'r gofynion storio y bydd cymorth ar gael ar ei gyfer. O'r blaen, roedd angen darparu system gwbl newydd, waeth faint o le storio oedd yn bod eisoes.

Fel yn achos yr FBG, mae problemau wedi codi ynghylch cyflenwadau a chostau cynyddol deunyddiau a llafur. Bydd rhai deiliaid contract yr SPG yn cael trafferth i brynu a gosod pob eitem yn eu contractau, sydd, ar hyn o bryd, yn angenrheidiol i allu cael taliad ar gyfer yr eitemau eraill a brynir. .

Grant Busnes Fferm – Gorchuddio Iardiau (FBG-YC)

Bwriad y FBG-YC yw cefnogi ffermwyr i orchuddio eu buarthau i atal dŵr glaw rhag llifo i storfeydd slyri. Nod y cynllun Grant Busnes Fferm – Gorchuddio Iardiau yw gwella'r seilwaith presennol ar y fferm, gan leihau'r costau cynhyrchu yn y pen draw. Bydd y cynllun yn helpu ffermwyr i orchuddio mannau bwydo a chasglu da byw, mannau storio tail a storfeydd slyri a silwair sydd wedi bod heb do. Bydd y cynllun yn seiliedig ar gost safonol gosod fesul metr o do. Ar 4 Tachwedd, cyflwynwyd gweminar trosglwyddo gwybodaeth i 1000 o gyfranogwyr lle nododd arbenigwr gwadd a swyddogion Llywodraeth Cymru a Chyswllt Ffermio fanylion y cynllun FBG-YC.

Agorodd cyfnod Datgan Diddordeb FBG-YC ar 9 Tachwedd a daeth i ben ar 18 Rhagfyr, gyda chyllideb yn y rownd gyntaf o £1.5m. Derbyniwyd 583 o Ddatganiadau. Cynigiwyd 149 o gontractau a derbyniwyd 134 o'r cynigion hynny. Mae 74 o hawliadau wedi'u derbyn hyd yn hyn gyda 68 wrthi'n cael eu prosesu ar gyfer taliadau gwerth £676k

Daeth ail rownd FBG-YC i ben ar 25 Mehefin gyda chyllideb o £2m, gyda swm o £152,062 dros ben o'r rownd gyntaf wedi'i ychwanegu at y gyllideb o £2m. Cafodd cytundebau eu cynnig i 250 o fusnesau fferm; mae 193 wedi derbyn y cynnig o gontract. Mae 83 o hawliadau wedi dod i law hyd yma, gyda 52 wrthi'n cael eu prosesu ar gyfer taliadau gwerth £491k

Oherwydd y galw mawr am ddeunyddiau a llafur i gynnal prosiectau FBG-YC, mae swyddogion wedi cael gwybod bod rhai deiliaid contractau yn ei chael yn anodd cwblhau prosiectau mewn pryd i allu cyflwyno hawliad.

Mae oedi i'r gwaith prosesu ceisiadau cynllunio a Systemau Draenio Cynaliadwy, y ddau'n gyfrifoldeb yr Awdurdodau Cynllunio Lleol, hefyd wedi arwain at broblemau cwblhau prosiectau mewn pryd i allu cyflwyno hawliad.

Fel gyda'r FBG a'r SPG, mae problemau wedi codi ynghylch cyflenwadau a chostau cynyddol deunyddiau a llafur. Bydd rhai deiliaid contract yr FBG-YC yn cael trafferth i brynu a gosod pob eitem yn eu contractau, sydd, ar hyn o bryd, yn angenrheidiol i allu cael taliad ar gyfer yr eitemau eraill a brynir.

## **Mesurau Amaeth-Amgylcheddol**

### Glastir Sylfaenol

Cyrhaeddodd y contractau Glastir Sylfaenol ar wahân olaf ddiwedd eu cyfnod pum mlynedd cychwynnol ym mis Rhagfyr 2019, ar ôl dechrau yn 2015. Er mwyn i'w hymrwymiadau allu parhau ar ôl y cyfnod cychwynnol hwn, rhaid i'r contract Glastir Sylfaenol fod yn sail i gontract Glastir Uwch. Gwneir hynny pan gaiff y prif gontract Glastir Uwch ei adnewyddu neu ei ymestyn.

### Glastir - Creu Coetir (GWC)

Mae gan gyfnodau ymgeisio 9, 10 ac 11 GWC gyllidebau o £8m, £9m a £5.5m yn y drefn honno. Cyflwynodd ymgeiswyr gynlluniau i greu coetiroedd erbyn Rhagfyr 2022 a rhaid iddynt gwblhau'u prosiectau a hawlio arian ar eu cyfer erbyn 31 Mawrth 2023. Mae 269 o gontractau wedi'u dilysu hyd yma i greu 1,408 ha o goetir.

### Glastir - Adfer Coetir (GWR)

Mae gan weddill y cynlluniau yng nghyfnod ymgeisio 8 a 9 GWR tan 31 Mawrth 2023 i gwblhau a hawlio eu prosiectau. Mae 114 o gontractau wedi'u dilysu hyd yma i adfer cyfanswm o 724.21 Ha o goetir.

Glastir Uwch

Mae’r rhan fwyaf o gontractau Glastir Uwch a phob contract Glastir Organig a Glastir Tir Comin wedi cyrraedd diwedd eu cyfnod 5 mlynedd cychwynnol. Mae llawer o gontractau wedi cael eu hestyn a’u hadnewyddu ers 2017. Gwerth cyfunol blynyddol y contractau hyn yw £34.7m.

Mae tystiolaeth gwaith monitro a gwerthuso yn dangos bod cyfranogiad di-dor mewn cynlluniau amaeth-amgylchedd yn sicrhau bod y manteision sy’n cael eu hennill, yn enwedig ar dir fferm sydd o Werth Mawr i Natur yn yr ucheldiroedd yn cael eu cadw ac nad ydynt yn cael eu colli i ddulliau ffermio mwy dwys.

Bydd estyn Glastir yn cyfrannu at ein nodau i warchod a gwella bioamrywiaeth, gwella adnoddau pridd a dŵr, adfer mawnogydd ac ymateb i’r argyfwng hinsawdd trwy gymryd camau i ddatgarboneiddio amaethyddiaeth yng Nghymru.

Ym mis Medi 2021, cyhoeddodd y Gweinidog y bydd cymorth i ffermwyr yn parhau, wrth i Gymru bontio i’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gan gynnwys estyniad dwy flynedd i gontractau Glastir Uwch, Tir Comin ac Organig, hyd at fis Rhagfyr 2023. Mae hyn yn cynrychioli ymrwymiad ariannol o £66.79m dros ddwy flynedd ar gyfer ffermwyr Cymru.

Gan gychwyn yn nechrau mis Hydref, bydd 1,745 o gontractau Glastir Sylfaen/Uwch cymwys, gwerth £22.7m, wedi cael cynnig eu hestyn a’u hadnewyddu. Hyd yma, mae 1,561 o ddeiliaid contract wedi derbyn y cynnig o estyniad neu adnewyddiad. Mae gan weddill ddeiliaid y contract tan 31 Rhagfyr 2022 i ymateb i’r cynnig ar gyfer estyn neu adnewyddu’u contract.

Glastir - Tir Comin

Cychwynnwyd estyn contractau Tir Comin Glastir yn nechrau mis Hydref. Cynigiwyd estyniad i 180 o ddeiliaid contractau Glastir Tir Comin y mae disgwyl i'w contract presennol ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2022. Bydd yr estyniad yn para tan 31 Rhagfyr 2023. Mae'r contractau estynedig yn werth £5.2m. Hyd yma, mae 166 o ddeiliaid contract wedi derbyn cynnig i estyn eu contract. Mae gan weddill y deiliaid tan 31 Rhagfyr 2022 i ymateb i’r cynnig i estyn eu contract.

Glastir Organig

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i gynnig estyniadau i gontractau Organig cymwys hyd at 31 Rhagfyr 2023 . Mae pob contract Organig cymwys yn cael cynnig dau estyniad blynyddol arall i redeg tan 31 Rhagfyr 2023. Dechreuodd yr ail estyniad blynyddol, hyd at 31 Rhagfyr 2023, ddechrau mis

Hydref a chaiff ei gynnig i 470 o gontractau Glastir Organic cymwys, gwerth £3.25m. Hyd yn hyn, mae 440 o ddeiliaid contract wedi derbyn y cynnig i estyn eu contract ac mae 4 wedi'u gwrthod. Mae gan weddill y deiliaid tan 31 Rhagfyr 2022 i ymateb i'r cynnig i estyn eu contract.

## Cynlluniau Cydweithredu

### Cynllun Rheoli Cynaliadwy (SMS)

Diben yr SMS yw cefnogi prosiectau cydweithredol ar raddfa tirwedd sy'n darparu atebion sy'n seiliedig ar natur i gryfhau ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau mewn ffordd sydd hefyd yn sicrhau manteision i fusnesau fferm ac iechyd a lles cymunedau gwledig. Mae prosiectau SMS yn golygu camau i wella bioamrywiaeth; gwella seilwaith gwyrdd; rheoli tir a dŵr yn well ac yn bwysig, helpu ffermwyr i addasu i'r newid yn yr hinsawdd ac i liniaru ei effeithiau ar raddfa tirwedd.

Mae prosiectau cydweithredol SMS yn cynnwys ffermwyr a phorwyr sydd wedi gweld y manteision y gall cydweithio eu cynnig ac sydd wedi cael eu hysbrydoli i weithio gyda dulliau newydd a thraddodiadol. Mae prosiectau'n cynnwys partneriaethau a chyweithiau lleol ar raddfa tirwedd sy'n cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth ac i gryfhau ein hecosystemau. Mae cydweithio ar y raddfa gywir (boed ar lefel safle, tirwedd ranbarthol, dalgylch neu ecosystem) a'r lleoliad cywir yn hanfodol i fynd i'r afael â'r hyn sydd dan sylw a sicrhau'r manteision mwyaf posibl.

Erbyn diwedd cyfnod y cynllun, Mehefin 2023, rydym yn gobeithio gweld canlyniadau clir o ran storio mwy o garbon, mesurau rheoli naturiol i leihau'r risg o lifogydd, iechyd pridd, ansawdd dŵr a bioamrywiaeth.

Yn ogystal â chanlyniadau amgylcheddol, rydym hefyd yn gweld canlyniadau o ran datblygu sgiliau, creu swyddi, arallgyfeirio busnesau a manteision cymunedol. Mae nifer o'r prosiectau bellach yn ystyried ac yn canolbwyntio ar fanteision iechyd a lles y gwaith y maent yn ei wneud.

Mae'r cynllun hwn wedi ymrwymo £23m o gyllid y RhDG hyd yma drwy bum cyfnod Datgan Diddordeb a agorwyd yn 2016 - 2019. Cefnogwyd cyfanswm o 50 o brosiectau.

Agorodd pumed cyfnod ymgeisio SMS – a'r olaf - ar 21 Mai 2019 – 8 Awst 2019 gyda dyraniad o £3m ar gael. Cyflwynwyd 45 Datganiad o Ddiddordeb, yn gofyn am dros £21M. Dewiswyd 8 Datganiad ac anfonwyd llythyrau penderfynu o gwmpas 8 Hydref 2019. Llwyddodd pob un o'r 8 prosiect i gyflwyno cais llawn erbyn y dyddiad cau, sef 8 Ebrill 2020, ac maent oll wedi'u cymeradwyo. Ar hyn o bryd, mae 18 prosiect SMS wedi'u cwblhau ac wedi llunio gwerthusiadau diwedd prosiect. Mae 32 prosiect ar waith o hyd.

Mae gwerthusiad swyddogol SMS wedi cyrraedd ei gam olaf gyda'r adroddiad effaith terfynol i'w baratoi ar gyfer Mehefin 2023. Bydd yr adroddiad hwn yn cyfuno canfyddiadau o'r cyfnod ymchwil a'i nod yw darparu argymhellion ar gyfer polisi'r dyfodol. Cyhoeddwyd adroddiad y cam cyntaf ar 4 Tachwedd 2021. Mae cam olaf y gwerthusiad yn cynnwys arolwg ar-lein o'r prosiectau a ddechreuwyd ym mis Tachwedd gyda'r nod o gasglu adborth am fanteision ac effeithiau'r prosiectau a ariannwyd a'r gwahaniaeth a wnaed ganddynt. Mae'r gwaith maes ar gyfer y cam olaf hwn hefyd yn mynd rhagddo ers mis Hydref 2022 ac mae'n cynnwys cyfweliadau ac astudiaethau achos o 25 o brosiectau dethol gan gwmpasu'r pum cyfnod ymgeisio.

Yn ogystal â gwerthuso'r cynllun lefel uchel, mae tîm yr SMS yn casglu holl weithgareddau ac allbynnau'r prosiect ynghyd. Drwy hynny, gobeithir gweld cysylltiadau â manteision a chanlyniadau ehangach megis gwella bioamrywiaeth a chryfhau ecosystemau ynghyd ag iechyd a lles a chydlyniant cymunedol.

Mae tîm yr SMS yn casglu sylfaen dystiolaeth i lywio polisi yn y dyfodol. Caiff portffolio o ddeunydd ei gyhoeddi wrth i brosiectau'r cyfnod ymgeisio cyntaf ddod i ben a chynhelir hefyd ddigwyddiadau ar-lein i randdeiliaid gyda'r nod o rannu llwyddiant a'r gwersi a ddysgwyd, megis dulliau monitro a gwerthuso, a gynhaliwyd gan y tîm yn 2021. Mae gwerthusiadau terfynol o brosiectau unigol ac unrhyw ddogfennau ategol yn cael eu cyhoeddi ar-lein ar gyfer cynulleidfa ehangach trwy dudalennau gwe Rhwydwaith Gwledig Cymru.

<u>Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant (ENRaW)</u>

Mae ENRaW yn helpu i ddatblygu prosiectau cydweithredu ac yn gweithredu trwy brosiectau i wella amgylchedd a bioamrywiaeth y tir o'n cwmpas yn ogystal â lles ac iechyd meddwl y cymunedau a'r busnesau sy'n eu defnyddio ac yn eu mwynhau. Mae'r prosiectau hyn hefyd yn dod ag ystod eang o fanteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol.

Datblygu, adfywio ac ehangu mynediad i seilwaith gwyrdd cynaliadwy.

Gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig trefol a gwledig; a

Datblygu rhwydweithiau ac ardaloedd ecolegol cydnerth, ac atebion sy'n seiliedig ar natur.

Roedd y grant yn agored i ystod eang o sefydliadau sy'n gweithio mewn ffordd gydweithredol i ddarparu gweithgarwch o dan y themâu gweithredu ac mae'n darparu cyllid refeniw a chyfalaf i gefnogi'r gwaith o gyflawni hynny. Mewn ymateb i'r Datganiadau o Ddiddordeb cyntaf, derbyniwyd 85 cais ym mis Rhagfyr 2018 a chafodd cyfanswm o 38 prosiect eu hargymell a'u cymeradwyo.

Daeth ail gyfnod ariannu i ben ar 22 Tachwedd 2019, ac roedd cyllid ar gael o 1 Ebrill 2020 ymlaen. Yn dilyn asesiad, gwahoddwyd pum prosiect i ddatblygu ceisiadau llawn i'r cynllun am £14.5m.

Caewyd y trydydd cyfnod ym mis Mawrth 2020, gyda 19 prosiect wedi'u cymeradwyo. Gwerth y cynllun oedd £19.1m.

<u>Cyfnod ymgeisio am Gynllun Cydweithredu a Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi –adfer ar ôl COVID-19</u>

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfres o gyfnodau Datgan Diddordeb yn ymwneud ag ymateb i COVID-19 ac adfer ar ei ôl, fel a ganlyn:

- Cyfnod ymgeisio 8 - Camau Peilot ar gyfer Cydlyniant Cymunedol a chymorth ar gyfer Adferiad Gwyrdd (cau Hydref 2020)
  Gwahoddwyd pedwar cais am werth £1,047,645 o grantiau, i'r cam ymgeisio. Mae'r ceisiadau hyn bellach wedi'u cymeradwyo ac yn weithredol.
- Cyfnod ymgeisio 9 - OCVO - Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (cau Tachwedd 2020)
  Un cais a grant gwerth bron i £4m wedi'i ddyfarnu
- Cyfnod ymgeisio 10 - Twristiaeth Bwyd (cau Rhagfyr 2020)
  Gwahoddwyd dau gais am grantiau gwerth dros £3m i gyflwyno ceisiadau llawn. Un cais wedi'i gymeradwyo, gyda grant o £49,199,70
- Cyfnod ymgeisio 11 - Dulliau arloesol o Dyfu Cydweithredol (cau Ionawr 2021)
  Gwahoddwyd pum cais am grantiau gwerth £1,924,313 i gyflwyno cais llawn. Mae arfarniadau wedi eu cwblhau, ac mae contractau gwerth £1,813,322.40 wedi'u dyfarnu. Mae grantiau gwerth £275,720.75 wedi'u hawlio a'u talu.
- Cyfnod ymgeisio 12 - Cynllun Adfer Covid Bwyd (cau Chwefror 2021)
  Gwahoddwyd wyth cais am grantiau gwerth £2,958,591 i gyflwyno ceisiadau llawn. Dyfarnwyd 6 contract gwerth £1,912,126. Hyd yma mae grantiau gwerth £23,363.72 wedi'u hawlio a'u talu.

- Cyfnod ymgeisio 13 - Camau peilot ar gyfer twf gwyrdd a'r Economi Gylchol (cau Chwefror 2021)
  Cyhoeddwyd pedwar llythyr cymeradwyo ar gyfer cyfanswm o £789,553.23. Mae grantiau gwerth £66,511.04 wedi'u hawlio a'u talu hyd yma.

LEADER

Mae Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER Cymru yn parhau i chwarae rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi eu cymunedau gwledig mewn cyfnod o heriau digynsail. Mae LEADER wedi profi ei fod yn erfyn economaidd gymdeithasol defnyddiol o safbwynt adfer yr economi yn dilyn yr argyfwng Covid-19.

- rhwydweithio a chydweithio i sicrhau ffordd ddeallus a phriodol o ddiwallu anghenion lleol

Cwblhawyd proses ail-werthuso Cynllun LEADER yn ail chwarter 2021. Cyflwynodd un deg chwech o'r un deg wyth o grwpiau Gweithredu Lleol ailwerthusiad ar gyfer eu prosiectau LEADER. Daeth cyfanswm o 60 o geisiadau i law.

Roedd cynllun LEADER wedi gwario £37.9m hyd at fis Tachwedd 2022.
Daeth ugain o brosiectau LEADER i ben yn ystod Blwyddyn Ariannol 2021/2022 –

- Conwy Cooperation
- Sir Benfro – Gweithredu; costau rhedeg; Animeiddio a Chydweithredu
- Castell-nedd Port Talbot – Gweithredu; costau rhedeg; Animeiddio a Chydweithredu
- Torfaen – Gweithredu; costau rhedeg; Animeiddio a Chydweithrediad
- Swansea Cooperation
- Merthyr Tudful – Gweithredu; costau rhedeg; Animeiddio a Chydweithredu
- Sir Fynwy – Animeiddio a Chydweithredu

Daeth 6 Prosiect LEADER arall i ben erbyn 30 Medi 2022

- Sir Fynwy – Gweithredu a chostau rhedeg
- Powys – Gweithredu; costau rhedeg; Animeiddio a Chydweithredu

20.2 Cymorth Technegol - Rhwydwaith Gwledig Cymru

**Digwyddiadau Rhwydwaith Gwledig Cymru a Chyfranogiad**

Cynhaliodd Cymru ei digwyddiad diwedd tymor ar 9 a 10 Mehefin 2022.

Roedd y digwyddiad deuddydd yn **Dathlu Cymru Wledig** ac yn cynnwys –

- 360 o gynrychiolwyr dros 2 ddiwrnod

- arddangos 30 o brosiectau
- 6 Thrafodaeth Panel ar thema

Derbyniad Rhwydweithio gyda'r nos Blas Cymru

Nodau ac amcanion

Digwyddiad i gefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru i gyflawni ei nodau o ran:

- Rhannu'r arferion gorau
- Casglu a rhannu astudiaethau achos
- Hyrwyddo'r Rhaglen Datblygu Gwledig a'i straeon llwyddiant
- Ailadrodd pwysigrwydd rhaglen ariannu sydd wedi'i chynllunio i helpu busnesau gwledig, mentrau, seilwaith, cymunedau a phobl

Datblygu Gwefan/TG Rhwydwaith Gwledig Cymru (WRN)

Gwefan

Mae dros 1700 o brosiectau (gan gynnwys LEADER) ar y tudalennau Prosiectau rhyngweithiol, gyda llawer bellach yn cynnwys dolenni i we-dudalennau byw. Ychwanegodd WRN 118 o brosiectau rhwng Ionawr – Tachwedd 2022.

- Mae o leiaf 2 ddarn o wybodaeth yn cael eu hychwanegu at y wefan bob dydd.
- Cafodd y wefan 102,476 o ymweliadau rhwng Ionawr - 30 Tachwedd 2022. Cynhaliwyd etholiadau Awdurdodau Lleol Cymru rhwng 14 Ebrill a 5 Mai 2022, pan nad oeddem yn gallu cyhoeddi cymaint o ddeunydd ar y cyfryngau cymdeithasol. Hefyd, rhoddwyd y gorau i gyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol a'r wefan rhwng 8 – 20 Medi pan fu farw'r Frenhines. Arweiniodd hynny at lai o weithgarwch ar y wefan. Bu nam hefyd gyda Google Analytics sy'n golygu na chawsom unrhyw ffigurau ar gyfer Mai 2022.

Y Cyfryngau Cymdeithasol

- Cynyddodd ein dilynwyr ar Twitter i 1,966 erbyn diwedd mis Tachwedd 2022.
- Bu cynnydd cyson yn ein dilynwyr ar Facebook hefyd, i 584 o ddilynwyr ym mis Tachwedd 2022. Cynhaliwyd etholiadau Awdurdodau Lleol Cymru rhwng 14 Ebrill a 5 Mai 2022 pan nad oeddem yn gallu cyhoeddi cymaint o ddeunydd ar y cyfryngau cymdeithasol. Hefyd, rhoddwyd y gorau i gyfathrebu ar y cyfryngau cymdeithasol a'r wefan rhwng 8 – 20 Medi pan fu farw'r Frenhines.
- Mae postiad misol ar y Cyfryngau Cymdeithasol yn hyrwyddo astudiaeth achos wahanol bob mis.

Cafwyd caniatâd mewnol i ychwanegu sianeli cyfryngau cymdeithasol WRN. Aeth y sianeli yn fyw yn gynnar yn 2022

Gwelwyd cynnydd mawr yn nifer ein dilynwyr ar Instagram ers ei lansio. Ym mis Tachwedd 2022, roedd gennym 114 o ddilynwyr.

<u>WRNSU – Cyfathrebu a Chyhoeddusrwydd</u>

- Yn y cyfnod Ion - Tach 2022, ysgrifennwyd a rhannwyd 106 o astudiaethau achos
- Newyddlen WRNSU - 10 rhifyn yn 2022; Mae nifer tanysgrifwyr newyddlen WRN wedi parhau'n sefydlog, gyda thros 10,600 ym mis Rhagfyr 2022, ar gyfer y fersiynau Cymraeg a Saesneg
- 22 o ddiweddariadau ar e-gylchlythyr Gwlad
- 8 o ddiweddariadau am raglenni ar y newyddlen Newid Hinsawdd
- 14 o ddiweddariadau am raglenni ar newyddlen Cronfeydd yr UE
- 6 o ddiweddariadau am raglenni ar newyddlen Bwyd a Diod Cymru
- 2 ddiweddariad am raglenni ar newyddlen Twristiaeth Cymru
- Ar gyfer y newyddlen Ffermio, un ar gyfer y Gwanwyn, un ar gyfer yr Haf ac un arall ar gyfer y Gaeaf.

Mae mwy o wybodaeth am weithgareddau WRN i'w gweld yn y diweddariad ysgrifenedig am WRN ar gyfer PMC.

**Arweinydd ESNR / Llywodraeth Cymru: Katy Watkin**
**Cymeradwywyd gan:**
**Dyddiad: 12 Ionawr 2023**

## Adran 1: Rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop: Ymrwymiad

1. Mae'r adran hon yn rhoi manylion y cynnydd ariannol presennol o dan Raglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), gan gynnwys trosolwg o'r Rhaglenni a gwybodaeth ar lefel Blaenoriaeth.
2. Mae Tabl 1 yn dangos nifer a swm y Grant Undeb Ewropeaidd a ymrwymwyd i Weithrediadau a gymeradwywyd o dan Raglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru.
3. Mae data cynnydd ar gyfer cyllid a dangosyddion yn cael ei gyhoeddi'n fisol ar Wefan WEFO yn https://llyw.cymru/cynnydd-y-rhaglenni-cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020

## Tabl 1: Ymrwymiad Grant yr Undeb Ewropeaidd yn ôl Rhaglen a Blaenoriaeth: Gweithrediadau a Gymeradwywyd

£ Miliynau

| Blaenoriaeth | Gweithrediadau | Dyraniad | | Wedi'i neilltuo | | | | Gwariant | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm[1] | Grant yr UE[1] | Cyfanswm[2] | | Grant yr UE[2] | | Cyfanswm[3] | | Grant yr UE[3] | |
| **ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | | | | | | | | | | | |
| 1 | 36 | 415.2 | 276.2 | 468.0 | (113%) | 294.3 | (107%) | 324.9 | (78%) | 204.5 | (74%) |
| 2 | 8 | 290.3 | 181.2 | 414.2 | (143%) | 229.4 | (127%) | 386.9 | (133%) | 211.5 | (117%) |
| 3 | 19 | 193.5 | 134.4 | 207.4 | (107%) | 141.8 | (106%) | 123.2 | (64%) | 95.7 | (71%) |
| 4 | 37 | 656.8 | 431.3 | 672.5 | (102%) | 374.0 | (87%) | 306.7 | (47%) | 196.4 | (46%) |
| 5 | 7 | 28.0 | 20.9 | 30.2 | (108%) | 22.4 | (107%) | 22.6 | (81%) | 16.1 | (77%) |
| **Cyfanswm** | **107** | **1,583.8** | **1,043.9** | **1,792.2** | **(113%)** | **1,061.9** | **(102%)** | **1,164.4** | **(74%)** | **724.2** | **(69%)** |
| **ERDF Dwyrain Cymru** | | | | | | | | | | | |
| 1 | 19 | 178.4 | 89.2 | 181.2 | (102%) | 84.3 | (94%) | 111.9 | (63%) | 53.7 | (60%) |
| 2 | 8 | 78.9 | 39.5 | 111.7 | (142%) | 51.9 | (132%) | 108.3 | (137%) | 49.5 | (126%) |
| 3 | 1 | 7.9 | 3.9 | 7.1 | (90%) | 3.5 | (90%) | 7.1 | (90%) | 3.5 | (90%) |
| 4 | 6 | 78.5 | 39.2 | 77.8 | (99%) | 38.9 | (99%) | 31.5 | (40%) | 15.1 | (38%) |
| 5 | 6 | 7.1 | 3.5 | 7.7 | (110%) | 3.6 | (101%) | 5.8 | (82%) | 2.5 | (71%) |
| **Cyfanswm** | **40** | **350.7** | **175.3** | **385.5** | **(110%)** | **182.2** | **(104%)** | **264.5** | **(75%)** | **124.3** | **(71%)** |
| **Cyfanswm ERDF** | **147** | **1,934.5** | **1,219.2** | **2,177.7** | **(113%)** | **1,244.1** | **(102%)** | **1,428.9** | **(74%)** | **848.5** | **(70%)** |

Ffynhonnell: SCEC, 30/11/2022

[1] Yn seiliedig ar gyfradd gyfnewid o £1:€1.17
[2] Mae'r canrannau'n dangos y swm sydd wedi'i neilltuo fel cyfran o'r dyraniad
[3] Mae'r canrannau'n dangos y gwariant fel cyfran o'r dyraniad

**Rhaglen Gyffredinol**

4. Mae'r ddwy Raglen ERDF yn parhau i wneud cynnydd da, gyda 147 o weithrediadau a gymeradwywyd yn ymrwymo grant o £1,219 miliwn, sy'n cynrychioli 102% o werthoedd y rhaglen (102% Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a 104% Dwyrain Cymru) ar gyfradd gynllunio WEFO o 1.17/£. Mae'r lefelau ymrwymiad hyn yn hylaw ac yn adlewyrchu trothwyon gor-ymrwymiad blaenorol rhaglenni i sicrhau ein bod yn gallu manteisio'n llawn ar dynnu cronfeydd yr UE i lawr yn y cam hawlio terfynol. Mae'r ddwy raglen ERDF wedi'u cwblhau bellach, ac ni ragwelir unrhyw gymeradwyaeth bellach.

5. Mae targedau N+3 2022 ar gyfer pob Rhaglen ERDF wedi'u cyflawni.

6. Hyd yn hyn, mae bron i £713 miliwn (68% Gorllewin Cymru a'r Cymoedd) a £124 miliwn (71% Dwyrain Cymru) wedi'i dalu i fuddiolwyr prosiectau ERDF. Ar hyn o bryd, mae taliadau ERDF yn disgwyl am awdurdodiad gan WEFO sy'n cyfateb i £21 miliwn a £2.5 miliwn ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru yn y drefn honno; gan ystyried y rhain, mae'r taliadau i noddwyr yn codi i £734 miliwn yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a £127 miliwn yn Nwyrain Cymru.

7. Mae'r ffigurau gwariant ERDF hyn wedi arwain at gronfeydd yn cael eu tynnu i lawr o'r Comisiwn Ewropeaidd, sef 62% o'r dyraniad grant yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 64% o'r dyraniad grant yn Nwyrain Cymru.

8. O ran darparu dangosyddion fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae adolygiad o ddangosyddion ar draws rhaglenni ar gyfer ERDF ac ESF wedi'i gomisiynu ac mae wedi adrodd ei ganfyddiadau erbyn hyn, gyda'r argymhellion wedi'u hystyried ac yn rhan o gynigion Addasu ERDF. Mae hwn yn bapur ar wahân i'r PMC ei ystyried.

9. Oherwydd Covid, llifogydd, rhyfel Wcráin a'r argyfwng costau byw cyffredinol, mae nifer o weithrediadau wedi gofyn am estyniadau llinell amser, gyda nifer yn gofyn hefyd am grant ychwanegol oherwydd cynnydd mewn costau. Mae WEFO wedi ceisio bod mor ystyriol â phosibl gyda'r ceisiadau hyn, sydd wedi arwain at gynnydd yn nifer y gweithrediadau a fydd yn cael eu cwblhau yn ffisegol ac yn ariannol yn 2023. Mae hyn yn peri risg o ran tynnu i lawr terfynol gan y bydd angen i'r gweithrediadau hyn a gaiff eu cwblhau yn hwyr sicrhau eu bod wedi cwblhau'r broses gau mewn modd yr un mor amserol er mwyn i'r holl wariant fod yn gymwys erbyn diwedd Rhagfyr 2023. Mae Rhagfyr 2023 yn ddyddiad na ellir ei newid ac ni fydd unrhyw wariant ar ôl y dyddiad hwnnw yn gymwys ar gyfer ERDF.

10. Mae cynnydd yn parhau o ran cau gweithrediadau ac mae nifer wedi cau yn barod. Fel y nodwyd, fodd bynnag, bydd cyfran uchel o’r portffolio ERDF yn parhau i gyflawni i 2023, sy'n golygu y bydd angen i'r buddiolwyr gyflwyno eu hawliadau ar amser gyda'r ddogfennaeth angenrheidiol os yw WEFO am gyflawni ei swyddogaethau cau a gwneud taliadau terfynol, gan sicrhau bod gwariant yn cael ei dynnu i lawr yn ystod 2023 neu yn hawliadau terfynol y rhaglenni yn 2024.

**Adran 2: Cynnydd yn ôl Echel Flaenoriaeth**

**Blaenoriaeth 1: Ymchwil ac Arloesi**

**Cymeradwyaeth ers y PMC diwethaf**

Dim cymeradwyaeth newydd ers y PMC diwethaf.

11. Arweinir y portffolio Ymchwil ac Arloesi gan yr agenda arbenigo clyfar, sy'n cael ei adlewyrchu yn y gweithrediadau asgwrn cefn a gymeradwywyd ochr yn ochr â'r gweithrediadau arbenigol unigol. Mae'r portffolio'n cynnwys 55 o weithrediadau a gymeradwywyd gan y sector cyhoeddus, preifat ac AU, gyda nifer ohonynt ar waith ledled Cymru, ac maent wedi bod yn dechnegol iawn eu natur i'w cymeradwyo.

12. Arweiniodd y pandemig Covid-19 at oedi mewn gweithrediadau sy'n darparu gweithgarwch o dan Wrthrychau Penodol 1.1 a 1.2, gan arwain at nifer sylweddol o geisiadau am estyniadau anariannol a dadneilltuo. Cytunwyd ar rai estyniadau fel eithriad i ddarparu gweithgarwch allweddol yn 2023, ac maent yn cael eu monitro'n barhaus i sicrhau nad oes llithriant pellach.

13. Y prif heriau o hyd yw cefnogi'r holl weithrediadau er mwyn cyflawni eu nodau gwreiddiol o ran cyflawni, cydymffurfiaeth a gwariant. Ar hyn o bryd yn y Rhaglenni, mae cyfarfodydd adolygu rheolaidd, parhaus yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob gweithrediad yn cael ei gau'n effeithiol, gyda chwmpas cyfyngedig ar gyfer llithriant. Hyd yma, mae 6 gweithrediad wedi cael eu cau mewn ffordd sy'n cydymffurfio.

14. Gan ystyried tystiolaeth wedi'i diweddaru o'r cymeradwyaethau presennol, rhagdybiaethau a ragwelir a'r canfyddiadau o Adolygiad o Ddangosyddion

Wavehill, bydd targedau dangosyddion allweddol yn cael eu cyflawni ac, yn y meysydd canlynol, rhagorir ar y targedau:

- Swm y cyllid ymchwil a sicrhawyd;
- Nifer y partneriaid sy'n cydweithredu mewn prosiectau ymchwil;
- Nifer yr ymchwilwyr sy'n gweithio mewn cyfleusterau seilwaith ymchwil gwell;
- Nifer y cyfleusterau seilwaith ymchwil gwell.

Mae unrhyw newidiadau i ddangosyddion P1 eraill ar gyfer y ddwy Raglen dan ystyriaeth. Fel isafswm, mae'r adolygiad yn ystyried effaith ar y meysydd canlynol i'w cynnwys mewn addasiad Rhaglen:

- Nifer yr ymchwilwyr newydd mewn endidau a gefnogir;
- Nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol;
- Cynnydd mewn cyflogaeth;

**Blaenoriaeth 2: Cystadleurwydd BBaChau**

**Cymeradwyaeth ers y PMC diwethaf**

15. Dim cymeradwyaeth newydd ers y diweddariad PMC diwethaf.

16. Mae Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi ymrwymo'n llawn, ond mae'r ffaith bod ERDF wedi'i haddasu at ddibenion gwahanol mewn ymateb i anghenion busnes oherwydd pandemig COVID wedi cynyddu lefel y gor-ymrwymiad ar gyfer P2 ond yn dal i gadw lefel gor-ymrwymiad cyffredinol y Rhaglen ar 102% ar gyfradd gynllunio WEFO o €1.17/£1. Mae gwariant yn fwy na'r dyraniad ac mae ar 101% ar hyn o bryd.

17. Mae Dwyrain Cymru wedi ymrwymo'n llawn, ond mae'r ffaith bod ERDF wedi'i haddasu at ddibenion gwahanol mewn ymateb i anghenion busnes oherwydd pandemig COVID wedi cynyddu lefel y gor-ymrwymiad ar gyfer P2 ond yn dal i gadw lefel gor-ymrwymiad cyffredinol y Rhaglen ar 104% ar gyfradd gynllunio WEFO o €1.17/£1. Mae gwariant yn fwy na'r dyraniad ac mae ar 120% ar hyn o bryd.

18. Mae angen addasiad pellach i'r rhaglenni i drosglwyddo arian i P2 o Flaenoriaethau eraill i gyfrif am y ffaith bod ERDF wedi'i haddasu at ddibenion gwahanol er mwyn rheoli'r ymateb i COVID. Daw'r ail-ddyraniad hwn o gyllid o feysydd o'r rhaglen sydd wedi profi dadneilltuo annisgwyl a diffyg ymrwymiad yn fwy cyffredinol ond bydd yn sicrhau nad yw'r cyllid yn cael ei golli i Gymru.

19. Gan ystyried tystiolaeth ddiwygiedig o'r cymeradwyaethau presennol a rhagdybiaethau a ragwelir, bydd targedau dangosyddion allweddol yn cael eu cyflawni ac, yn y meysydd canlynol, rhagorir ar y targedau:

- Buddsoddi mewn mentrau
- Buddsoddiad preifat yn cyfateb i gymorth cyhoeddus i BBaChau
- Nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol
- Cynnydd mewn cyflogaeth mewn mentrau a gefnogir
- Cynnydd yn lefel yr allforio

Mae newidiadau i nifer o ddangosyddion o dan y ddwy Raglen yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad allanol, gan gynnwys:

- Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy
- Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau amrywiaeth

Mae'r adolygiad hwn a gomisiynwyd yn allanol wedi adrodd erbyn hyn, ac wedi ystyried effaith pandemig COVID 19 ar ddangosyddion, gan gynnwys y sefyllfa mae'r portffolio Blaenoriaeth 2 yn ei phrofi, bod cyfeiriad twf busnes presennol P2 wedi gorfod cael ei addasu er mwyn i fusnesau oroesi ac sy'n debygol o arwain at gynnwys dangosydd allweddol newydd ar gyfer y gweithrediadau cymorth busnes: swyddi wedi'u diogelu.

**Blaenoriaeth 3: Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni**

**Cymeradwyaeth ers y PMC diwethaf**

20. Dim cymeradwyaeth newydd ers y PMC diwethaf

21. Mae Blaenoriaeth 3 wedi'i gor-ymrwymo i lefel o 102% o ddyraniad y rhaglen, sy'n cyfateb i tua £3 miliwn o or-ymrwymiad. Mae llawer o weithrediadau'n ail-arfarnu'r hyn y gallant ei gyflawni erbyn eu dyddiadau gorffen y cytunwyd arnynt. Mewn rhai achosion, mae hyn yn arwain at rybudd cynnar o danwariant/gorwariant a chwestiynau tebygol am estyniadau. Rydym yn rheoli'r sefyllfa ddeinamig hon ac yn pwysleisio'r angen i weithrediadau gael eu cwblhau mor gynnar â phosibl er mwyn i WEFO gael amser i gau'r rhaglen a thynnu cyllid yr UE i lawr. Nid oes llawer o le ar gyfer llithriant, os o gwbl.

22. Mae'n bwysig iawn i weithrediadau gydymffurfio â'r amserlenni y cytunwyd arnynt gan fod y dangosyddion yn gyflawniadau sengl yn aml sydd wedi'u hôl-lwytho. Mae 3 gweithrediad gosodiadau ynni cymunedol yn parhau i haf 2023 ond, gan fod y rhain yn cynnwys sawl cynllun llai, mae risg is o weithrediadau heb eu cwblhau. Bydd 2 weithrediad paratoi safle morol a 3 arddangosiad prototeip yn cael eu cwblhau yn 2023 – rydym yn monitro dyddiadau'r

prototeipiau’n ofalus a byddwn yn parhau i herio unrhyw lithriad. Ar sail eithriadol, oherwydd eu pwysigrwydd fel gweithrediadau galluogi a'u maint, mae dau brosiect seilwaith ynni yn debygol o gau ar ôl Mehefin 2023. Mae ymwybyddiaeth dda o'r terfynau amser a'r ymrwymiad i'w cwblhau, ond mae'r risg yn uchel, serch hynny.

23. Mae Covid 19, chwyddiant, anwadalrwydd y farchnad ynni a materion yn y gadwyn gyflenwi wedi effeithio ar bob agwedd ar Flaenoriaeth 3. Er i'r sector fynd i'r afael â Covid 19 yn gymharol dda, roedd oedi ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni yn enwedig. Mae chwyddiant a phwysau'r gadwyn gyflenwi wedi cynyddu costau ac ymestyn amserlenni. Mae cyllid cyfatebol yn anodd dod o hyd iddo mewn rhai achosion hefyd, naill ai oherwydd natur gyn-fasnachol technoleg neu anhawster o ran cytuno ar delerau mewn marchnad anwadal.

24. Mae'r papur addasu’n esbonio'r newidiadau i'r dangosyddion a gynigir. Maent yn cynnwys cynnydd ym maes paratoi safleoedd wedi'u cydbwyso yn erbyn nifer is o brototeipiau. Mae Ynni Cymunedol yn dyblu ei ddangosyddion gan fod amryw o gynlluniau a oedd â chyfnod datblygu hir yn cyrraedd y pwynt cyflawni erbyn hyn. Mae targedau effeithlonrwydd ynni yn gostwng oherwydd llai o gyllid yn dilyn Covid a llifogydd, ond mae cynllun ARBED wedi perfformio'n well na'r targed.

25. Ni ragwelir unrhyw weithrediadau eraill ym mlaenoriaeth Dwyrain Cymru ac mae'r ymrwymiad ar 91% o dan y gyfradd gynllunio o 1.17.

### Blaenoriaeth 4: Cysylltedd a Datblygu Trefol

### Cymeradwyaeth ers y PMC diwethaf

26. Mae un gymeradwyaeth wedi'i gwneud ers y PMC diwethaf. Mae hyn er mwyn cefnogi unedau busnes newydd yng Nghaergybi. Gwnaed dyfarniad grant o £3.1 miliwn a oedd yn defnyddio rhan o'r dadneilltuo o weithrediad Maes Awyr Llanbedr. Yr ymrwymiad cyffredinol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yw 87%.

27. Mae'r Flaenoriaeth yn parhau i gyflawni, gyda 13 o’r gweithrediadau safleoedd ac eiddo wedi'u cwblhau erbyn hyn. Mae sawl prosiect o fewn ein gweithrediadau ymbarél mawr hefyd wedi'u cwblhau ac yn cyflawni manteision ar lawr gwlad.

28. Mae'r portffolio wedi profi heriau dros y blynyddoedd diwethaf yn sgil llifogydd, Brexit a Covid, gydag effaith o ganlyniad i hynny ar yr hyn y gellir ei gyflawni'n

realistig. Oherwydd amserlenni rhaglenni'r UE, nid ydym wedi gallu cynnig estyniadau amser i bawb. Mae hyn wedi arwain at ddadneilltuo mewn rhai meysydd ac mae'r papur addasu’n amlinellu cynlluniau ar gyfer ymdrin â hyn, ynghyd â'r dangosyddion cysylltiedig. Rydym yn dal i weld heriau’n ymwneud â chostau chwyddiant. Lle bo modd, rydym wedi lliniaru yn erbyn hyn drwy ariannu cynnydd mewn costau.

29. Mae'r ffocws wrth symud ymlaen ar sicrhau bod gweithrediadau'n cyflawni ac yn hawlio ar amser gyda'r nod o sicrhau proses gau brydlon. Mae'r amser hir sy'n gysylltiedig â phrosiectau seilwaith yn golygu y bydd nifer ohonynt, yn enwedig gweithrediadau'r Metro a'r A40, yn rhedeg yn agos at ddiwedd y rhaglen. Prin iawn yw'r cyfle i weithrediadau lithro.

30. Mae Dwyrain Cymru wedi ymrwymo 99%, gydag oddeutu £31.5 miliwn o ERDF wedi'i ddyrannu i'r Metro. Fel yn achos Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, yr her yw sicrhau bod gweithrediadau'n cyflawni ar amser ac yn cyllidebu a hawlio'n brydlon. Nid yw'r 3 gweithrediad Metro mwy o faint yn Nwyrain Cymru i fod i gael eu cwblhau tan Gorffennaf/Awst 2023, felly ychydig iawn o le sydd ganddynt ar gyfer llithriant ac mae WEFO yn parhau i fonitro'r rhain yn agos.

31. Mae natur y buddsoddiadau seilwaith a gefnogir o dan P4 yn golygu mai dim ond yn rhan olaf cyfnod y rhaglen y byddwn ni yn gweld cynnydd sylweddol yn erbyn targedau allbwn, unwaith y bydd gweithrediadau'n cyrraedd y cam cwblhau. Mae'r papur addasu’n manylu ar y newidiadau rydym yn bwriadu eu gwneud i ddangosyddion Blaenoriaeth 4.

**Blaenoriaeth 5: Cymorth Technegol**

**Cymeradwyaeth ers y PMC diwethaf**

32. Dim cymeradwyaeth newydd ers y PMC blaenorol.

33. Mae pob gweithrediad Cymorth Technegol wedi'i gymeradwyo ac wrthi'n cael ei gyflawni. Mae argymhelliad i PMC symud o fodel gwariant i gyfradd safonol o fodel 4% ar gyfer Cymorth Technegol. Mae hyn yn cael ei gwmpasu yn elfen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd o'r papur addasu gan fod hyn yn cynnwys trosglwyddo cyllid i'r Flaenoriaeth Cymorth Technegol, ynghyd â phapur ar wahân sy'n mynd i'r afael â'r model cyflawni newydd hwn ar gyfer y rhaglenni eraill.

## Adran 1: Rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop: Ymrwymiad

1. Mae'r adran hon yn rhoi manylion y cynnydd ariannol presennol o dan Raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop, gan gynnwys trosolwg o'r Rhaglenni a gwybodaeth ar lefel Blaenoriaeth.

2. Mae Tabl 1 yn dangos nifer a swm y Grant Undeb Ewropeaidd a ymrwymwyd i Weithrediadau wedi'u cymeradwyo o dan Raglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru.

3. Mae data cynnydd ar gyfer cyllid a dangosyddion yn cael ei gyhoeddi'n fisol ar Wefan WEFO yn https://llyw.cymru/cynnydd-y-rhaglenni-cronfeydd-strwythurol-yr-ue-2014-i-2020

**Tabl 1: Ymrwymiad Grant yr Undeb Ewropeaidd yn ô Rhaglen a Blaenoriaeth: Gweithrediadau a Gymeradwywyd**

£ Miliynau

| Blaenoriaeth | Gweithrediadau | Dyraniad | | Wedi'i neilltuo | | | | Gwariant | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm¹ | Grant yr UE¹ | Cyfanswm² | | Grant yr UE² | | Cyfanswm³ | | Grant yr UE³ | |
| **ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd** | | | | | | | | | | | |
| 1 | 19 | 185.6 | 146.5 | 221.7 | (119%) | 156.5 | (107%) | 151.7 | (82%) | 110.6 | (75%) |
| 2 | 22 | 375.7 | 271.4 | 682.8 | (182%) | 293.9 | (108%) | 540.0 | (144%) | 235.0 | (87%) |
| 3 | 20 | 260.7 | 193.9 | 308.2 | (118%) | 212.8 | (110%) | 258.7 | (99%) | 170.7 | (88%) |
| 4 | 6 | 18.8 | 13.9 | 25.9 | (138%) | 15.0 | (108%) | 20.2 | (108%) | 11.3 | (81%) |
| 5 | 6 | 10.6 | 8.0 | 15.9 | (149%) | 10.2 | (127%) | 6.4 | (60%) | 3.8 | (48%) |
| 6 | 1 | 92.3 | 68.4 | 101.9 | (110%) | 35.0 | (51%) | 0.0 | (0%) | 0.0 | (0%) |
| **Cyfanswm** | **74** | **943.7** | **702.2** | **1,356.5** | **(144%)** | **723.3** | **(103%)** | **976.9** | **(104%)** | **531.5** | **(76%)** |
| **ESF Dwyrain Cymru** | | | | | | | | | | | |
| 1 | 9 | 43.6 | 21.8 | 48.5 | (111%) | 23.2 | (107%) | 35.1 | (80%) | 19.0 | (87%) |
| 2 | 15 | 156.5 | 64.7 | 285.6 | (183%) | 72.0 | (111%) | 241.1 | (154%) | 56.8 | (88%) |
| 3 | 12 | 94.0 | 47.0 | 129.3 | (137%) | 49.3 | (105%) | 92.5 | (98%) | 38.5 | (82%) |
| 4 | 5 | 7.0 | 3.5 | 6.1 | (87%) | 3.0 | (85%) | 4.8 | (68%) | 2.0 | (58%) |
| 5 | 4 | 9.6 | 4.5 | 6.1 | (64%) | 3.0 | (67%) | 2.6 | (27%) | 1.3 | (29%) |
| 6 | 1 | 70.1 | 35.0 | 69.8 | (100%) | 30.0 | (86%) | 0.0 | (0%) | 0.0 | (0%) |
| **Cyfanswm** | **46** | **380.8** | **176.6** | **545.5** | **(143%)** | **180.6** | **(102%)** | **376.1** | **(99%)** | **117.7** | **(67%)** |
| **Cyfanswm ESF** | **120** | **1,324.5** | **878.8** | **1,902.0** | **(144%)** | **903.9** | **(103%)** | **1,352.9** | **(102%)** | **649.2** | **(74%)** |

Ffynhonnell: SCEC, 30/11/2022

¹ Yn seiliedig ar gyfradd gyfnewid o £1:€1.17
² Mae'r canrannau'n dangos y swm sydd wedi'i neilltuo fel cyfran o'r dyraniad
³ Mae'r canrannau'n dangos y gwariant fel cyfran o'r dyraniad

## Y Diweddaraf am y Rhaglen

4. Mae lefelau ymrwymiad wedi cynyddu ers y cyfarfod PMC diwethaf ac mae bellach yn 103% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 102% yn Nwyrain Cymru (103% yn gyffredinol) ar y gyfradd gynllunio bresennol o £1=€1.17. Daw'r cynnydd yn dilyn cymeradwyo dau weithrediad newydd ym Mlaenoriaeth 6 sy'n cefnogi gwariant Covid-19 ar gyfer y GIG a gofal cymdeithasol. Mae cyfanswm cronfeydd yr UE sydd wedi'u hymrwymo yn £904 miliwn bellach.

5. Mae lefelau ymrwymiad yn y tair blaenoriaeth fwyaf – Trechu Tlodi, Sgiliau Twf a Chyflogaeth Ieuenctid (Blaenoriaethau 1 i 3) – yn parhau'n uchel rhwng 105% a 111%. Rhagwelir y bydd rhywfaint o danwariant gan weithrediadau a gymeradwywyd wrth iddynt gau a disgwylir y bydd hyn yn ddigon i sicrhau na fydd alldro'r rhaglen yn uwch na'r cronfeydd UE sydd ar gael.

6. Mae'r cronfeydd a delir i fuddiolwyr wedi codi i £531 miliwn yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a £118 miliwn yn Nwyrain Cymru – cyfanswm o £649 miliwn, sy'n cynrychioli 74% o gronfeydd y rhaglenni. Cyflawnwyd targedau N+3 2022.

7. Ar 1 Rhagfyr, roedd 11 o weithrediadau ESF wedi cwblhau'r broses cau prosiect ac roedd 9 gweithrediad arall wedi cyrraedd eu dyddiad gorffen ac yn y broses o gau. Mae gan y 100 o weithrediadau ESF sy'n weddill ddyddiadau gorffen sy'n disgyn yn ystod blwyddyn olaf y rhaglenni.

8. Mae rhai ymholiadau'n parhau i gael eu derbyn gan weithrediadau sy'n ceisio cael estyniadau i'w dyddiadau gorffen, ond gan ein bod bellach yn dechrau ar 12 mis olaf cyfnod y rhaglen, mae'n annhebygol y bydd unrhyw estyniadau pellach yn cael eu cytuno.

9. Hyd yma, mae mwy na 365,000 o gyfranogwyr wedi'u cofnodi (84% o dargedau terfynol cyfunol y rhaglenni). O'r rhain, mae dros 148,000 o gyfranogwyr wedi ennill cymwysterau (85% o'r nifer terfynol disgwyliedig) ac mae dros 37,000 wedi'u cefnogi i gael cyflogaeth neu hunangyflogaeth (92% o'r nifer terfynol disgwyliedig). Yn ddiweddar, mae WEFO wedi adolygu cyflawniad y rhaglenni yn erbyn yr ystod gyfan o dargedau dangosyddion a osodwyd o dan y Fframwaith OPs a Pherfformiad, gan gynnwys ystyried y dystiolaeth o'r adolygiad annibynnol a adroddodd yn 2022. Ein casgliad yw bod nifer y cyfranogwyr sy'n cymryd rhan a'r canlyniadau y maent wedi'u cyflawni yn dangos bod y rhaglenni wedi perfformio'n dda, er gwaethaf yr amgylchiadau digynsail y maent wedi'u cyflawni ynddynt. Ar lefel allbwn unigol a dangosyddion canlyniadau o dan bob Amcan Penodol, mae rhywfaint o amrywiant, gyda gor-berfformiad yn erbyn rhai dangosyddion a thanberfformiad yn erbyn rhai eraill. Fodd bynnag, rydym wedi dod i'r casgliad, yn unol â Rheoliadau'r UE, nad oes llawer o fudd mewn ceisio addasu targedau a osodwyd ar ddechrau'r rhaglenni i wneud dim mwy na'u cysoni â pherfformiad gwirioneddol. Mae cynnydd yn erbyn y targedau gwariant blaenoriaeth yn rhoi hyder hefyd y bydd y rhain yn cael eu cyflawni ar gyfer bron pob blaenoriaeth ac y byddai modd rheoli unrhyw ddiffygion posibl o fewn yr hyblygrwydd a ganiateir gan reolau cau'r CE. O ganlyniad, nid oes unrhyw addasiadau i dargedau rhaglenni na dyraniadau ariannol ESF yn cael eu cynnig ar hyn o bryd.

## Adran 2: Cynnydd yn ôl Blaenoriaeth

### Blaenoriaeth 1: Trechu Tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy

10. Mae’r Flaenoriaeth hon wedi ymrwymo 107% yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd a 107% yn Nwyrain Cymru. Hyd yma, mae’r Flaenoriaeth hon wedi cefnogi dros 85,000 o gyfranogwyr ledled Cymru.

11. Mae gwariant yn ôl gweithrediadau’n parhau i wneud cynnydd tuag at y targedau gwariant blaenoriaeth (targedau diwedd rhaglen a osodwyd ar gyfer 2023), gydag 82% o'r swm targed wedi'i gyflawni bellach yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ac 80% yn Nwyrain Cymru.

12. Mae'r dangosyddion allbwn yn dangos lefelau arbennig o uchel o gyfranogiad gan gyfranogwyr di-waith hirdymor ac, yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, cyfranogwyr â chyflwr iechyd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio. Ar gyfer y ddau grŵp o gyfranogwyr, rhagorwyd yn sylweddol eisoes ar y gwerthoedd dangosydd targed a osodwyd ar gyfer 2023. Mae cynnydd da’n cael ei wneud hefyd wrth gefnogi cyfranogwyr economaidd anweithgar, gydag 84% o'r gwerth targed a osodwyd ar gyfer 2023 wedi'i gyflawni eisoes yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 70% wedi'i gyflawni yn Nwyrain Cymru.

13. Mae'r dangosyddion canlyniadau’n dangos darlun mwy cymysg, ond yn dangos bod y cyfranogwyr yn cyflawni ystod o ganlyniadau cadarnhaol sy'n berthnasol i'w teithiau cyflogaeth. Un pwynt arbennig o gryf yw cyfran y cyfranogwyr economaidd anweithgar sy'n cael cyflogaeth, sef 26% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 27% yn Nwyrain Cymru, sy'n uwch na'r gwerthoedd targed o 20%. Mae cyfran y cyfranogwyr sydd wedi'u tangyflogi sy'n cyflawni safle gwell yn y farchnad lafur yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn uwch na'r targed hefyd, sef 45% yn erbyn targed o 40%.

14. Mae’r prif faes yn y Flaenoriaeth hon lle mae niferoedd yn is na'r disgwyl yn ymwneud â chyfranogwyr di-waith tymor byr a chyfranogwyr sydd wedi’u heffeithio gan brosesau dileu swyddi yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd. Yn amodau'r farchnad lafur mae'r rhaglenni wedi gweithredu ynddynt, mae llai o bobl o'r grwpiau hyn wedi bod yn cael mynediad at gymorth nag oedd i'w ddisgwyl yn wreiddiol ac mae'n ymddangos y bydd hyn yn annhebygol o newid yn sylweddol yn yr amser sy'n weddill gan y rhaglenni.

### Blaenoriaeth 2: Sgiliau Twf

15. Ar hyn o bryd, yr ymrwymiad yn y Flaenoriaeth hon yw 108% yng Ngorllewin Cymru a’r Cymoedd a 111% yn Nwyrain Cymru. Hyd yma, mae’r Flaenoriaeth hon wedi cefnogi dros 163,000 o gyfranogwyr ledled Cymru.

16. Mae gwariant a ddatganwyd gan weithrediadau yn y Flaenoriaeth hon wedi mynd y tu hwnt i'r targedau gwariant blaenoriaeth eisoes (targedau diwedd rhaglen a osodwyd ar gyfer 2023) ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru.

17. Mae'r dangosyddion allbwn yn parhau i ddangos lefelau arbennig o uchel o gyfranogiad gan weithwyr sydd wedi cael addysg uwchradd uwch. I'r cyfranogwyr hyn, mae'r gwerthoedd targed dangosyddion a osodwyd ar gyfer 2023 wedi'u cyflawni eisoes, a rhagorwyd arnynt yn sylweddol ar gyfer menywod.

18. Mae'r targedau terfynol ar gyfer cyfranogwyr sydd ag addysg uwchradd is yn SO1 hefyd bellach wedi'u cyflawni yn Nwyrain Cymru. Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae cynnydd da ar gyfer y grŵp cyfranogwyr hwn, gydag 88% o'r targed terfynol bellach wedi'i gyflawni ar gyfer dynion a 73% ar gyfer menywod.

19. Yn yr un modd, mae cynnydd cryf yn y ddwy raglen ar gyfer cyfranogwyr gwrywaidd a benywaidd sydd â gradd yn SO3 (83% a 74% o'r targedau terfynol sydd eisoes wedi'u cyflawni yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, 74% a 78% yn Nwyrain Cymru) a chyfranogwyr yn SO4 (77% o'r targed terfynol wedi'i gyflawni bellach yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, 96% yn Nwyrain Cymru)

20. Maes y Flaenoriaeth hon sydd wedi dangos cynnydd arafach yw cyfranogwyr ag addysg uwchradd is yn SO2. Hyd yma yn Nwyrain Cymru, mae 72% o'r targed terfynol wedi'i gyflawni ar gyfer dynion a 64% ar gyfer menywod. Yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae 61% o'r targed terfynol ar gyfer dynion wedi'i gyflawni hyd yma a 52% o'r targed ar gyfer menywod.

21. Mae dangosyddion canlyniadau’n mynd yn eu blaen yn foddhaol ar y cyfan, gyda chyfrannau'r cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau’n agos at y gwerthoedd targed ar draws y rhan fwyaf o grwpiau cyfranogwyr. Mae cyfran y cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau rhwng 60% a 70% yn y rhan fwyaf o grwpiau cyfranogwyr. Adroddwyd cyfrannau is hyd yma ar gyfer cymwysterau ôl-raddedig ond mae hyn yn adlewyrchu hyd hir y cyrsiau hyn a'u hamserlenni dyfarnu. Mae cyfran y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu harferion cydraddoldeb ar 92% yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 93% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, ac mae cyfran y gweithrediadau sy'n integreiddio datblygu cynaliadwy ar 68% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 67% yn Nwyrain Cymru, y ddau dipyn uwch na thargedau'r rhaglen.

**Blaenoriaeth 3: Cyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid**

22. Ar hyn o bryd, yr ymrwymiad yn y Flaenoriaeth hon yw 110% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 105% yn Nwyrain Cymru. Hyd yma, mae'r Flaenoriaeth hon wedi cefnogi dros 116,000 o gyfranogwyr ledled Cymru.

23. Mae'r cynnydd tuag at y targedau gwariant blaenoriaeth (targedau diwedd rhaglen a osodwyd ar gyfer 2023) yn gryf, gyda gwariant yn ôl gweithrediad yn cyfateb i 99% o'r targed terfynol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 98% yn Nwyrain Cymru erbyn hyn.

24. Mae dangosyddion allbwn yn dangos lefelau cryf o gyfranogiad gan gyfranogwyr nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), gyda'r gwerth targed dangosydd a osodwyd ar gyfer 2023 ar gyfer y grŵp cyfranogwyr hwn eisoes wedi'i ragori yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 76% wedi'i gyflawni yn Nwyrain Cymru. Mae cynnydd da'n cael ei wneud hefyd wrth gefnogi pobl ifanc yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i ymgysylltu â phynciau STEM, gyda'r targed ar gyfer cyfranogwyr gwrywaidd eisoes wedi'i ragori ac 82% o'r targed ar gyfer menywod wedi'i gyflawni bellach. Mae mwy o fenywod na dynion wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau STEM (dros 11,000 o fenywod o gymharu ag ychydig o dan 9,500 o ddynion), ond nid yw'r rhaniad hwn rhwng y rhywiau mor gryf o blaid menywod ag y gobeithiwyd.

25. Mae cynnydd yn arafach i gyfranogwyr sy'n wynebu risg o fod yn NEET, gyda 54% o werth targed 2023 ar gyfer y dangosydd hwn wedi'i gyflawni hyd yma yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 73% yn Nwyrain Cymru. Mae cymhwysedd cyfranogwyr yn y grŵp hwn yn seiliedig ar systemau adnabod risg a ddatblygwyd gan ddarparwyr addysg, ac mae'n ymddangos yn debygol bod y targed wedi goramcangyfrif faint o gyfranogwyr fyddai'n cael eu nodi drwy'r systemau hyn. Mae nifer y cyfranogwyr cyflogedig o'r sector blynyddoedd cynnar yn is na'r disgwyliadau hefyd.

26. Mae'r dangosyddion canlyniadau'n dangos darlun cadarnhaol ar y cyfan o ganlyniadau pobl ifanc ac addysgwyr wrth gymryd rhan mewn gweithrediadau. Ar gyfer cyfranogwyr NEET, mae cyfran y cyfranogwyr sy'n ennill cymwysterau (25% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, 27% yn Nwyrain Cymru) a'r gyfran sy'n cael cyflogaeth (32% yn y ddwy raglen) uwchlaw gwerthoedd targed. Yn rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae cyfrannau'r bobl ifanc sy'n cwblhau eu hyfforddiant STEM a chyfrannau'r gweithwyr o'r sector blynyddoedd cynnar sy'n ennill cymwysterau'n dangos cynnydd cyson tuag at y gwerthoedd targed.

**Blaenoriaeth 4: Cymorth Technegol**

27. Ar hyn o bryd, yr ymrwymiad yn y Flaenoriaeth hon yw 108% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ac 85% yn Nwyrain Cymru.

28. Mae'r gweithgareddau a gefnogir yn parhau i gynnwys cymorth refeniw ar gyfer WEFO fel yr Awdurdod Rheoli wrth weithredu'r rhaglen, y pedwar 'Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol' sydd wedi'u lleoli yn y Gogledd, y Canolbarth, Bae Abertawe a'r De-ddwyrain, a chymorth refeniw'r Corff Cyfryngol ar gyfer CGGC. Ni ragwelir unrhyw ymrwymiad arall.

**Blaenoriaeth 5: Diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gwaith rhanbarthol**

29. Ar hyn o bryd, yr ymrwymiad yn y Flaenoriaeth hon yw 127% yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd a 67% yn Nwyrain Cymru.

30. Mae hwn yn bortffolio cymharol newydd o brosiectau, felly mae cynnydd yn erbyn y targedau gwariant blaenoriaeth (targedau diwedd rhaglen a osodwyd ar gyfer 2023) yn arafach nag ar gyfer blaenoriaethau eraill, gyda gwariant a ddatganwyd yn ôl gweithrediadau wedi cyrraedd 60% o darged Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a 27% o darged Dwyrain Cymru ar hyn o bryd.

31. Mae cyflawniadau dangosyddion yn erbyn targedau yn eithaf cryf, gyda'r targed terfynol ar gyfer nifer yr endidau sy'n cymryd rhan mewn prosiectau eisoes wedi'u rhagori ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru. Mae dulliau, prosesau ac offer newydd yn dechrau cael eu hadrodd hefyd. Ar y cyfan, mae rhagolygon o weithrediadau'n awgrymu y dylai'r holl dargedau dangosyddion gael eu cyflawni.

32. Agwedd arloesol ar y Flaenoriaeth hon yw'r angen i gytuno ar ofynion tystiolaeth dangosydd y canlyniad ar gyfer y 'dulliau, gweithdrefnau ac adnoddau newydd' ar wahân gyda gweithrediadau ar gyfer pob dull/gweithdrefn/adnodd sy'n cael ei hawlio. Mae tîm Ymchwil, Monitro a Gwerthuso WEFO yn gweithio'n agos gyda gweithrediadau i sicrhau bod hyn yn digwydd.

**Blaenoriaeth 6: Rheoli COVID drwy Gapasiti**

33. Mae dau weithrediad newydd, o'r enw ***Cefnogi'r GIG a Gofal Cymdeithasol drwy Covid*** (Gorllewin Cymru a'r Cymoedd: TPC £101.9 miliwn, ESF £35.0 miliwn a Dwyrain Cymru: TPC £69.8 miliwn, ESF £30.0 miliwn), wedi'u cymeradwyo ers y cyfarfod PMC diwethaf. Caiff y gweithrediadau hyn eu harwain gan Adran Iechyd Llywodraeth Cymru, gyda byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG o bob cwr o Gymru fel cyd-fuddiolwyr. Mae disgwyl iddynt fod wedi helpu i gefnogi cyflogaeth bron i 4,000 o staff meddygol ychwanegol a phrynu bron i 200 miliwn o eitemau PPE ar gyfer y GIG a gofal cymdeithasol yn ystod y pandemig.

WPMC(23)201

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020:**

**ADDASIAD I'R RHAGLEN ERDF AR GYFER RHAGLEN GORLLEWIN CYMRU A'R CYMOEDD 2014-2020**

**ADDASIAD I'R RHAGLEN ERDF AR GYFER RHAGLEN DWYRAIN CYMRU 2014-2022**

**Mater**

1. Yn dilyn ymateb y ddwy raglen i'r pandemig Covid mae angen addasu'r rhaglenni i sicrhau bod yr uchafswm o'r arian a oedd ar gael i fusnesau ym Mlaenoriaeth 2, Cystadleurwydd BBaChau yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwn yn cael ei ddefnyddio. Mae'r addasiadau'n adlewyrchu'r angen i addasu dyraniadau ariannol ar lefel Blaenoriaeth a Thematig a thargedau dangosydd i gefnogi'r ymateb hwn.

   Fel rhan o'r adolygiad o'r Adolygiad o Ddangosyddion Annibynnol mae cynigion hefyd i wneud newidiadau i nifer cyfyngedig o ddangosyddion ar draws y rhaglenni. Mae angen newidiadau hefyd ar lefel Fframwaith Perfformiad i adlewyrchu targedau dangosyddion ariannol a fframwaith.

   Mae'r Awdurdod Rheoli yn gwneud newid arfaethedig i sut mae Cymorth Technegol yn cael ei dynnu i lawr. Yn hytrach na datganiad o wariant ar lefel Blaenoriaeth Cymorth Technegol, defnyddir dull cyfradd safonol o 4%. Gan y cynigir symud cyllid i'r Flaenoriaeth Cymorth Technegol ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, cyflwynir y newid hwn yn y papur addasu hwn. Ymdrinnir â'r cynnig i symud i gyfradd safonol o 4% ar gyfer y Rhaglenni eraill (dim symud arian) o dan bapur WPMC(23)202.

   Mae adolygiad o gynnwys cyd-destunol y rhaglenni ERDF wedi'i gynnal ac ni ystyrir unrhyw newidiadau yn angenrheidiol.

**Argymhelliad**

2. Mae'r newidiadau canlynol yn adlewyrchu cynigion addasu ariannol ERDF ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae'r newidiadau i Ddangosyddion i'w gweld yn Atodiad 1 a newidiadau i'r Fframwaith Perfformiad yn Nhabl 1. Defnyddir Cyfradd Gynllunio WEFO o £1/€1.17 ar gyfer y cyfrifiadau trosi.

- Symud ERDF £10.4m (€12.3m) o Flaenoriaeth 1, Amcan Thematig 1 Ymchwil ac Arloesedd (Cryfhau ymchwil, Datblygiad Technolegol ac Arloesedd) i P2, Cystadleurwydd BBaChau, Amcan Thematig 3 (Gwella Cystadleurwydd busnesau bach a chanolig)
- Symud ERDF £2m (€2.4m) o Flaenoriaeth 1, Ymchwil ac Arloesedd, Amcan Thematig 1 (Cryfhau ymchwil, Datblygu technolegol ac Arloesedd) i Flaenoriaeth 5 Cymorth Technegol
- Symud ERDF £46.6m (€54.5m) o Flaenoriaeth 4, Cysylltedd a Datblygu Trefol (mae £25.8m yn €30.2m o Amcan Thematig 7 - Hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a chael gwared ar dagfeydd mewn seilwaith rhwydwaith allweddol, ynghyd â £20.8m yw €24.3m o Amcan Thematig 8 - Hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd a chefnogi symudedd llafur i Flaenoriaeth 2,

Cystadleurwydd BBaChau, Amcan Thematig 3 - Gwella cystadleurwydd busnesau bach a chanolig). Mae rhan o'r symud arian o Flaenoriaeth 4, Cysylltedd a Datblygu Ardaloedd Trefol yn mynd i'r afael â'r cytundeb archwilio a wnaed gyda'r UE ynglŷn â'r gweithrediad, Cynllun Gwelliannau Gorsafoedd. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad 1 o dan Flaenoriaeth 4

- Symud ERDF £3m (€3.5m) o Flaenoriaeth 4, Cysylltedd a Datblygu Trefol, Amcan Thematig 8 (Hyrwyddo cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd a chefnogi symudedd llafur) i Flaenoriaeth 5, Cymorth Technegol
- Bydd angen addasu dosbarthiad cyllid rhwng Amcanion Thematig ym Mlaenoriaeth 4, Cysylltedd a Datblygu Trefol hefyd gyda £3.7m (€4.3m) yn symud o Amcan Thematig 2, (Gwella mynediad at dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu, y defnydd ohonynt a'u hansawdd), i Amcan Thematig 4, (Cefnogi'r newid i economi carbon isel ym mhob sector)
- O ganlyniad i symud arian i Flaenoriaeth 2, Cystadleurwydd BBaChau yn ymwneud ag ymateb i'r pandemig a'r angen i fireinio'r dyraniadau cyllid rhwng dyled ac ecwiti fel yr adlewyrchir yn yr ymarfer adnewyddu ex-ante a gwblhawyd yn ystod cyfnod y pandemig, bydd angen symud £12m (€14m) hefyd o Amcan Thematig 2 (Gwella mynediad at dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu, eu hansawdd a'r defnydd ohonynt) i Amcan Thematig 3 (Gwella cystadleurwydd busnesau bach a chanolig).

3. Mae'r newidiadau canlynol yn adlewyrchu cynigion addasu ariannol ERDF ar gyfer Gorllewin Cymru. Mae'r newidiadau i Ddangosyddion i'w gweld yn Atodiad 1 a newidiadau i'r Fframwaith Perfformiad yn Nhabl 1. Defnyddir cyfradd Gynllunio WEFO o £1/€1.17 ar gyfer y cyfrifiadau trosi.

    - Symud ERDF £11.5m (€13.5m) o Flaenoriaeth 1, Ymchwil ac Arloesedd, Amcan Thematig 1 (Cryfhau ymchwil, Datblygu Technolegol ac Arloesedd) i Flaenoriaeth 2, Cystadleurwydd BBaChau, Amcan Thematig 3 (Gwella Cystadleurwydd busnesau bach a chanolig) (£6m/€7m), ynghyd â £5.5m (€6.5m) i Amcan Thematig 1, (Cryfhau ymchwil, datblygu technolegau ac Arloesedd).

**Cefndir**

4. Ers dechrau 2020, mae rhaglenni ERDF wedi gorfod delio â sawl effaith allanol. Roedd y rhain yn cynnwys llifogydd a achoswyd gan Storm Dennis, y pandemig a'r cyfnodau clo cysylltiedig, mesurau ymbellhau cymdeithasol, gallu pobl i weithio, rhyfel Wcráin, y cynnydd sylweddol yng nghost nwyddau a gwasanaethau trwy gadwyni cyflenwi, oedi wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau a'r argyfwng costau byw cyffredinol. I raddau llai neu fwy mae'r ffactorau hyn wedi cael effaith ar weithrediad gweithrediadau ERDF wedi'u hariannu, yn arbennig y gweithrediadau hynny sy'n cynnig mynediad i fusnesau at gyfleusterau arbenigol ac arbenigedd, a gweithrediadau seilwaith. Mae gweithrediadau seilwaith wedi wynebu tarfu yn sgil y pandemig a chynnydd sylweddol mewn costau, oedi cyn dosbarthu deunyddiau a thrafferthion staff wrth i bobl gael eu hannog i weithio gartref, a oedd yn heriol os oedd angen personél ar y safle.

   Mewn ymateb i argyfwng y pandemig, manteisiodd Blaenoriaeth 2 Cystadleurwydd BBaChau yn y ddwy raglen ERDF ar y rheoliadau hyblyg a gyflwynwyd gan yr UE. Roedd hyn yn golygu bod arian ychwanegol yn cael ei roi ym Manc Datblygu Cymru (benthyciadau/buddsoddiadau ecwiti) i helpu busnesau yn ystod y pandemig ynghyd â chyllid ychwanegol i weithgareddau cefnogi busnes (cymorth anariannol). Roedd y pecyn cyfan o gymorth gan raglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn dod i £60m (€70.2m) a £11.5m (€13.5m) yn Nwyrain Cymru. Roedd hyn yn gymorth amhrisiadwy wrth i fusnesau ymdopi yn ystod cyfnod digynsail iddynt hwy a'r economi.

   Mae cynigion ar gyfer addasiadau ariannol yn adlewyrchu'r cymorth y rhoddodd y rhaglenni i fusnesau a'r arian a ddyfarnwyd i Fanc Datblygu Cymru. Cefnogir y cynigion gan yr ymarfer adnewyddu ex-ante a amlygodd y diffyg galw am fuddsoddiadau ecwiti yn benodol yn rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (gyda'r gwrthwyneb yn wir yn rhanbarth Dwyrain Cymru) a symud arian ar draws i fuddsoddi mewn dyledion yn Amcan Thematig 3, Gwella cystadleurwydd busnesau bach a chanolig.

   Daw'r cyllid a drosglwyddir i Flaenoriaeth 2, Cystadleurwydd BBaChau o gronfeydd wrth gefn ym Mlaenoriaeth 1, Ymchwil ac Arloesedd a Blaenoriaeth 4, Cysylltedd a Datblygiad Trefol. Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn ar gael oherwydd bod gweithrediadau a ariennir, yn enwedig gweithrediadau seilwaith, wedi methu â darparu i raddfa yn ôl y bwriad. Hefyd, nid oedd gweithrediadau'n gallu cynnig cyfleusterau ac arbenigedd i fusnesau yn ystod cyfnod y pandemig lle'r oedd cyfyngiadau'r cyfnod clo yn atal cydweithio mewn cyfleusterau arbenigol.

   Yn ogystal, mae'r addasiad yn ymdrin â mater archwilio sy'n cynnwys gweithrediad a ariennir gan Flaenoriaeth 4, sef y cyllid ar gyfer y Cynllun Gwella Gorsafoedd ôl-weithredol. Cefnogodd rhaglen 2014-2020 ail gam y datblygiad hwn a ddechreuodd yn wreiddiol yn ystod cyfnod rhaglen ERDF 2007-2013. Fodd bynnag, barnodd y CE nad oedd caffael y gwaith ar gyfer 2007-2013 yn cydymffurfio, gan wneud y gwariant yn anghymwys. Cafodd hyn effaith uniongyrchol ar y gweithrediad a ariannwyd o dan raglen 2014-2020

gan fod y gweithrediad hwn yn weithred ôl-weithredol a bod yr un trefniadau caffael yn berthnasol. Roedd y cytundeb a wnaed gyda'r CE yn golygu, er y byddai'r gwariant yn cael ei ystyried yn anghymwys oherwydd afreoleidd-dra caffael a bod yr Awdurdod Rheoli wedi dileu'r gwariant a'r gweithrediad o'r rhaglen, ni fyddai'r ERDF yn cael ei golli i ddyraniad y rhaglen ond byddai'n rhaid ei symud o Flaenoriaeth 4, Cysylltedd a Datblygiad Trefol i ran arall o'r rhaglen. Fel y cyfryw mae £15m (€17.6m) ERDF yn rhan o'r cynnig £46.6m (€54.5m) o Flaenoriaeth 4 i Flaenoriaeth 2, Cystadleurwydd BBaChau.

O ran Cymorth Technegol, mae'r addasiad ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn cynnig newid i sut mae'r cronfeydd Cymorth Technegol yn cael eu tynnu i lawr ynghyd â throsglwyddo cyllid i'r Flaenoriaeth. Mae Cymorth Technegol yn y rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi'i roi ar waith i wella trefniadau gweithredu, darparu capasiti ychwanegol ar gyfer cefnogi a datblygu rhaglenni, gweithgareddau ymchwil a monitro a hyrwyddo rhaglenni. Telir costau cyflog uniongyrchol yr Awdurdod Rheoli a rhanddeiliaid perthnasol hefyd. Wrth gymeradwyo'r rhaglen gwnaeth yr Awdurdod Rheoli gais am ddyraniad Cymorth Technegol o 2% i raglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a hyd yma mae wedi cynnwys yr holl wariant Cymorth Technegol yn y cyllid a dynnir i lawr.

Hoffai'r Awdurdod Rheoli symud i gyfradd safonol Cymorth Technegol o 4%, gan fanteisio ar opsiwn a gyflwynwyd yn ddiweddar gan y Comisiwn. Hoffai'r Awdurdod Rheoli fabwysiadu'r broses symlach hon er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar gostau Cymorth Technegol a fydd yn rhyddhau adnoddau Rheoli Awdurdod i ganolbwyntio ar gynyddu gwariant cymaint â phosibl a chwblhau gweithrediadau. Bydd yn golygu hefyd, er y bydd yr Awdurdod Rheoli yn parhau i dalu cost Cymorth Technegol i'r buddiolwyr ar gostau go iawn, ni fydd y costau hynny'n cael eu harchwilio gan EFAT/EC tra bod cynnydd yn y dyraniad yn gwella gallu'r Awdurdod Rheoli i gau'r rhaglenni'n effeithlon, mewn modd sy'n cydymffurfio a chyda chyfradd gwallau isel.

Ar y cyfan, cynigir symud swm cymedrol o gyllid i Flaenoriaeth 5, Cymorth Technegol, sef cyfanswm o £5m (€5.85m) ond nid oes unrhyw weithrediad yn cael ei effeithio gan y symudiad hwn o gronfeydd ac mae gweithrediadau Cymorth Technegol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd yn elwa'n uniongyrchol drwy beidio â gorfod cael eu harchwilio yn y dyfodol.

**Newidiadau i'r Tabl Dangosyddion a Fframwaith Perfformiad**

5. Mae'r addasiadau i'r rhaglen ERDF yn golygu bod angen gwneud newidiadau i Ddangosyddion Fframwaith Perfformiad a dangosyddion lefel Blaenoriaeth. Comisiynodd yr Awdurdod Rheoli adolygiad annibynnol o ddangosyddion a thargedau'r rhaglen a gwblhawyd gan Wavehill. Mae canlyniadau'r adolygiad hwn yn cael eu hymgorffori yn Atodiad 1 sy'n amlygu'r dangosyddion a'r targedau y mae'r Awdurdod Rheoli yn teimlo eu bod yn newidiadau synhwyrol i'w gwneud.

Mae'r cynnig hwn yn dwyn ynghyd y newidiadau ariannol (Gwariant cymwys sy'n deillio o ERDF, cyfraniadau cenedlaethol a phreifat) a newidiadau i Ddangosyddion Fframwaith Perfformiad, a ddangosir yn Nhabl 1. Bydd y newidiadau hyn yn rhan o'r cais addasu i'r Comisiwn i'w ystyried yn ddyledus.

**Penderfyniad**

6. Dyma'r penderfyniadau sydd angen i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen eu gwneud:

- Cytuno ar newidiadau ariannol rhaglen ERDF, fel yr amlinellir yn y papur hwn ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2014-2020, Blaenoriaeth 1, Ymchwil ac Arloesedd, Blaenoriaeth 2, Cystadleurwydd BBaChau, Blaenoriaeth 4, Cysylltedd a Datblygu Trefol a Blaenoriaeth 5, Cymorth Technegol
- Cytuno ar newidiadau ariannol rhaglen ERDF, fel yr amlinellir yn y papur hwn ar gyfer Dwyrain Cymru 2014-2020, Blaenoriaeth 1, Ymchwil ac Arloesedd a Blaenoriaeth 2, Cystadleurwydd BBaChau.
- Cytuno ar y newidiadau fel y'u hamlinellir yn Atodiad 1 i'r papur hwn ar gyfer Dangosydd a thargedau ar gyfer rhaglenni ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac ERDF Dwyrain Cymru, 2014-2020
- Cytuno ar y newidiadau i Dabl 1, Fframwaith Perfformiad ar gyfer ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ac ERDF Dwyrain Cymru, 2014-2020.

**Camau Nesaf**

7. Yn amodol ar benderfyniadau Pwyllgor Monitro'r Rhaglen, bydd yr Awdurdod Rheoli yn paratoi'r cyflwyniadau electronig angenrheidiol o'r addasiadau i'r rhaglen fel mater o flaenoriaeth. Ar ôl eu cyflwyno, bydd y ceisiadau i newid y rhaglenni yn cael eu hystyried fel rhan o broses adolygu rhyngadrannol y Comisiwn. Bydd yr Awdurdod Rheoli yn ymateb i unrhyw ymholiadau sy'n codi o'r broses ryngadrannol hon fel mater o flaenoriaeth i sicrhau bod modd gwneud penderfyniad gan y Comisiwn yn amserol.

**Arweinydd Awdurdod Rheoli/WEFO: Sue Price**
**Cymeradwywyd gan: Peter Ryland**
**Dyddiad: 6 Rhagfyr 2022**

**Annex 1 – Newidiadau i Ddangosyddion Blaenoriaeth ar lefel Perfformiad a Blaenoriaeth ar gyfer ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, 2014-2020 ac ERDF Dwyrain Cymru, 2014-2020**

Wedi'i alinio â'r cynigion ariannol ar gyfer newid i raglenni ERDF 2014-2020 mae angen hefyd ystyried newidiadau i ddangosyddion ar lefel Fframwaith Perfformiad a Blaenoriaeth. Comisiynodd yr Awdurdod Rheoli adolygiad annibynnol o ddangosyddion ERDF (ac ESF), ac mae'r argymhellion wedi eu hystyried gan yr Awdurdod Rheoli ac maent yn cael eu hadlewyrchu yn y papur hwn. Cwblhawyd yr adolygiad annibynnol gan Wavehill.

Ar gyfer pob Blaenoriaeth ym mhob rhaglen, mae yna set o newidiadau i ddangosyddion yn cael eu cynnig. Y dangosyddion hynny sy'n cael eu **hamlygu** yw dangosyddion Fframwaith Perfformiad a fydd, ochr yn ochr â'r newidiadau ariannol, yn ffurfio Fframwaith Perfformiad newydd i'w cyflawni os cânt eu cymeradwyo gan y Comisiwn.

**Rhaglen ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd 2014-2020**

**Blaenoriaeth 1 – Ymchwil ac Arloesedd**

Mae'r Flaenoriaeth wedi perfformio'n dda ond mae wedi teimlo effaith y pandemig, yn enwedig yr effaith ar awydd busnesau i ymwneud â gweithgareddau Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd newydd. Roedd hynny'n cyfyngu ar allu busnesau i gael mynediad at yr arbenigedd a'r cyfleusterau arbenigol i ddatblygu cysyniadau Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd. Mae'r Awdurdod Rheoli wedi adolygu'r Flaenoriaeth yn gyson ac mae wedi gallu cadw ymrwymiadau ariannol yn sefydlog i raddau helaeth er y cafwyd dad-ymrwymiadau mawr ac yn fwy diweddar, nid yw'r holl grant wedi'i hawlio yn y cam hawlio terfynol. Mae'r newidiadau ariannol yn adlewyrchu'r sefyllfa bod gwarged yn y flaenoriaeth sydd angen ei symud felly nid yw Cymru yn ei golli. O ganlyniad i'r amgylchedd anodd cyffredinol mae'r pandemig wedi ei achosi i'n cymuned Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd, mae angen rhai newidiadau i ddangosyddion:

- Bwriedir cynyddu'r targed ar gyfer **'Nifer y partneriaid sy'n cydweithio mewn prosiectau ymchwil'** o 1,800 i 3,657 yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Canfu'r Adolygiad Dangosydd fod y dangosydd hwn wedi'i gynllunio yn dilyn trafodaethau gyda Gweithrediadau ar y ffordd orau i ddangos tystiolaeth o gydweithio. Cynhaliwyd y trafodaethau hyn ar ôl cymeradwyo'r Rhaglen Weithredol. Roedd y targedau yn y Rhaglen Weithredol yn sylweddol is na'r rhagolygon a gafwyd gan Weithrediadau gan fod rhesymeg gyfyngedig i bennu ffigur targed fel llinell sylfaen adeg pennu targedau'r Rhaglen Weithredol. Cynigir y newidiadau canlynol:

- Cynnig cynyddu'r targedau ar gyfer 'Nifer o gyfleusterau seilwaith ymchwil wedi'u gwella' o dan Amcan Penodol 1.1 o 6 i 11. Mae'r Rhaglen wedi ariannu mwy o gyfleusterau seilwaith ymchwil na'r bwriad gwreiddiol o ganlyniad i 2 alwad agored am arian i dargedu meysydd o Arbenigo Clyfar presennol. Gwnaed y galwadau hyn a'r penderfyniad i ariannu cyn y pandemig. Mae'r cyfleusterau wedi llwyddo i sicrhau cyllid ymchwil cystadleuol ac felly o

ganlyniad rydym yn cynnig cynyddu hefyd y targedau ar gyfer 'Swm yr arian ymchwil a sicrhawyd' o dan Amcan Penodol 1.1 o £165m i £180m.

- Cynnig lleihau'r targedau ar gyfer 'Nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol' o dan Amcan Penodol 1.2 o 2,000 i 1,676 (mae'r gostyngiad yn y targed mewn cyfrannedd â'r gostyngiad arfaethedig yng nghyfanswm y cyllid ar gyfer Blaenoriaeth Buddsoddi 1b (hyrwyddo buddsoddiad busnesau mewn arloesedd ac ymchwil) yn y tabl ariannol y mae Amcan Penodol 1.2 yn cyd-fynd â hi. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 16% yn y targed). Canfu'r Adolygiad Dangosydd fod y pandemig wedi effeithio ar awydd ymhlith llawer o fusnesau i ymgysylltu ag Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd newydd, a bod cyfnodau clo y pandemig wedi effeithio ar allu busnesau i gael gafael ar arbenigedd a chyfleusterau/offer arbenigol a oedd yn hanfodol yn y gweithgareddau o dan Amcan Penodol 1.2. Ffactor pwysig arall yn y tan-ymrwymiadau yw bod prosiectau'n dad-ymrwymo cyllid ac yn lleihau targedau yn unol â hynny oherwydd y pandemig.

- Cynnig lleihau'r targedau ar gyfer ‘Nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth’ o dan Amcan Penodol 1.2 o 1,125 i 942 (mae'r gostyngiad yn y targed mewn cyfrannedd â'r gostyngiad arfaethedig yng nghyfanswm y cyllid ar gyfer Blaenoriaeth Buddsoddi 1b (hyrwyddo buddsoddiad busnesau mewn arloesedd ac ymchwil) yn y tabl ariannol y mae Amcan Penodol 1.2 yn cyd-fynd â hi. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 16% yn y targed). Nododd yr Adolygiad o'r Dangosydd nad yw cynnydd mewn cyflogaeth yn ganolbwynt i Flaenoriaeth 1 a gall llawer o brosesau arloesol arwain at ostyngiad mewn swyddi mewn rhai achosion. Felly, rydym yn cynnig gostyngiad i adlewyrchu sut mae'r gymuned Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd yn gweithredu.

- Cynnig dileu'r dangosyddion ar gyfer 'Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro' a 'Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro’. Fel yr adroddwyd yn flaenorol i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen (Medi 2019), bydd unrhyw fusnes sy'n chwilio am gefnogaeth gan weithrediadau a ariennir trwy Flaenoriaeth 1.2 ERDF yn cael ei gyfeirio at Becyn Cymorth Diogelu at y Dyfodol Arloesedd Busnes (y Pecyn Cymorth 'Diogelu at y Dyfodol' Arloesi Clyfar gynt), a ddatblygwyd gan y gweithrediadau Arloesi Clyfar. Drwy ddefnyddio'r pecyn cymorth bydd cwmnïau'n pennu eu safle presennol (llinell sylfaen) mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth, datblygu cynaliadwy, effeithlonrwydd adnoddau a'r Gymraeg gyda chymorth dolenni i adnoddau defnyddiol ac astudiaethau achos. Bydd hyn yn eu galluogi i adnabod cyfleoedd i ddatblygu a/neu wella eu busnes yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'u gwneud yn fwy gwydn i newid yn y dyfodol. Unwaith y bydd yr asesiad llinell sylfaenol wedi'i gwblhau, cyfeirir y busnes yn awtomatig at Gynghorwyr Effeithlonrwydd Adnoddau ac Adnoddau Dynol yn Busnes Cymru sy'n eu cefnogi i wneud unrhyw welliannau neu newidiadau a nodwyd. Mae gweithrediadau Busnes Cymru yn hawlio bod yr allbynnau o'r atgyfeiriadau CCT hyn yn cyfrif tuag at eu targedau ym Mlaenoriaeth 2, lle maent yn darparu'r un dangosyddion.

**Blaenoriaeth 2 Cystadleurwydd BBaChau**

Yna cefnogir y cynigion ariannol a wneir yn y papur hwn gan y newidiadau canlynol i ddangosyddion:

- Cynnig ychwanegu dangosydd newydd ar gyfer Amcan Penodol 2.1 ac Amcan Penodol 2.5 (sy'n ymwneud â'r Offeryn Ariannol) ar gyfer 'Diogelu swyddi' i gael darlun gwell o effeithiau'r buddsoddiad cyffredinol o dan yr Amcanion Penodol hyn gan gyfeirio'n benodol at y cymorth a roddwyd i fusnesau yn ystod y pandemig. Tynnodd yr Adolygiad o Ddangosyddion sylw at y ffaith fod ffocws buddsoddiad o dan yr Amcanion Penodol hyn wedi symud, o ganlyniad, i fuddsoddi mewn busnesau a oedd yn cefnogi goroesi busnesau ac yn diogelu swyddi presennol, o leiaf yn y tymor byr oherwydd yr hinsawdd economaidd sy'n newid, yn enwedig o ganlyniad i ansicrwydd busnes ychwanegol a achoswyd gan y pandemig, a oedd yn golygu bod busnesau'n fwy amharod i gyflogi staff newydd. Y targed fydd 3,500 ar gyfer Amcan Penodol 2.1 a 975 ar gyfer Amcan Penodol 2.5 a dim ond Banc Datblygu Cymru fydd yn adrodd arno

- Cynnig cynyddu'r dangosydd Buddsoddiad mewn busnesau o £149.6m i £243.0m yn Amcan Penodol 2.1 i adlewyrchu'r cynnydd cymesur yn ariannol mewn cyllid ychwanegol (mae'r cynnydd hwn yn y targed yn seiliedig ar y cynnydd arfaethedig yng nghyfanswm y cyllid ar gyfer Blaenoriaeth Buddsoddi 3a (hybu entrepreneuriaeth) yn y tabl ariannol y mae Amcan Penodol 2.1 yn cyd-fynd â hi. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 62% yn y targed. Er bod Amcan Penodol 2.5 wedi cael gostyngiad yn y cyllid nid ydym yn cynnig lleihau'r targedau'n gyfrannol gan fod y targedau gwreiddiol wedi eu cyflawni, sy'n cynrychioli gwell gwerth am arian.

**Blaenoriaeth 3 Ynni ac Effeithlonrwydd Ynni**

Mae'r Flaenoriaeth hon yn gweithredu mewn amgylchedd heriol iawn ar y gorau gyda phroses gydsynio/drwyddedu drylwyr a hirfaith yn cael ei defnyddio yng Nghymru y mae'n rhaid i ddatblygwyr ei chwblhau cyn gallu defnyddio eu dyfeisiau technoleg yn y dyfroedd o amgylch Cymru. Mae hyn wedi profi'n anodd i ddatblygwyr ei gyflawni yn ogystal â dylunio, creu, peirianyddu, adeiladu a defnyddio eu dyfeisiau yng nghyfnod y rhaglen. Felly, mae angen newidiadau i'r dangosyddion Amcan Penodol 3.1. Hefyd, mae'n ofynnol hefyd addasu i ystyried €15m ERDF o Amcan Penodol 3.3 a wnaed yn addasiad y rhaglen yn 2021.

- Bwriedir cynyddu'r targed ar gyfer '**Cynlluniau paratoi safleoedd cefnogi ynni**' o ddau i wyth (yn ymwneud ag Amcan Penodol 3.1: Ynni'r môr). Mae nifer o ddatblygwyr wedi bwrw ymlaen â chaniatâd ar gyfer trwydded forol yn ogystal â'r ddau barth datblygu a ragwelwyd pan gafodd y rhaglen ei datblygu a'i chymeradwyo'n wreiddiol. Fel yr eglurwyd uchod mae mwy o ddatblygwyr wedi gorfod bwrw ymlaen â chynlluniau paratoi safle sy'n cynnwys y broses caniatâd trwyddedu morol yn hytrach na symud yn syth i ddefnyddio a phrofi dyfeisiau. Mae'r broses drwyddedu yn orfodaeth statudol. Mae'n cymryd amser, mae'n gostus ac mae angen ymdrech sylweddol, ond heb ganiatâd ni

all unrhyw weithgarwch defnyddio a phrofi ddigwydd yn nyfroedd Cymru. Trwy gefnogi mwy o gynlluniau paratoi safle rhagwelir y bydd hyn yn helpu i gefnogi datblygwyr yn y dyfodol pan fyddant yn dod i ddefnyddio a phrofi eu dyfeisiau. Yn ogystal, mae'r datblygwyr sy'n cael eu hariannu gan ERDF yn dod â'u harbenigedd byd-eang i Gymru ac yn cyfrannu at yr adolygiad o'r amgylchedd rheoleiddiol.

- O ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i gynlluniau paratoi safle cynigir lleihau'r targed ar gyfer '**Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd**' o wyth i chwech (sydd hefyd yn ymwneud ag Amcan Penodol 3.1: Ynni'r môr). Er y cafwyd cryn ddiddordeb gan ddatblygwyr technoleg mewn profi a defnyddio prototeipiau, mae angen blynyddoedd o waith paratoi safle cyn y gellir defnyddio a phrofi prototeipiau. Mae llawer o'r datblygwyr a gefnogir wedi bod yn paratoi opsiynau caniatâd amgylcheddol a chysylltu â grid yn hytrach na defnyddio prototeipiau. Felly, mae gwaith paratoi safle wedi cynyddu tra bod nifer y prototeipiau a brofwyd wedi gostwng. Yn ogystal, mae heriau sylweddol wedi dod i'r amlwg wrth sicrhau'r cyd-ariannu angenrheidiol i symud gweithrediadau yn eu blaen. Mae datrysiadau dyledion yn anodd eu sicrhau oherwydd nid oes ffrwd refeniw ar gyfer gweithgarwch sydd heb gyrraedd graddfa fasnachol/cyfleustodau, sy'n golygu na ellir gwasanaethu ad-daliadau benthyciadau. Mae cyllid ecwiti wedi cael ei gyfyngu oherwydd proffil risg uchel cynhenid cyfnod cynnar y technolegau. Erbyn diwedd y rhaglen, bydd buddsoddiad allweddol ERDF mewn seilwaith mewn ardal prawf llif llanw yn chwalu llawer o'r rhwystrau i'r sector drwy greu ardal gydsynio gyda chysylltiad grid.

- Cynigir lleihau'r targed ar gyfer '**Nifer yr aelwydydd sydd â gwell dosbarthiad defnydd ynni**' o 3,060 i 2,069. Gwelodd addasiad blaenorol i'r Rhaglen, y cytunwyd ar ddechrau 2021, ostyngiad o ychydig dros €15m o ERDF a oedd wedi'i ddyrannu i Amcan Penodol 3.3: Effeithlonrwydd ynni mewn tai. Symudwyd yr arian hwn i ran arall o'r rhaglen, ond ni wnaed unrhyw newidiadau i leihau'r targed dangosydd cyfatebol. Roedd y gostyngiad adeg addasiad 2021 yn cyfateb i ostyngiad o 32% yng nghyfanswm y cyllid sy'n cael ei adlewyrchu yn y gostyngiad targed diwygiedig uchod. Mae'r Amcan Penodol arbennig hwn wedi cael ei effeithio'n sylweddol gan lifogydd yn y lle cyntaf ac yna'r pandemig. (Gwnaeth Storm Dennis eiddo a oedd yn gymwys ar gyfer y cynllun ôl-osod yn anghyfannedd, a chafodd perchnogion eu symud i lety amgen am gyfnodau sylweddol). Yn sgil cyflwyno cyfnodau clo yn ymwneud â'r pandemig, mesurau cadw pellter cymdeithasol a phobl yn gweithio gartref neu'n cael eu rhoi ar ffyrlo, gwelwyd cyfraddau cyflawni yn lleihau'n arw, a chafodd y cynllun ei atal gan Lywodraeth Cymru. Pan oedd modd i'r cynllun ailddechrau penderfynodd Gweinidog yr Amgylchedd leihau maint y rhaglen ôl-osod gan nad oedd y gwaith cyflawni yn mynd i gyrraedd y nod o fewn y fframwaith cyflenwi caffaeledig. Arweiniodd hyn at £7.5m arall o ERDF ddim yn cael ei wario yn yr Amcan Sengl hwn ond ni chafodd ei golli i Flaenoriaeth 3 gan iddo gael ei ddefnyddio ar gyfer Ynni'r Môr a gweithrediadau ynni cymunedol ar raddfa fach. Mae'r rhain wedi profi'r un cynnydd mewn costau â gweithrediadau seilwaith eraill yn y rhaglen. Mae'r gostyngiad mewn cyllid yn fwy na'r gostyngiad yn y dangosydd.

- Mae angen newid technegol i'r targedau ar gyfer 'Amcangyfrif o'r lleihad mewn nwyon tŷ gwydr'. Cyfrifwyd y targed presennol mewn cilo dunelli ac rydym yn cynnig ei ddiwygio i dunelli, yn unol â'r uned fesur yn y Rhaglen Weithredol. Nid oes gostyngiad i'r targedau er gwaethaf y gostyngiad yn y cyllid ar gyfer y Flaenoriaeth, dim ond newid technegol i'r uned fesur.

**Blaenoriaeth 4 Cysylltedd a Datblygiad Trefol**

Mae'r Flaenoriaeth hon yn flaenoriaeth seilwaith, felly mae wedi wynebu, fel Blaenoriaeth 3, heriau nad oedd modd eu rhagweld yn sgil llifogydd, Brexit, y pandemig, Rhyfel Wcráin a'r cynnydd mewn costau byw yn effeithio'n uniongyrchol ar gostau'r gadwyn gyflenwi. O'r herwydd cynigir newidiadau i'r dangosydd sef:

- Cynigir bod angen gostyngiad yn y targed 'Swyddi a lenwyd' o 3,000 i 2,405 a 'Safleoedd wedi'u creu neu eu hadnewyddu' o 150,000m$^2$ i 120,232m$^2$ (o dan Amcan Penodol 4.4: Safleoedd strategol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd). Mae'r gostyngiadau hyn mewn targedau yn seiliedig ar y gostyngiad arfaethedig yng nghyfanswm y cyllid ar gyfer Blaenoriaeth Buddsoddi 8b (cefnogi twf sy'n ystyriol o gyflogaeth) yn y tabl ariannol y mae Amcan Penodol 4.4 yn cyd-fynd â hi. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 20% yn y targedau. Daeth yr Adolygiad Dangosydd i'r casgliad bod rhanddeiliaid yn disgwyl bod y ddau ddangosydd hyn mewn perygl uchel o fethu eu targedau a bod rhanddeiliaid hefyd wedi nodi y bu oedi yn dilyn achosion y pandemig, gydag effeithiau ar gadwyni cyflenwi a chyfyngiadau ar fynediad i safleoedd dros gyfnodau penodol.

**Rhaglen ERDF Dwyrain Cymru 2014-2020**

**Blaenoriaeth 1 Ymchwil ac Arloesedd**

Mae'r Flaenoriaeth hon wedi perfformio'n dda gan ystyried yr heriau fel y'u diffinnir o dan Flaenoriaeth 1, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ond mae codi arian cyfatebol hefyd wedi bod yn arbennig o anodd ochr yn ochr â chyfradd ymyrraeth o ddim ond 50%. Mae gwarged o arian yn parhau heb ei ymrwymo yn y Flaenoriaeth hon na ellir ei amsugno ac felly fel yr amlinellir yn y papur hwn cynigir addasiad ariannol. Cynigir newidiadau i ddangosyddion hefyd sef:

- Cynnig i gynyddu'r targed ar gyfer '**Nifer y partneriaid sy'n cydweithio mewn prosiectau ymchwil**' o 540 i 838. Canfu'r Adolygiad Dangosydd fod y dangosydd hwn wedi'i gynllunio yn dilyn trafodaethau gyda Gweithrediadau ar ôl cymeradwyo'r rhaglen, ar y ffordd orau o ddangos tystiolaeth o gydweithio. Roedd y targedau yn y Rhaglen Weithredol yn sylweddol is na'r rhagolygon a gafwyd gan Weithrediadau gan fod rhesymeg gyfyngedig i bennu ffigur targed fel llinell sylfaen adeg pennu targedau'r Rhaglen Weithredol.

- Cynnig cynyddu'r targedau ar gyfer 'Nifer y cyfleusterau seilwaith ymchwil wedi'u gwella' o dan Amcan Penodol 1.1 o 2 i 5. Mae'r Rhaglen wedi ariannu mwy o gyfleusterau seilwaith ymchwil na'r bwriad gwreiddiol o ganlyniad i 2

alwad agored am arian i dargedu meysydd o Arbenigo Clyfar presennol. Cafodd y penderfyniad i ariannu'r cyfleusterau hyn ei wneud cyn y pandemig. Mae'r cyfleusterau hyn wedi mynd ymlaen i sicrhau cyllid ymchwil cystadleuol ac felly o ganlyniad rydym yn cynnig cynyddu'r targedau ar gyfer 'Swm yr arian ymchwil a sicrhawyd' hefyd o dan Amcan Penodol 1.1 o £65m i £95m Cynnig lleihau'r targedau ar gyfer 'Nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth anariannol' o dan Amcan Penodol 1.1 o 650 i 550 (mae'r gostyngiad yn y targed mewn cyfrannedd â'r gostyngiad arfaethedig yng nghyfanswm y cyllid ar gyfer Blaenoriaeth Buddsoddi 1b (hyrwyddo buddsoddiad busnesau mewn arloesedd ac ymchwil) yn y tabl ariannol y mae Amcan Penodol 1.2 yn cyd-fynd â hi. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 14% yn y targed). Canfu'r Adolygiad Dangosydd fod y pandemig wedi effeithio ar awydd ymhlith llawer o fusnesau i ymgysylltu ag Ymchwil, Datblygu ac Arloesedd newydd, a bod cyfnodau clo y pandemig wedi effeithio ar allu busnesau i gael gafael ar arbenigedd a chyfleusterau/offer arbenigol a oedd yn hanfodol yn y gweithgareddau o dan Amcan Penodol 1.2. Ffactor pwysig arall yn y tan-ymrwymiadau yw bod prosiectau'n dad-ymrwymo cyllid ac yn lleihau targedau yn unol â hynny o ganlyniad i'r pandemig.

- Cynnig lleihau'r targedau ar gyfer **'**Nifer y mentrau sy'n derbyn cymorth' o dan Amcan Penodol 1.2 o 670 i 574 (mae'r gostyngiad yn y targed mewn cyfrannedd â'r gostyngiad arfaethedig yng nghyfanswm y cyllid ar gyfer Blaenoriaeth Buddsoddi 1b (hyrwyddo buddsoddiad busnesau mewn arloesedd ac ymchwil) yn y tabl ariannol y mae Amcan Penodol 1.2 yn cyd-fynd â hi. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o 14% yn y targed). Nododd yr Adolygiad o'r Dangosydd nad yw cynnydd mewn cyflogaeth yn ganolbwynt i Flaenoriaeth 1 a gall llawer o brosesau arloesol arwain at ostyngiad mewn swyddi mewn rhai achosion.

- Cynnig dileu'r dangosyddion ar gyfer 'Busnesau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a systemau monitro' a 'Busnesau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau datblygu cynaliadwy a systemau monitro'. Fel yr adroddwyd yn flaenorol i Bwyllgor Monitro'r Rhaglen (Medi 2019), bydd unrhyw fusnes sy'n chwilio am gefnogaeth gan weithrediadau a ariennir trwy Flaenoriaeth 1.2 ERDF yn cael ei gyfeirio at Becyn Cymorth Diogelu at y Dyfodol Arloesedd Busnes (y Pecyn Cymorth 'Diogelu at y Dyfodol' Arloesi Clyfar gynt), a ddatblygwyd gan y gweithrediadau Arloesi Clyfar. Drwy ddefnyddio'r pecyn cymorth bydd cwmnïau'n pennu eu safle presennol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth, datblygu cynaliadwy, effeithlonrwydd adnoddau a'r Gymraeg gyda chymorth dolenni i adnoddau defnyddiol ac astudiaethau achos. Bydd hyn yn eu galluogi i adnabod cyfleoedd i ddatblygu a/neu wella eu busnes yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'u gwneud yn fwy gwydn i newid yn y dyfodol. Unwaith y bydd yr asesiad llinell sylfaenol wedi'i gwblhau, cyfeirir y busnes yn awtomatig at Gynghorwyr Effeithlonrwydd Adnoddau ac Adnoddau Dynol yn Busnes Cymru sy'n eu cefnogi i wneud unrhyw welliannau neu newidiadau a nodwyd. Mae gweithrediadau Busnes Cymru yn hawlio bod yr allbynnau o'r atgyfeiriadau CCT hyn yn cyfrif tuag at eu targedau ym Mlaenoriaeth 2, lle maent yn darparu'r un dangosyddion.

**Blaenoriaeth 2 Cystadleurwydd BBaChau**

Mae angen y newidiadau canlynol:

- Cynnig ychwanegu dangosydd newydd ar gyfer Amcan Penodol 2.1 ac Amcan Penodol 2.5 (sy'n ymwneud â'r Offeryn Ariannol) ar gyfer 'Diogelu swyddi' i gael darlun gwell o effeithiau'r buddsoddiad cyffredinol o dan yr Amcanion Penodol hyn. Tynnodd yr Adolygiad o Ddangosyddion sylw at y ffaith fod ffocws buddsoddiad o dan yr Amcanion Penodol hyn wedi symud, o ganlyniad, i fuddsoddi mewn busnesau a oedd yn cefnogi goroesi busnesau ac yn diogelu swyddi presennol, o leiaf yn y tymor byr oherwydd yr hinsawdd economaidd sy'n newid, yn enwedig o ganlyniad i ansicrwydd busnes ychwanegol a achoswyd gan COVID-19, a oedd yn golygu bod busnesau'n fwy amharod i gyflogi staff newydd. Y targedau arfaethedig yw 55 ar gyfer Amcan Penodol 2.1 a 90 ar gyfer Amcan Penodol 2.5 a bydd Banc Datblygu Cymru yn adrodd ar y rhain.

- Cynnig cynyddu'r dangosydd Buddsoddiad mewn busnesau o £60.0m i £169.0m yn Amcan Penodol 2.1 ac o £20.0m i £63.0m yn SO2.5. Mae hyn yn seiliedig ar wybodaeth ragolygon wedi'i diweddaru ac mae'n adlewyrchu cynnydd mewn cyllid ychwanegol. Nid ydym wedi ei seilio ar gynnydd mewn cyfrannau ariannol i rannau perthnasol y Flaenoriaeth oherwydd bod y lefelau cyflawni presennol yn erbyn y dangosyddion yn fwy na'r cynnydd targed yn seiliedig ar gynnydd ariannol cymesur.

**Blaenoriaeth 3 Ynni ac Effeithlonrwydd Ynni**

Mae angen y newidiadau canlynol:

- Cynigir cael gwared ar y ddau ddangosydd: 'Cynlluniau ynni cymunedol' a **'**Nifer y prosiectau peilot wedi'u cwblhau' o Amcan Penodol 3.1: Ynni cymunedol yn Nwyrain Cymru. Profwyd diddordeb mewn cynlluniau ynni cymunedol ar raddfa fach gyda galwad am gynigion yn haf 2017 ond ychydig iawn o ddiddordeb a gafwyd, ac ni ddatblygodd y cynigion hynny yn weithrediadau. Felly, nid oes gweithrediadau cymeradwy yn cyflawni'r gweithgarwch hwn. Cafodd yr arian ar gyfer y gweithgaredd hwn ei ddileu i raddau helaeth fel rhan o addasiad blaenorol i'r rhaglen.

- Mae angen newid technegol i'r targedau ar gyfer 'Amcangyfrif o'r lleihad mewn nwyon tŷ gwydr'. Cyfrifwyd y targed presennol mewn cilo dunelli ac rydym yn cynnig ei ddiwygio i dunelli, yn unol â'r uned fesur yn y Rhaglen Weithredol. Nid oes gostyngiad i'r targedau er gwaethaf y gostyngiad yn y cyllid ar gyfer y Flaenoriaeth, dim ond newid technegol i'r uned fesur.

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROP 2014 – 2020:**
**Cymorth Technegol ar Gyfradd Safonol o 4%**

## Y Mater dan Sylw

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybod i'r aelodau am benderfyniad Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) i ddefnyddio opsiwn cyllido cost symlach[1] y Comisiwn Ewropeaidd (EC), sef cyfradd safonol o 4% ar gyfer ad-dalu blaenoriaethau Cymorth Technegol (TA) ar gyfer Rhaglenni rhanbarthol o dan

[1] Mae costau symlach yn ffordd amgen o gyfrifo ac adrodd ar gostau cymwys. Maent yn defnyddio costau a amcangyfrifir, y cytunir arnynt ac y'u gosodir ymlaen llaw, yn hytrach na chostau sy'n cael eu hysgwyddo a'u talu mewn gwirionedd.

Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF).

**Argymhelliad**

2. Gwahoddir yr aelodau i nodi cynnwys y papur ac i gyflwyno sylwadau/ cwestiynau.

**Y Cefndir**

3. Mae rheoliad dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2019/1867 yn darparu opsiwn i'r Awdurdodau Rheoli gymhwyso cyfradd safonol o 4% o'r gwariant arall ar raglenni i gyfrifo'r gwariant ar Gymorth Technegol[2]. Ceir mabwysiadu'r gyfradd safonol heb benderfyniad gan y Comisiwn Ewropeaidd (EC) ac mae'n cael ei gymhwyso i bob cais am dâl i'r EC, o ddyddiad penderfyniad yr Awdurdod Rheoli tan i'r rhaglen gau.

4. Wrth gymeradwyo'r rhaglen, cytunodd WEFO ar ddyraniad cyllid o 2% ar gyfer Cymorth Technegol, ac ar hawliadau gwariant a fyddai'n seiliedig ar gostau gwirioneddol. Yn y dyfodol, **bydd y dyraniad cyllid hwn yn parhau'n oddeutu 2%** ar gyfer rhaglenni ERDF ac ESF; mae'r papur ar wahân ar addasu'r ERDF yn manylu ar y bwriad i drosglwyddo £5 miliwn i gyllideb cymorth technegol Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ond nid yw hynny'n newid y ganran mewn unrhyw ffordd arwyddocaol. Fodd bynnag, mae WEFO wedi dod i'r casgliad y byddai'n fuddiol bellach i'r rhaglenni fabwysiadu opsiwn y gyfradd safonol ar gyfer hawlio gwariant (gweler Paragraff 7 ar gyfer y manteision).

5. Mae'r opsiwn i ddefnyddio'r gyfradd safonol wedi bod ar gael ers mis Tachwedd 2019 ond roedd canllawiau diwygiedig am gostau symlach a ddarparwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd yn 2021 yn rhoi rhagor o fanylion am sut i'w rhoi ar waith yn ymarferol. Heblaw hynny, mae gwybodaeth ychwanegol oddi wrth Awdurdodau Rheoli eraill yn y DU sydd eisoes wedi mabwysiadu'r gyfradd safonol o 4%, wedi tynnu sylw at y manteision posibl o'i defnyddio.

6. Ni fydd mabwysiadu'r gyfradd safonol yn golygu y bydd llai o gyllid ar gael ar gyfer gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, a hynny oherwydd y bydd y ffordd hon o ad-dalu yn dod i ben unwaith y bydd dyraniad cyffredinol y rhaglen wedi cael ei dynnu i lawr yn llawn.

**Manteision y gyfradd safonol o 4%**

7. Dyma rai o fanteision allweddol defnyddio'r gyfradd safonol:

---

[2] Darperir cyllid cymorth technegol ar gyfer camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau a'r tasgau sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu rhaglenni'r cronfeydd strwythurol sy'n cael eu cyflawni gan yr awdurdod rheoli/yr awdurdod ardystio/ yr awdurdod archwilio a chyrff cyfryngol.

- Mae'r gyfradd safonol yn gost symlach; bydd, felly, yn lleihau cryn dipyn ar y baich gweinyddol a’r baich archwilio/arolygu h.y., o’i defnyddio, ni fydd archwiliadau yn mynd ati bellach i wirio gwariant a ysgwyddwyd/a dalwyd.
- Bydd lleihau'r baich gweinyddol / archwilio yn rhyddhau adnodd yr Awdurdodau Rheoli er mwyn iddynt fedru canolbwyntio ar gau'r rhaglenni.
- Mae ganddi'r potensial i leihau'r risg o gamgymeriadau cydymffurfio a chywiriadau ariannol.
- Bydd yn helpu i sicrhau bod cyllidebau Cymorth Technegol yn cael eu defnyddio i'r eithaf ac yn atgyfnerthu gallu WEFO i gau'r rhaglenni mewn ffordd effeithlon sy’n cydymffurfio â’r rheolau.
- Mae'n gyfradd safonol a sefydlwyd mewn rheoliadau gan y Comisiwn, felly mae'r risg sy’n gysylltiedig â’i defnyddio yn isel iawn.
- Ni fydd unrhyw effaith ychwanegol ar fuddiolwyr allanol sy’n cael cyllid Cymorth Technegol. Bydd costau'n parhau i gael eu hawlio yn y ffordd arferol.

**Y camau nesaf**

8. Bydd aelodau'n parhau i gael gwybod am newidiadau i’r ffordd y gweithredir rhaglenni’r Cronfeydd Strwythurol.

**Arweinydd WEFO: Catherine Ashcroft**
**Cymeradwywyd gan: Sue Price/ Geraint Green**
**Dyddiad: 19 Rhagfyr 2022**

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU,**
**CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROPEAIDD 2014 – 2020:**

## Cynllun Cyfathrebu Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2022 - 2023

## Mater

8. Mae'r papur yn nodi Cynllun Cyfathrebu 2022 a 2023 ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol ERDF ac ESF 2014-2020. Mae’n rhoi’r diweddaraf am weithgareddau cyfathrebu, yn nodi’r prif flaenoriaethau a mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd ar gyfer y cyfnod hwn, a sut cânt eu cyflawni.

9. Oni nodir yn wahanol, mae’r diweddariadau yn y papur hwn yn cwmpasu’r cyfnod rhwng mis Hydref 2021 a mis Tachwedd 2022.

## Argymhelliad

10. Nodi a chytuno ar Gynllun Cyfathrebu 2022 a 2023.

## Cefndir

11. Mae’r Cynllun Cyfathrebu wedi’i baratoi gan Awdurdod Rheoli’r rhaglenni, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Mae wedi’i hysbysu gan y Cynllun Cyfathrebu trosfwaol ar gyfer 2014–2020, ac yn ei ategu, a chytunwyd arno gan Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru ym mis Mehefin 2015.

## Cyd-destun

12. Gadawodd y DU yr UE yn ffurfiol ddechrau 2021 ar ôl cyfnod pontio gyda ‘chytundeb’ ac rydym bellach yn cyrraedd camau olaf y rhaglen, fodd bynnag mae cyfathrebu buddiannau a chyflawniadau cronfeydd yr UE yng Nghymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i’n gweithgareddau cyfathrebu.

13. Gan weithio gyda'n noddwyr a'n rhanddeiliaid, rydym yn parhau i ddefnyddio nifer o sianeli cyfathrebu i roi cyhoeddusrwydd i gynnydd, cyflawniadau ac effaith: hysbysiadau yn y wasg / cyfryngau, ar y cyfryngau cymdeithasol fel Twitter, yr e-newyddlen, a mesurau gwefan, sy'n parhau i ddenu dilynwyr a chyrhaeddiad cynyddol ymhlith rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

14. Rydym hefyd yn parhau i fabwysiadu dull mwy syml o ran cyhoeddi prosiectau a ariennir gan yr UE drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gan annog arweinwyr prosiectau i ddatblygu datganiadau i'r wasg lle gallwn drefnu dyfyniad gan Weinidog.

15. Bu cynnydd cyson yn y gwahoddiadau i Weinidogion fynychu digwyddiadau hybrid (gyda mynychwyr ar-lein ac wyneb yn wyneb), sydd wedi caniatáu mwy o hyblygrwydd teithio i Weinidogion, fel y gallant barhau i draddodi prif areithiau mewn digwyddiad ar-lein neu drwy glipiau fideo wedi’u recordio ymlaen llaw, yn ogystal â gwneud trefniadau eraill, fel teithiau ar-lein o amgylch cyfleusterau.

16. Mae gweinidogion hefyd wedi dechrau teithio ac ymweld â phrosiectau ac rydym wedi ceisio trefnu ffyrdd o ychwanegu gwerth at ymweliadau neu ddigwyddiadau gyda'r Swyddfa Breifat, drwy amserlen o ymweliadau â nifer o weithrediadau yn yr ardal.

17. Ers y diweddariad cyfathrebu blynyddol diwethaf i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni ym mis Rhagfyr 2021, rydym wedi sicrhau cyfartaledd o 98% o sylw cadarnhaol i gronfeydd yr UE yn y wasg / cyfryngau. Yn ogystal, mae nifer y tanysgrifwyr i'n e-newyddlen wedi cynyddu ychydig dros 6% o 13,038 i 13,855, tra bod nifer y dilynwyr Twitter hefyd wedi cynyddu o 4,732 i 4,895.

<u>Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UK SPF)</u>

18. Er gwaethaf lobïo gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â Llywodraethau Datganoledig eraill, cadarnhaodd Llywodraeth y DU fod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn cael ei sianelu drwy awdurdodau lleol i gefnogi cynlluniau buddsoddi rhanbarthol. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu hwn, mae'r cyfnod o ansicrwydd yn parhau, mae newidiadau cabinet yn San Steffan wedi achosi llawer o oedi ac er bod llywodraeth leol wedi cyflwyno eu pedwar cynllun buddsoddi rhanbarthol ar gyfer y flwyddyn gyntaf erbyn y dyddiad cau o 1 Awst, nid yw Llywodraeth y DU wedi cadarnhau cymeradwyaeth eto, ac nid yw wedi gwneud unrhyw gyhoeddiad, er mai dim ond pedwar mis sydd ar ôl yn y flwyddyn ariannol hon.

19. Gyda'r oedi hwn a phenodi Gweinidog Ffyniant Bro newydd, mae rhywfaint o optimistiaeth o'r newydd y gallai Llywodraeth Cymru barhau i ddylanwadu ar yr achos dros fewnbwn cydweithredol â Llywodraeth y DU, i gynllunio a threfnu olynydd yng Nghymru ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Felly, rydym yn dal i weithio gyda thîm buddsoddi rhanbarthol y dyfodol, drwy barhau i roi cyhoeddusrwydd i'n cyflawniadau o ran cronfeydd yr UE a'r buddiannau i'n busnesau, cymunedau a phobl, i'w cefnogi i ddylanwadu ar yr achos hwn.

20. <u>Digwyddiad Gwybodaeth Blynyddol WEFO 2022</u>
Fe wnaethom benderfynu defnyddio dull tebyg i'r llynedd a chynhaliwyd ymgyrch wythnos o hyd ar-lein trwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, gydag amrywiaeth o gynnwys, fel animeiddio, dolenni i glipiau fideo, astudiaethau achos, cyflawniadau carreg filltir allweddol ac ystadegau. Roedd hyn yn cynnwys y trosolwg strategol lefel uchel o'r rhaglenni a gyflwynir fel arfer mewn digwyddiad gwybodaeth blynyddol, yn ogystal â chynnwys yn canolbwyntio ar ddiwrnodau â thema gan gynnwys: Costau Byw / Trechu Tlodi, yr Amgylchedd / Newid Hinsawdd, Cymorth i Fusnes (gan gynnwys hyfforddiant sgiliau a seilwaith) ac Arloesedd.

21. <u>Digwyddiad Gwybodaeth Blynyddol WEFO 2023</u>
Am y tair blynedd diwethaf, mae'r digwyddiad Gwybodaeth Blynyddol wedi'i gyflwyno'n rhithwir trwy Ddogfen Gwaddol a phythefnos o weithgareddau cyfryngau cymdeithasol, roedd hyn yn unol â chyfyngiadau COVID 19 yng Nghymru ond hefyd yn ystyried symud ffocws y gynulleidfa i gyllid ar ôl yr UE a'r dyfodol.

O ystyried y bydd rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2023 ac y byddai hyn yn nodi diwedd dros 20 mlynedd o gyllid yr UE yng

Nghymru, rydym yn bwriadu cynnal Digwyddiad Blynyddol mwy traddodiadol (gyda'r posibilrwydd o fod yn hybrid) ganol Hydref yn Stadiwm Principality Caerdydd. Bydd y digwyddiad yn gyfle i ddathlu llwyddiannau'r rhaglen gyfredol ond hefyd yn adlewyrchu effaith cyllid yr UE dros yr 20 mlynedd diwethaf. Rydym hefyd yn bwriadu ehangu cwmpas y digwyddiad i gynnwys eitemau'r dyfodol, sy'n canolbwyntio ar sut mae gwaddol ymyriadau a ariennir gan yr UE yn cael eu datblygu - i annog presenoldeb ehangach ac ychwanegu gwerth pellach i'r mynychwyr.

### Blaenoriaethau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd 2022 a 2023

22. Bydd y blaenoriaethau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd allweddol i hyrwyddo rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol fel a ganlyn:

- hyrwyddo darpariaeth a buddiannau cronfeydd yr UE yng Nghymru, gyda chonsensws cryfach ynghylch pwysigrwydd cronfeydd yr UE i ffyniant Cymru, yn enwedig o ran adferiad ar ôl COVID 19, symleiddio negeseuon, a sicrhau bod deunyddiau darllen yn cael sgôr 'Cymraeg clir' a 'Plain English';
- sicrhau bod noddwyr prosiectau cyflawni, partneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol, yn parhau i ddeall a chydymffurfio â gofynion rheoleiddio wrth roi cyhoeddusrwydd i'r rhaglenni, fel nad yw cronfeydd yr UE yn cael eu rhoi mewn perygl;
- sicrhau bod buddiolwyr presennol a darpar fuddiolwyr yn cael eu hysbysu am unrhyw drefniadau COVID 19 neu unrhyw effaith cyfyngiadau COVID 19 ar brosiectau a chyflawni;
- parhau i nodi pwysigrwydd Diwrnod Ewrop (9 Mai) gan weithio gyda noddwyr prosiectau i hyrwyddo buddiannau prosiectau a rhaglenni'r UE;
- parhau i godi proffil themâu trawsbynciol a'r gwerth ehangach a gynhyrchir gan brosiectau yn y meysydd hyn, gan wneud y mwyaf o gyfleoedd allweddol megis Diwrnod Rhyngwladol Dileu Gwahaniaethu ar sail Hil;
- datblygu cyhoeddusrwydd i greu ymwybyddiaeth a diddordeb mewn unrhyw alwadau newydd am arian, i gefnogi'r gwaith o gyflawni rhaglenni Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop yng Nghymru;
- datblygu a chynllunio Digwyddiad Gwybodaeth Blynyddol hybrid yn 2023, gan ehangu'r cwmpas i ganiatáu ar gyfer dathlu'r 20 mlynedd diwethaf o gyllid olynol gan yr UE, ond hefyd i gysylltu cyflawniadau a gwaddol y rhaglenni â chyfleoedd ariannu yn y dyfodol.
- creu cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus i Weinidogion Cymru barhau i dynnu sylw at effaith barhaus prosiectau a ariennir gan yr UE;
- gwneud y mwyaf o botensial technolegau digidol / y cyfryngau cymdeithasol newydd, lle bo'n briodol;
- parhau i integreiddio cyfleoedd a llwyddiannau gyda rhaglenni ariannu eraill yr UE, megis rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd a datblygu gwledig, a'r rhai a reolir yn uniongyrchol gan y Comisiwn Ewropeaidd, fel Horizon Ewrop, a
- gwerthuso effeithiolrwydd gweithgareddau cyhoeddusrwydd a chynnwys allweddol i lywio cyfathrebiadau yn y dyfodol.

### Mesurau

23. Mae sut y gellir bwrw ymlaen â'r blaenoriaethau hyn yn 2022/2023 wedi'u pennu yn y prif fesurau cyhoeddusrwydd yn **Atodiad A**. Mae hyn yn cynnwys trefniadau cyflawni ac amserlen weithredu.

## Gweithgareddau gwybodaeth mawr 2022 / 2023

24. Rydym bellach yng nghyfnod olaf rhaglenni 2014-2020, gydag ymrwymiad o dros 100% o gronfeydd yr UE wedi'u cynllunio, a phrosiectau a gymeradwywyd yn cyflawni buddiannau a cherrig milltir sylweddol. Felly, er y bydd cyhoeddusrwydd ynghylch y cyhoeddiadau ariannu sy'n weddill yn parhau, mae mwy o gyfleoedd i arddangos effaith bywyd go iawn y prosiectau hyn ar bobl, cymunedau, busnesau, o ran adferiad economaidd ar ôl COVID yng Nghymru.

25. Bydd mesurau i hyrwyddo gweithgareddau prosiect yn parhau i gysylltu â gweithgareddau i hyrwyddo cyflawniadau'r rhaglenni yn gyffredinol.

26. Bydd WEFO yn parhau i weithio gyda RETs / 3-SET i helpu i gyflawni strategaeth gyfathrebu 2014-2020 a chynlluniau blynyddol yn effeithiol, wrth iddynt barhau i chwarae rhan bwysig wrth helpu i hyrwyddo rhaglenni a phrosiectau yn rhanbarthol ac yn lleol.

27. O ystyried y ffocws newidiol ar gyfleoedd ariannu yn y dyfodol yng Nghymru, byddwn yn gweithio gyda'r tîm buddsoddi rhanbarthol ac ar draws timau cyfathrebu Llywodraeth Cymru ar negeseuon allweddol a gofynion cyfathrebu yn y dyfodol.

## Cynnydd hyd yn hyn – Hydref 2021 – Tachwedd 2022

28. Mae'r canlynol yn gipolwg ar y gweithgareddau cyfathrebu hyd yn hyn:

- Sylw sylweddol yn y cyfryngau, ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol i gyhoeddiadau prosiectau cyllid yr UE gan gynnwys:
  - £2m yn ychwanegol o ERDF ar gyfer Uwchgyfrifiadura Cymru i ymestyn eu prosiect tan fis Rhagfyr 2022.
  - ERDF £31m ar gyfer prosiect Seilwaith Morlais, dan arweiniad Menter Môn Morlais Cyf, sy'n ceisio datblygu ymhellach ar dechnolegau cynhyrchu ynni'r llanw drwy ddarparu cysylltedd grid.
  - ERDF £4.7m ar gyfer y Prosiect Ymchwil i Nodweddion Morol (MCRP) - (Cynllun Monitro a Lliniaru Amgylcheddol (EMMP) yn flaenorol), dan arweiniad Menter Môn, a fydd yn caniatáu gosod dyfeisiau ynni Ffrwd Llanw yn nyfroedd Cymru.
  - ERDF £3.1m ar gyfer prosiectau Cam 2 a Cham 3 Penrhos, dan arweiniad Cyngor Ynys Môn, ar gyfer adeiladu 13 o unedau busnes pellach ar Stad Ddiwydiannol Penrhos yng Nghaergybi, yn dilyn datblygiad cychwynnol o 10 uned ar y safle a ariannwyd gan yr UE yn 2020.

  Mae manylion sylw'r cyfryngau/y wasg am y rhain a phrosiectau eraill wedi'u cynnwys yn ein bwletinau monitro, sy'n cael eu hanfon dros e-bost bob mis.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cysylltiadau cyhoeddus a gynhyrchwyd gan WEFO wedi sicrhau 98% o sylw cadarnhaol yn y cyfryngau.

- Crëwyd cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus i Weinidogion nodi cyflawniadau a cherrig milltir prosiectau, er enghraifft:
  - Lansiodd Gweinidog yr Economi haen olaf y Rhaglen Graddedigion Data/Deallusrwydd Artiffisial Llwybr Carlam ym mis Ionawr
  - Agorodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Ganolfan Treftadaeth Feddygol Tredegar yn swyddogol (a ariennir yn rhannol drwy'r rhaglen Adeiladu ar gyfer y Dyfodol) fel rhan o Ŵyl Aneurin Bevan ym mis Gorffennaf
  - Mynychodd Gweinidog yr Economi Weithdy Technocamps yn Ysgol Gynradd Gatholig St Cuthbert yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf
  - Bu Gweinidog yr Economi hefyd yn bresennol mewn Symposiwm Uwchgyfrifiadura Cymru ar y thema 'Uwchgyfrifiadura Cymru yn erbyn yr heriau mawr' i draddodi'r anerchiad agoriadol a chyhoeddi cyllid ychwanegol i ymestyn y prosiect ym mis Gorffennaf
  - Aeth y Prif Weinidog i M-Sparc a Chanolfan Ragoriaeth Prosesu Signalau Digidol (DSP) fel rhan o'i daith yng ngogledd Cymru ym mis Gorffennaf
  - Ymwelodd Gweinidog yr Economi â safleoedd Cam 2 a 3 Ehangu Stad Ddiwydiannol Penrhos, safle Cam 2 Porth Llangefni a chyfarfod Menter Môn, sy'n arwain ar Brosiect Seilwaith Morlais fel rhan o'i deithlen ar gyfer Gogledd Cymru ym mis Awst
- Ymgyrch cyfryngau cymdeithasol lwyddiannus ym mis Hydref yn lle Digwyddiad Gwybodaeth Blynyddol a lansiwyd gan y Gweinidog (drwy glip fideo), yn tynnu sylw at berfformiad rhaglenni cyfredol a sut maent yn creu buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy i bobl, busnesau a chymunedau Cymru. Roedd yr ymgyrch wythnos o hyd yn cynnwys 44 o weithrediadau ar draws pob sector (cyhoeddus, preifat a'r Trydydd Sector) gyda diwrnodau thema: Trechu Tlodi / Costau Byw, yr Amgylchedd / Newid yn yr Hinsawdd, Cymorth i Fusnesau (gan gynnwys hyfforddiant sgiliau a seilwaith newydd neu wedi'i ail-bwrpasu) ac Ymchwil / Arloesi. Roedd yn cynnwys animeiddio, dolenni i glipiau fideo, astudiaethau achos, cyhoeddiadau, ystadegau allweddol a chafodd dros 26,850 o argraffiadau (h.y. y nifer o weithiau y gwelodd pobl drydariad ar Twitter).

- Gwnaethom barhau â ffocws ar themâu trawsbynciol (CCTs) yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gysylltu gweithgareddau CCT o brosiectau Cymru ar gyfer digwyddiadau megis Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd, Diwrnod Rhyngwladol Ieithoedd Arwyddion, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, Diwrnod Bioamrywiaeth y Byd, Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn, Diwrnod Rhyngwladol Dileu Gwahaniaethu ar sail Hil, Diwrnod y Ddaear a Diwrnod Menopos y Byd. Mae'r trydariadau hyn yn parhau i berfformio'n dda ar ein tudalen Trydar.

- Rhwng Hydref 2021 a Tachwedd 2022, postiwyd tua 539 o drydariadau ac enillodd ein sianeli Twitter @wefocymru / @wefowales 4,895 o ddilynwyr. Rydym wedi cael 19,753 o argraffiadau'r mis ar gyfartaledd (h.y. y nifer o

weithiau y gwelodd pobl drydariad ar Twitter) sy'n cyfateb i ychydig dros 638 o argraffiadau'r dydd;

- Mae ein newyddlen cronfeydd yr UE wedi llwyddo i ddenu 13,855 o danysgrifwyr – cynnydd o ychydig dros 6.2% yn y flwyddyn ddiwethaf;

- Mae cyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus ar y rhaglenni a phrosiectau ariannu rhanbarthol hefyd yn cael eu cydgysylltu â rhaglenni ariannu eraill yr UE megis Horizon Ewrop; yma, mae straeon llwyddiant yn cael eu cyfleu trwy e-newyddlen reolaidd Horizon Ewrop a Twitter.

**Penderfyniad**

29. Cymeradwyo Cynllun Cyfathrebu Blynyddol 2022 / 2023.

**Camau nesaf**

30. Y gangen Cyfathrebu i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun Cyfathrebu a rhoi diweddariad ar gynnydd i'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni yn hydref 2023.

**WEFO**
**Arweinydd: Jo Binding, Cangen Cyfathrebu a Briffio WEFO**
**Cymeradwywyd gan: Sue Price, Pennaeth Rheoli Rhaglen (ERDF)**
**Dyddiad: 5 Rhagfyr 2022**

**Atodiad A**

## Prif Fesurau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd ar gyfer 2021 / 2022

| Mesur | Gwybodaeth Ychwanegol | Cyfrifoldeb Arweiniol | Amserlen ar gyfer Gweithredu |
|---|---|---|---|
| **Blaenoriaeth 1: Rhoi cyhoeddusrwydd i effaith a buddiannau rhaglenni ariannu yr UE sy'n buddsoddi mewn twf a swyddi cynaliadwy, gan gynnwys drwy gymeradwyaeth, lansiadau a chyflawniadau prosiectau, Diwrnod Ewrop, ac integreiddio'r Themâu Trawsbynciol** | **Grŵp targed – y cyfryngau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn bennaf, partneriaid cyflawni a strategol, y Comisiwn Ewropeaidd a'r cyhoedd** | **Tîm Cyfathrebu WEFO** | **Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn** |
| 1.1 Rhannu straeon newyddion da â'r cyfryngau am gynnydd prosiectau a cherrig milltir rhaglenni ar gyfer sylw mewn print ac ar-lein, gan sicrhau dros 90% o sylw cadarnhaol yn y cyfryngau. | Mesurau cyhoeddusrwydd penodol i gynnwys:<br><br>- cyhoeddi datganiadau i'r wasg, erthyglau golygyddol am gymeradwyaethau a cherrig milltir prosiectau, a chynnydd cyffredinol rhaglenni i bapurau newydd, sianeli newyddion ar-lein a gwefan Llywodraeth Cymru<br><br>– darparu dyfyniadau Gweinidogol yn cynnwys negeseuon strategol allweddol ar gyfer datganiadau i'r wasg a ddatblygwyd gan noddwyr prosiectau/partneriaid | Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â swyddfa'r wasg, noddwyr prosiectau, RETs / 3-SET ac ati | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn |
| 1.2 Dylanwadu'n gadarnhaol ar y ffordd y caiff straeon yn ymwneud â chronfeydd yr UE a phrosiectau a ariennir gan yr UE eu hadrodd yn y cyfryngau | Mesurau penodol i gynnwys:<br><br>– darparu ymatebion cynhwysfawr ac amserol i ymholiadau gan y cyfryngau gan gynnwys cyd-destun cefndirol, ffeithiau allweddol, ystadegau, a dyfyniadau gan Lywodraeth Cymru | Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â noddwyr prosiectau a swyddfa'r wasg | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn |
| 1.3 Defnyddio technoleg newydd a sianeli digidol fel adnoddau cyfathrebu allweddol, gan gynnwys cynhyrchu lluniau digidol i hyrwyddo negeseuon allweddol, effaith rhaglenni, ac astudiaethau achos a cherrig milltir prosiectau | I'w cyhoeddi ar YouTube, Twitter a'u defnyddio mewn digwyddiadau. Yn arbennig, paratoi a rhannu clipiau fideo o brosiectau, cyfranogwyr a datblygu graffigau o ffeithiau diddorol er mwyn sicrhau bod y cyhoeddusrwydd yn cael cymaint o effaith â phosibl | Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â noddwyr prosiectau, RETs / 3-SET ac ati | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn |

| Mesur | Gwybodaeth Ychwanegol | Cyfrifoldeb Arweiniol | Amserlen ar gyfer Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 1.4 Trefnu ymweliadau Gweinidogol â phrosiectau ledled Cymru – i nodi cyhoeddiadau cyllido, lansiadau a cherrig milltir cyflawni. | Mesurau cyhoeddusrwydd penodol i gynnwys:<br><br>- trefnu cyhoeddusrwydd ynglŷn ag effaith a buddiannau prosiectau (gan ganolbwyntio ar astudiaethau achos â diddordeb dynol), yn ogystal â chynnydd ehangach y rhaglenni drwy anfon datganiadau i'r wasg, trydariadau, tudalennau gwe cronfeydd yr UE, e-newyddlen ac ati. Cyhoeddi trydariadau a lluniau byw yn ystod ymweliadau a digwyddiadau er mwyn ymgysylltu ymhellach â chynulleidfa eang<br><br>- parhau i drefnu cyfranogiad Gweinidogol mewn digwyddiadau ar-lein a chydlynu cyhoeddusrwydd o’r digwyddiadau hyn fel y nodir uchod. | Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â swyddfa'r wasg Llywodraeth Cymru, noddwyr prosiectau, RETs / 3-SET ac ati | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn |
| 1.5 Drafftio e-newyddlen a'i dosbarthu i dros 6,000 o danysgrifwyr gan gynnwys rhanddeiliaid, noddwyr prosiectau a'r cyhoedd. | – Amlygu datblygiadau a chyflawniadau diweddaraf rhaglenni a phrosiectau, digwyddiadau sydd i ddod, a gwybodaeth a chanllawiau ar gyflawni rhaglenni 2014–2020 gan gynnwys unrhyw alwadau am gyllid ar gyfer blaenoriaethau penodol y rhaglen<br><br>– Integreiddio datblygiadau â rhaglenni cyllid eraill yr UE, gan gynnwys Horizon 2020 a rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd | Tîm Cyfathrebu WEFO | Bob mis |
| 1.6 Mynd ati i achub ar gyfleoedd i ddangos effaith gadarnhaol cronfeydd yr UE/polisi rhanbarthol yng Nghymru | Paratoi astudiaethau achos / straeon llwyddiant sy'n tanlinellu cyflawniadau prosiectau a chyfranogwyr gan ddefnyddio amrywiaeth o sianeli, gan gynnwys rhai noddwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn rhannu negeseuon allweddol yn eang e.e. Tasglu'r Cymoedd, Dinas-ranbarthau ac ati | Tîm Cyfathrebu WEFO | Parhaus |
| 1.7 Hyrwyddo Diwrnod Ewrop (9 Mai) yn unol ag Erthygl 7 y Rheoliadau Ewropeaidd | Mesurau cyhoeddusrwydd penodol i gynnwys:<br>– Gweithio mewn cydweithrediad â noddwyr prosiectau a rhanddeiliaid i hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ynghylch effaith cronfeydd yr UE a phrosiectau yng Nghymru | Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â noddwyr prosiectau a rhanddeiliaid, gan gynnwys RETs a 3-SET | 9 Mai |

| Mesur | Gwybodaeth Ychwanegol | Cyfrifoldeb Arweiniol | Amserlen ar gyfer Gweithredu |
|---|---|---|---|
| | – cyhoeddi cylchlythyr cronfeydd yr UE arbennig ar gyfer Diwrnod Ewrop yn ystod wythnos Diwrnod Ewrop | | |
| 1.8 Cymryd rhan mewn ymgyrchoedd a mentrau wedi'u harwain gan yr UE fel yr UE yn fy Rhanbarth, EYCH, RegioStars a gweithgareddau cyfathrebu eraill yr UE er mwyn dangos llwyddiant yng Nghymru wrth gyflawni rhaglenni'r UE ar blatfform yr UE. | – cadw mewn cysylltiad agos â'r Comisiwn Ewropeaidd a chynrychiolwyr cyfathrebu'r DU.<br><br>- Sicrhau'r cyhoeddusrwydd mwyaf ar lefel Cymru i gyflawniadau yn deillio o gyfranogi megis rhoi cyhoeddusrwydd i gyflawniadau Cymru o ran EYCH a RegioStars drwy hysbysiadau yn y wasg, Twitter ac ati. | Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â swyddfeydd y CE ym Mrwsel, Caerdydd a Llundain | Parhaus |
| 1.9 Parhau i ddatblygu eitemau<br>hyrwyddo i'w defnyddio mewn digwyddiadau a sianeli cyhoeddusrwydd eraill | – Datblygu dull brandio newydd ar gyfer stondinau dros dro ac ati, cynrychioli ardaloedd rhanbarthol a meysydd thematig<br><br>– Parhau i ddatblygu eitemau hyrwyddo fel y bo'n briodol. | Tîm Cyfathrebu WEFO | Parhaus |
| 2.0 Adeiladu ar lyfrgell ffotograffau, astudiaethau achos a lluniau digidol o brosiectau a buddiolwyr i'w defnyddio mewn cyhoeddusrwydd ac ati | Adeiladu ar lyfrgell ffotograffau ac astudiaethau achos i'w defnyddio mewn datganiadau i'r wasg, cyhoeddiadau, hysbysiadau, digwyddiadau, cyflwyniadau ac ar y cyfryngau cymdeithasol. | Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â noddwyr prosiectau a rhanddeiliaid | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn |
| **Blaenoriaeth 2: Parhau i sicrhau bod noddwyr prosiectau, partneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys y Timau Ymgysylltu Rhanbarthol, yn deall gofynion rheoleiddiol o ran hyrwyddo rhaglenni ERDF ac ESF a'u bod yn cydymffurfio â nhw** | **<u>Grŵp targed</u> – noddwyr prosiectau a buddiolwyr, RETs / 3-SET.**<br><br>**Y prif gamau gweithredu yw'r Canllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd (yn ymgorffori gofynion rheoleiddiol yr UE) ar gyfer noddwyr prosiectau (cyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru), cynnal seminarau ar y gofynion rheoleiddiol ar gyfer staff WEFO, RETs / 3-SET a noddwyr prosiectau er mwyn sefydlu sianeli cyfathrebu priodol rhwng WEFO a'r RETs / 3-SET.** | **WEFO, ar y cyd â'r RETs / 3-SET** | **Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn** |
| 2.1 Adolygu arferion gorau o ran Canllawiau Gwybodaeth a Chyhoeddusrwydd (yn | – sicrhau bod mesurau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd wedi'u hintegreiddio'n llawn yn y | WEFO, ar y cyd â noddwyr | Cyhoeddi canllawiau ar dudalennau gwe |

| Mesur | Gwybodaeth Ychwanegol | Cyfrifoldeb Arweiniol | Amserlen ar gyfer Gweithredu |
|---|---|---|---|
| ymgorffori gofynion rheoleiddiol yr UE) ar gyfer noddwyr prosiectau a buddiolwyr a'u rhoi ar waith | broses cyflawni prosiect a'u bod yn cael eu monitro gan WEFO er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth;<br>– ymateb yn brydlon ac yn effeithiol i ymholiadau cyfathrebu gan staff WEFO a noddwyr. | prosiectau a'r RETs / 3-SET | Llywodraeth Cymru ac ymgymryd ag adolygiad parhaus i gwmpasu arferion gorau |
| 2.2 Adolygu cyfleoedd ar gyfer seminarau gloywi ar ganllawiau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd a'r gofynion ar gyfer noddwyr, a rhannu arferion gorau | Seminarau gloywi i gwmpasu gofynion rheoleiddiol yr UE a gofynion cytundebol yr Awdurdod Rheoli, blaenoriaethau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, arferion gorau, a blaengynllunio a monitro ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol; wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion RETs, 3-SET, staff WEFO a noddwyr prosiectau. | WEFO | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn |
| 2.3 Cymryd rhan mewn adolygiadau prosiect rheolaidd gyda noddwyr, a chwrdd â swyddogion cyfathrebu prosiectau lle y bo'n briodol | – Sicrhau yr eir i'r afael â gweithgareddau cyfathrebu prosiectau, arferion gorau a chyfleoedd cysylltiadau cyhoeddus yn ystod cyfarfodydd adolygu prosiectau<br><br>– Adolygu a darparu cyfraniadau golygyddol ar gyfer newyddlenni rhanbarthol RETs, lle bo'n briodol<br><br>– Cymryd rhan yng nghyfarfodydd WEFO gyda RETs er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau cyfathrebu ac arferion gorau | Tîm Cyfathrebu WEFO ar y cyd â'r Is-adran Rheoli Rhaglenni, RETs, 3-SET a noddwyr prosiectau | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn |
| 2.4 Dosbarthu placiau a phosteri coffaol am ddim i bob noddwr sydd wedi cael cyllid wedi'i gymeradwyo o dan raglenni 2014–2020 (yn unol ag Erthygl 8 y Rheoliadau Ewropeaidd) | – Placiau a phosteri coffaol am ddim, yn arddangos logo'r cronfeydd UE perthnasol, i'w dosbarthu i bob noddwr prosiect waeth beth fo gwerth y grant.<br><br>– Dylunio, drafftio testun, a dosbarthu posteri A3 i brosiectau eu harddangos | Tîm Cyfathrebu WEFO | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn |
| **Blaenoriaeth 3: Trefnu digwyddiad blynyddol i hyrwyddo cyflawniadau'r rhaglenni** | **<u>Grŵp targed</u> – rhanddeiliaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn bennaf a noddwyr posibl, y Comisiwn Ewropeaidd, y cyfryngau a'r cyhoedd.** | Tîm Cyfathrebu WEFO | **Gaeaf** |
| 3.1 Trefnu digwyddiad blynyddol ar gyfer rhaglenni | Cynnal digwyddiad wyneb yn wyneb (hybrid) ym mis Hydref | Tîm Cyfathrebu WEFO | Gaeaf/Camau gweithredu |

| Mesur | Gwybodaeth Ychwanegol | Cyfrifoldeb Arweiniol | Amserlen ar gyfer Gweithredu |
|---|---|---|---|
| yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol a buddiolwyr, gan gynnwys cydnabod cyflawniadau prosiectau. | 2023, gan dynnu sylw at gyflawniadau rhaglenni Cronfeydd Strwythurol cyfredol, effaith / cyflawniadau'r 20 mlynedd diwethaf o gyllid olynol gan yr UE yn ogystal â chyfleoedd ariannu Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. | | parhaus drwy gydol y flwyddyn |
| **Blaenoriaeth 4: Cynnal a chadw a diweddaru adran cronfeydd yr UE ddwyieithog ar wefan Llywodraeth Cymru** | **<u>Grŵp targed</u> – rhanddeiliaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn bennaf a noddwyr posibl, y Comisiwn Ewropeaidd, awdurdodau rheoli eraill yr UE, y cyfryngau a'r cyhoedd.** | **Tîm Cyfathrebu WEFO** | **Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn** |
| 4.1. Sicrhau ei bod yn hawdd llywio adrannau'r wefan a'i bod yn ystyriol o ddefnyddwyr, a bod cynnwys yn gyfredol | Adolygu cynnwys yn rheolaidd er mwyn cyflawni swyddogaethau busnes craidd, gan gynnwys mynediad at WEFO Ar-lein, drwy arolygon ar-lein, adborth ac ati | Tîm Cyfathrebu WEFO | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn |
| 4.2. Datblygu cronfa ddata â pheiriant chwilio ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd (yn unol ag Erthygl 7 y Rheoliadau Ewropeaidd) | Materion technegol gyda rheolaeth cynnwys gwefan newydd LIC, gwaith wedi'i ohirio oherwydd COVID 19.<br><br>- Parhau i gyhoeddi taenlen Excel o brosiectau a ariennir gan yr UE a chynigion cynllunio busnes yn fisol ar ein tudalennau gwe, gan ragori ar ofynion rheoleiddiol yr UE. | Tîm Cyfathrebu WEFO, ar y cyd â Thîm Gwefannau Canolog Llywodraeth Cymru | Camau gweithredu parhaus drwy gydol y flwyddyn |
| **Blaenoriaeth 5: Gwerthuso effeithiolrwydd gweithgareddau a chynnwys cyhoeddusrwydd allweddol er mwyn llywio cyfathrebu yn y dyfodol** | **<u>Grŵp targed</u> – at ddibenion mewnol yn bennaf, ond rhannu arferion gorau a'r gwersi a ddysgwyd â rhanddeiliaid cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a'r Comisiwn Ewropeaidd.** | Tîm Cyfathrebu WEFO | Parhaus |
| 5.1 Gwerthuso ymgyrch gan ddefnyddio model gwerthuso a gydnabyddir ledled y DU | Sicrhau bod model gwerthuso OASIS yn cael ei ddefnyddio er mwyn adolygu a gwerthuso gweithgareddau fel digwyddiad blynyddol, ac ymgyrch y cyfryngau cymdeithasol Diwrnod Ewrop. | Tîm Cyfathrebu WEFO | Parhaus |
| 5.2 Gwerthuso'r cyfryngau cymdeithasol, y we a'r wasg yn barhaus er mwyn adolygu ac addasu effeithiolrwydd cynnwys | Creu a rhannu adroddiadau gwerthuso misol ac addasu templed er mwyn cadw i fyny â blaenoriaethau sianel newidiol | Tîm Cyfathrebu WEFO | Misol |

WPMC(23)204

**PWYLLGOR MONITRO RHAGLENNI CYMRU, CRONFEYDD STRWYTHUROL A BUDDSODDI EWROP (ESI) 2014 – 2020**

**GWEITHREDU'R THEMÂU TRAWSBYNCIOL: DATBLYGU CYNALIADWY, CYFLE CYFARTAL A PHRIF FFRYDIO RHYWEDD, TRECHU TLODI AC ALLGÁU CYMDEITHASOL**

**Mater**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi crynodeb o'r cynnydd o ran gweithredu pob un o'r tair Thema Drawsbynciol yn Rhaglenni Cronfa Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) ERDF ac ESF 2014 – 2020, rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Hydref 2022.

**Argymhelliad**

2. Gwahoddir yr Aelodau i nodi cynnwys yr adroddiad a gwneud sylwadau.

**Cefndir**

3. Mae tair thema drawsbynciol yn Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020, sef Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd, Datblygu Cynaliadwy, a Threchu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol.

4. Mae'r ddwy thema gyntaf yn orfodol ac wedi'u rheoli gan Reoliadau Cyffredinol yr UE, Erthygl 7 Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a menywod a dim gwahaniaethu (yng Nghymru mae hyn yn cynnwys y Gymraeg) ac Erthygl 8 Datblygu Cynaliadwy. Hefyd, mae Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol yn thema drawsbynciol benodol i Gymru yn unol â Phlatfform yr UE yn erbyn Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol (Menter Flaenllaw Ewrop 2020) ac fel un o ymrwymiadau allweddol Llywodraeth Cymru. Mae'r themâu yn gofyn am weithredu mewn sawl maes ac maent wedi'u hintegreiddio ym mhob maes o'r rhaglenni ESI.

**Dangosyddion**

5. Rhestrir y dangosyddion y cytunwyd arnynt ar gyfer y themâu trawsbynciol gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Rhaglenni Gweithredol presennol ERDF ac ESF isod:

- Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau a systemau monitro datblygu cynaliadwy
- Mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella strategaethau a systemau monitro cydraddoldeb
- Gweithrediadau sy'n integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant (ESF yn unig)

6. Mae **Atodiad 1** yn dangos y gweithrediadau sy'n cyfrannu at y dangosyddion hyn. Mae canlyniadau Covid 19 a'r effaith ar weithrediadau, wedi golygu bod y cyfnod adrodd hwn wedi canolbwyntio ar helpu buddiolwyr i ddal i fyny a darparu gweithgarwch a chanlyniadau y tarfwyd arnynt gan y pandemig. Mae'r ffigurau'n dangos y bu gwelliant, a bod cynnydd boddhaol yn cael ei wneud gyda rhai gweithrediadau wedi cyrraedd eu targed ac eraill yn agos at gyflawni'r gamp.

**Dangosyddion y themâu trawsbynciol ar lefel prosiect**

7. Mae cynnwys targed ffurfiol yn sbardun pwysig i annog prosiectau i fynd i'r afael â'r themâu trawsbynciol. Mae hefyd yn fodd i fonitro'r cynnydd sy'n digwydd yn systematig dros oes y rhaglen.

8. Ond fel y nodwyd wrth yr aelodau o'r blaen, mae targedau ffurfiol yn gyfyngedig pan ddaw hi at ddilysu'r ystod eang o waith cysylltiedig sy'n cael ei wneud. At y diben hwnnw, mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn **Atodiad 2** yn rhoi syniad o'r math o weithgaredd sy'n cefnogi'r thema drawsbynciol a bydd aelodau'n nodi'r amrywiaeth eang o weithgarwch sy'n ychwanegu gwerth. Mae'r data yn arwydd o gyflawni'r canlyniadau a honnir. Bydd rhai o'r dangosyddion yn cael eu hawlio tuag at ddiwedd y broses gyflawni e.e. agweddau datblygu cynaliadwy fel Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM), Systemau Draenio Cynaliadwy. Mae'r astudiaethau achos isod yn tynnu sylw at weithgarwch sy'n benodol i rai o'r dangosyddion.

**Cadw'n Iach yn y Gwaith**

9. Mae Cadw'n Iach yn y Gwaith dan arweiniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, a ariennir trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, Blaenoriaeth 1 SO3, yn cynnwys dwy brif elfen. Mae'r cyntaf yn ymwneud â chefnogi busnesau micro, bach a chanolig yn y sir nad oes ganddynt fynediad at Adnoddau Dynol proffesiynol i ymateb i anghenion eu gweithlu, gan wella lles yn y gwaith a mabwysiadu strategaethau, polisïau a systemau monitro ar gyfer amrywiaeth a chydraddoldeb, neu wella rhai sy’n bodoli eisoes. Mae'r ail elfen yn canolbwyntio ar wella'r gefnogaeth sydd ar gael i weithwyr y Cyngor ei hun sydd â chyflyrau iechyd neu anableddau sy'n cyfyngu ar waith sy'n effeithio ar eu gallu i fynychu'r gweithle.

10. Mae'n darparu gweithgarwch sy'n cefnogi dau o ddangosyddion rhaglen thema drawsbynciol ESF; Mentrau yn mabwysiadu neu'n gwella strategaethau a systemau monitro cydraddoldeb a Gweithrediadau yn cynnwys datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant. Mae'r gweithrediad hefyd yn darparu gweithgarwch sy'n cyfrannu at ystod o ddangosyddion lefel achos themâu trawsbynciol, ac mae rhai enghreifftiau wedi'u nodi isod.

11. Dangosydd y Rhaglen: Integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant. Crëwyd pecyn sefydlu e-ddysgu ar newid hinsawdd er mwyn helpu cleientiaid o blith busnesau bach a chanolig i helpu eu staff i gyfrannu at fynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae'r pecyn hyfforddi yn ystyried beth yw newid hinsawdd, y dystiolaeth, a sut y gall busnesau helpu i fynd i'r afael ag ef. Nod y wybodaeth yw rhoi'r wybodaeth a'r atebion sydd eu hangen ar fusnesau a'u staff i fynd i'r afael â'r argyfwng amgylcheddol cynyddol; lleihau eu hallyriadau a chael gwell dealltwriaeth o risgiau lleol er mwyn addasu i'r newidiadau a fydd yn digwydd ac sydd eisoes yn digwydd. Defnyddiwyd llifogydd difrifol a dinistriol yn Rhondda Cynon Taf yn ystod 2019 yn gefndir i'r wybodaeth a ddarparwyd, gan helpu busnesau lleol i ddeall y cyfraniad y gallant ei wneud drwy leihau eu hôl troed carbon eu hunain.

Isod ceir sgrin lun o'r modiwl e-ddysgu:




12. Dangosyddion lefel achos thema drawsbynciol: Mesur gweithredu cadarnhaol – Menywod I gydnabod canran uchel o fenywod yn y gweithlu, yn enwedig y rhai oddeutu 51 oed a throsodd, penderfynodd y gweithrediad gynnal Digwyddiad Ymwybyddiaeth a Gwybodaeth Iechyd, wedi'i anelu'n benodol at fenywod, yn canolbwyntio ar fyw a gweithio gyda'r menopos. Y nod oedd mynd i'r afael â stigma'r menopos, lleihau effaith y symptomau ar y gweithle, codi proffil y rhwystrau sy'n wynebu menywod yn y gweithle a lleihau'r effaith y gallai hyn ei chael ar allu’r unigolion hynny i gymryd rhan lawn yn y gwaith. Hefyd, addysgu cyflogwyr ar y ffordd orau o helpu eu staff orau trwy ddarparu gwybodaeth am sut y gall y menopos effeithio ar bobl yn y gwaith, a chanllawiau ymarferol ar sut i wella amgylcheddau yn y gweithle. Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth, cynigir cymorth sefydliadol pwrpasol penodol i fusnesau bach a chanolig yn ogystal â hyfforddiant ar y safle i reolwyr a staff er mwyn codi ymwybyddiaeth o sut mae'r menopos yn effeithio ar fenywod a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu drwy'r cyfnod hwn yn eu bywyd

13. Mesur gweithredu cadarnhaol – Pobl hŷn - Gan ddeall bod gweithlu sy'n heneiddio yn duedd na ellir ei hanwybyddu, datblygwyd gwybodaeth er mwyn darparu adnoddau i fusnesau y

gallant eu defnyddio i baratoi ar gyfer y gweithlu sy'n heneiddio yn eu sefydliad. Mae'r wybodaeth yn cynnwys 'asesiad risg i weithwyr sy'n heneiddio' sy'n tynnu sylw at yr addasiadau y gellid eu cynnwys yn y busnes er mwyn sicrhau bod gweithwyr sy'n heneiddio yn cael cymorth. Y nod yw mynd i'r afael â'r stigma sy'n wynebu gweithwyr hŷn a lleihau effaith bosib hyn ar allu unigolion i gymryd rhan lawn yn y gwaith. Hefyd, addysgu cyflogwyr ar y ffordd orau o helpu eu staff trwy weithredu polisïau fel gweithio'n hyblyg, cwblhau'r "MOT canol oed" a dilyn y canllaw er mwyn helpu gweithwyr i aros yn y gwaith y tu hwnt i oedran ymddeol.

**SMARTAQUA**

14. Arweinir SMARTAQUA gan Ganolfan Ymchwil Dyfrol Gynaliadwy (CSAR) Prifysgol Abertawe)[3]. Mae'n cael ei ariannu gan ERDF, Gorllewin Cymru a'r Cymoedd Blaenoriaeth 1.2, a'r nod yw gweithio gyda busnesau Cymru i ddefnyddio technoleg uwch a datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd arloesol ar gyfer y farchnad dyframaethu arbenigol. Fel sector arbenigol sydd â'r potensial i ddarparu cyfleoedd economaidd sylweddol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddulliau cynhyrchu pysgod glanach, pysgod ar gyfer ymchwil biofeddygol a'r fasnach acwariwm a datblygu bwydydd dyfrol a deunyddiau maethol-fferyllol sy'n dod o ffynonellau lleol ac sy'n fwy ecogyfeillgar.

15. Fel rhan o'i ymrwymiad parhaus i gyflawni'r thema drawsbynciol, mae'r prosiect wedi darparu gweithgarwch sy'n cefnogi ystod o ddangosyddion, ac un ohonynt yw 'datblygu cadwyni cyflenwi lleol.' Mae'r enghreifftiau isod yn dangos cyfraniad y prosiect i'r dangosydd:

16. Datblygu Cadwyni Cyflenwi Lleol. Bu SMARTAQUA yn cydweithio ag arweinwyr y diwydiant dyframaethu gan gynnwys un o'r cyflenwyr mwyaf yn y DU o wrachod môr a mag o ieir môr, cynhyrchydd mwya'r DU o ieir môr, a chynhyrchydd ieir môr sy'n tarddu o'r Alban yn y DU i ddatblygu sector ieir môr aeddfed yng Nghymru. Diolch i ymyrraeth uniongyrchol a'r gefnogaeth gan SMARTAQUA, mae'r sector bellach yn cyflenwi dros bedair miliwn o bysgod glanach i'r Alban y flwyddyn. Mae'r pysgod glanach hyn yn gwella lles degau o filiynau o eogiaid trwy dynnu llau môr oddi arnynt. Mae'r cydweithrediad hwn wedi sicrhau lle Cymru fel arweinydd y diwydiant ar y math yma o ddyframaethu di-fwyd.

17. Fe wnaeth un o dechnegwyr SMARTAQUA fynychu cynhadledd ar bysgod rhesog gyda siaradwyr rhyngwladol o bob cwr o Ewrop[4]. Roedd y gynhadledd yn gyfle i ddysgu'r arferion gorau a ddefnyddiwyd yn CSAR a chynorthwyo i sefydlu'r cyfleuster CRISPR[5] sydd wedi'i ariannu trwy SMARTAQUA. Gan nad oes gan Gymru gadwyn gyflenwi ar gyfer pysgod rhesog ar hyn o bryd, bydd hyn yn llywio'r sail ar gyfer sefydlu un.

---

[3] CSAR yw unig ganolfan ragoriaeth Cymru ar gyfer dyframaethu cynaliadwy a dyma brif ganolfan y DU ar dechnoleg ailgylchdroi a dyframaethu di-fwyd. Fe'i sefydlwyd yn 2003 gyda chymorth Llywodraeth Cymru, cronfeydd yr UE a Phrifysgol Abertawe.

[4] http://www.aquaneering.com/zebrafishworkshop2021.php

[5] CRISPR-Cas9 A New Tool for Genome Editing

**Data Siaradwyr Cymraeg**

18. Cesglir gwybodaeth am statws y Gymraeg drwy'r gronfa ddata cyfranogwyr ac mae'r dadansoddiad o gyfranogwyr y ddwy Raglen ESF fel a ganlyn:

| Y Gymraeg | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | Dwyrain Cymru |
|---|---|---|
| Dewis iaith ar gyfer cyfathrebu - Cymraeg | 7% | 2% |
| Deall Cymraeg | 16% | 6% |
| Siarad Cymraeg | 15% | 6% |
| Darllen Cymraeg | 13% | 4% |
| Ysgrifennu Cymraeg | 13% | 4% |
| Derbyn darpariaeth yn Gymraeg, naill ai'n 'rhannol' neu'n 'llawn' | 13% | 5% |

**Terfynu gweithrediadau**

19. Mae'r cyfnod adrodd hwn wedi gweld rhaglenni'n symud i'r cam cyflawni terfynol, gyda therfynu gweithrediadau'n dod yn elfen ganolog o waith yr Awdurdod Rheoli. Fel y nodwyd eisoes, mae Adroddiad Terfynu Thema Drawsbynciol wedi'i lunio ar gyfer pob gweithrediad. Mae'r adroddiad, llawer ohono'n cael ei lenwi ymlaen llaw, yn cynnwys yr elfennau allweddol sydd eu hangen i gwblhau'r broses derfynu o safbwynt thema drawsbynciol a dylai sicrhau llwybr archwilio cadarn ar gyfer elfen thema drawsbynciol y rhaglen ar ôl 2023.

20. Mae'r Tîm Themâu Trawsbynciol yn parhau i archwilio ffyrdd o roi cyhoeddusrwydd i sut mae cynlluniau'n integreiddio'r themâu trawsbynciol i'w gwaith dylunio a chyflawni. Gan weithio gyda Thîm Cyfathrebu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), y nod yw codi proffil y themâu trawsbynciol a dangos eu gwerth ychwanegol i gynlluniau. Mae **Atodiad 3** yn dangos casgliad o negeseuon twitter diweddar WEFO, sy'n gysylltiedig â diwrnodau ymwybyddiaeth ryngwladol, yn tynnu sylw at gynlluniau sy'n cynnwys themâu trawsbynciol.

**Y camau nesaf**

21. Hysbysu aelodau am gynnydd y gwaith o gyflawni'r themâu trawsbynciol.

**Drafftiwyd gan: Chriss O'Connell WEFO**
**Cymeradwywyd gan: Sue Price WEFO**
**Dyddiad: 06/12/2022**

**Atodiad 1**

**Prosiectau sy'n cyfrannu at ddangosydd thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal:**
**'nifer y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau cydraddoldeb gan gynnwys system fonitro'.**

| Teitl y gweithrediad | Prif fuddiolwr | Rhaglen | Blaenoriaeth | Rhagolwg | Cyflawnwyd hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|
| Busnes Cymru - Cymorth Entrepreneuriaeth | Llywodraeth Cymru | ERDF Dwyrain Cymru | 2 | 581 | 495 |
| Busnes Cymru - Cymorth i fusnesau bach a chanolig | Llywodraeth Cymru | ERDF Dwyrain Cymru | 2 | 802 | 804 |
| Busnes Cymdeithasol Cymru | Canolfan Cydweithredol Cymru | ERDF Dwyrain Cymru | 2 | 50 | 66 |
| Busnes Cymdeithasol Cymru - Dechrau Newydd | Canolfan Cydweithredol Cymru | ERDF Dwyrain Cymru | 2 | 25 | 39 |
| Cenedl Hyblyg 2 | Chwarae Teg | ESF Dwyrain Cymru | 2 | 196 | 196 |
| | | | | | |
| Busnes Cymru - Cymorth Entrepreneuriaeth | Llywodraeth Cymru | ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 2 | 1060 | 932 |
| Busnes Cymru - Cymorth i fusnesau bach a chanolig | Llywodraeth Cymru | ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 2 | 1709 | 1505 |
| Busnes Cymdeithasol Cymru | Canolfan Cydweithredol Cymru | ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 2 | 260 | 227 |
| Busnes Cymdeithasol Cymru - Dechrau Newydd | Canolfan Cydweithredol Cymru | ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 2 | 100 | 118 |
| SEACAMS 2 | Prifysgol Bangor | ERDF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 8 | 8 |

**Atodiad 1**

**Prosiectau sy'n cyfrannu at ddangosydd thema drawsbynciol Cyfle Cyfartal:**
**'nifer y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau cydraddoldeb gan gynnwys system fonitro'.**

| Teitl y gweithrediad | Prif fuddiolwr | Rhaglen | Blaenoriaeth | Rhagolwg | Cyflawnwyd hyd yma |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymru Iach ar Waith (Gwasanaeth mewn swydd) | Llywodraeth Cymru | ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 700 | 149 |
| Cenedl Hyblyg 2 | Chwarae Teg | ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 2 | 554 | 417 |
| Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol... ar gyfer menywod ym myd gwaith | Coleg Gŵyr Abertawe | ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 2 | 18 | 0 |
| Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol... ar gyfer pobl sydd wedi tangyflogi | Coleg Gŵyr Abertawe | ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 0 | 0 |
| Meithrin, Darparu, Ffynnu | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 75 | 19 |
| Cadw'n Iach yn y Gwaith | Rhondda Cynon Taf | ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 70 | 66 |
| Ehangu Gorwelion Môn | Cymunedau Ymlaen Môn | ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 392 | 279 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Taclo Tlodi yn y Gwaith Sir Benfro | Cyngor Sir Penfro | ESF Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 15 | 7 |

**Atodiad 1**

**Cynlluniau sy'n cyfrannu at ddangosydd thema drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy ERDF y rhaglen:**
**'*nifer y mentrau sy'n mabwysiadu neu'n gwella eu strategaethau a'u systemau monitro datblygu cynaliadwy*'**.

| Teitl y gweithrediad | Prif fuddiolwr | Rhaglen | Rhagolwg | Cyflawnwyd hyd yma |
|---|---|---|---|---|
| Busnes Cymru - Cymorth Entrepreneuriaeth | Llywodraeth Cymru | Dwyrain Cymru | 673 | 603 |
| Busnes Cymru - Cymorth i fusnesau bach a chanolig | Llywodraeth Cymru | Dwyrain Cymru | 710 | 763 |
| Busnes Cymdeithasol Cymru | Canolfan Cydweithredol Cymru | Dwyrain Cymru | 50 | 55 |
| Busnes Cymdeithasol Cymru - Dechrau Newydd | Canolfan Cydweithredol Cymru | Dwyrain Cymru | 25 | 39 |
| | | | | |
| Busnes Cymru - Cymorth i fusnesau bach a chanolig | Llywodraeth Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1559 | 1398 |
| Busnes Cymru - Cymorth Entrepreneuriaeth | Llywodraeth Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1210 | 1082 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Busnes Cymdeithasol Cymru | Canolfan Cydweithredol Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 260 | 205 |
| Busnes Cymdeithasol Cymru - Dechrau Newydd | Canolfan Cydweithredol Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 100 | 117 |
| SEACAMS 2 | Prifysgol Bangor | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 8 | 8 |

**Atodiad 1**

**Cynlluniau sy'n cyfrannu at ddangosydd thema drawsbynciol Datblygu Cynaliadwy ERDF y rhaglen:**
***'cynlluniau sy'n integreiddio datblygu cynaliadwy mewn rhaglenni codi ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant'***

| Teitl y gweithrediad | Prif fuddiolwr | Rhaglen | Rhagolwg | Cyflawnwyd hyd yma |
|---|---|---|---|---|
| KESS II | Prifysgol Bangor | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Academi Deunyddiau a Gweithgynhyrchu | Prifysgol Abertawe | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Chyflogeion SO 1 | Coleg Cambria | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 0 | 1 |
| Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Chyflogeion SO 2 | Coleg Cambria | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Sgiliau ar gyfer Diwydiant 2 SO1 | Coleg Gŵyr Abertawe | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Sgiliau ar gyfer Diwydiant 2 SO 2 | Coleg Gŵyr Abertawe | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Cyflawni drwy Brofiad Gwaith | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Ysbrydoli i Gyflawni | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| METAL 2 | Prifysgol Abertawe | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Tyfu Gweithluoedd trwy Ddysgu a Datblygu (GWLAD) | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |

**Atodiad 1**

| Teitl y gweithrediad | Prif fuddiolwr | Rhaglen | Rhagolwg | Cyflawnwyd hyd yma |
|---|---|---|---|---|
| Prentisiaethau | Llywodraeth Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| ReAct 3 | Llywodraeth Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Hyfforddeiaethau | Llywodraeth Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 0 |
| Cynhwysiant Gweithredol | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Cynhwysiant Gweithredol i Bobl Ifanc | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Cenedl Hyblyg 2 | Chwarae Teg | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| TRAC 11-24 | Cyngor Sir Ddinbych | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Gwella Sgiliau Prentisiaethau | Llywodraeth Cymru | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Ysbrydoli i Weithio | Cyngor Sir Blaenau Gwent | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Cynnydd | Cyngor Sir Penfro | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Cam Nesa | Cyngor Sir Penfro | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Arwain Twf Busnes | Prifysgol Abertawe | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Gweithffyrdd II | Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Academi Busnes Gogledd Cymru | Grŵp Llandrillo-Menai | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| ADTRAC | Grŵp Llandrillo-Menai | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |

**Atodiad 1**

| Teitl y gweithrediad | Prif fuddiolwr | Rhaglen | Rhagolwg | Cyflawnwyd hyd yma |
|---|---|---|---|---|
| Meithrin, Darparu, Ffynnu | Cyngor Sir Torfaen | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Trio-Sci Cymru | Llywodraeth Cymru - | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 0 |
| Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 0 |
| Swyddi Gwell, Dyfodol Gwell - ar gyfer pobl dros 25 oed | Coleg Gŵyr Abertawe | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 0 |
| Swyddi Gwell, Dyfodol Gwell - Pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET | Coleg Gŵyr Abertawe | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 0 |
| BioArloesedd Cymru | Prifysgol Aberystwyth | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Gradd Meistr mewn Arloesedd Rhyngwladol (IIM) | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Cadw'n Iach yn y Gwaith | Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 0 | 1 |
| Taclo tlodi mewn gwaith Sir Benfro | Cyngor Sir Penfro | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Ehangu Gorwelion Môn | Cymunedau Ymlaen Môn | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 1 |
| Gweithio Abertawe – di-waith tymor byr | Cyngor Dinas a Chyngor Abertawe | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 0 |
| Gweithffyrdd + - di-waith tymor byr dros 25 oed | Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 1 | 0 |
| Swyddi Gwell, Dyfodol Gwell... ar gyfer menywod ym myd gwaith | Coleg Gŵyr Abertawe | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 0 | 0 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| OPUS | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | 0 | 1 |

**Atodiad 1**

| Teitl y gweithrediad | Prif fuddiolwr | Rhaglen | Rhagolwg | Cyflawnwyd hyd yma |
|---|---|---|---|---|
| Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Chyflogeion SO1 | Coleg Cambria | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |
| Sgiliau ar gyfer Cyflogwyr a Chyflogeion SO 2 | Coleg Cambria | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |
| Rhaglen Graddedigion Gwasanaethau Ariannol Cymru | Welsh Contact Centre Forum Ltd | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |
| Cynnydd | Cyngor Sir Powys | Dwyrain Cymru | 1 | 0 |
| Cyflawni drwy Brofiad Gwaith | Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |
| Gweithffyrdd + Powys | Cyngor Sir Powys | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |
| Prentisiaethau | Llywodraeth Cymru | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |
| Hyfforddeiaethau | Llywodraeth Cymru | Dwyrain Cymru | 1 | 0 |
| Cynhwysiant Gweithredol | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |
| Cynhwysiant Gweithredol i Bobl Ifanc | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |
| Cenedl Hyblyg 2 | Chwarae Teg | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |
| TRAC 11-24 | Cyngor Sir Ddinbych | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |
| Gwella Sgiliau Prentisiaethau | Llywodraeth Cymru | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |
| Sgiliau yn y Gwaith | Cyngor Dinas Casnewydd | Dwyrain Cymru | 1 | 0 |
| Academi Busnes Gogledd Cymru | Grŵp Llandrillo-Menai | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |

**Atodiad 1**

| Teitl y gweithrediad | Prif fuddiolwr | Rhaglen | Rhagolwg | Cyflawnwyd hyd yma |
|---|---|---|---|---|
| Growing Space - Dysgu i Dyfu | Growing Space | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |
| Uwchsgilio ar gyfer Diwydiant | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | Dwyrain Cymru | 1 | 0 |
| METAL 2 | Prifysgol Abertawe | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |
| BioArloesedd Cymru | Prifysgol Aberystwyth | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |
| KESS 2 | Prifysgol Bangor | Dwyrain Cymru | 1 | 1 |

**Atodiad 2 Dangosyddion Lefel Achos y Themâu Trawsbynciol**

| **Datblygu Cynaliadwy** | **CRONFA DATBLYGU RHANBARTHOL EWROP Tach 22** | **CRONFA GYMDEITHASOL EWROP Tach 22** |
|---|---|---|
| Datblygu cod eco | 24 | 32 |
| Datblygu cadwyni cyflenwi lleol | 47 | 17 |
| Integreiddio seilwaith gwyrdd | 10 | 1 |
| Integreiddio seilwaith glas | 4 | 0 |
| Cymorth ar gyfer gweithgarwch bioamrywiaeth ar safle a ariennir drwy'r Gronfa Strwythurol | 8 | 1 |
| Datblygu cynllun teithio sefydliadol a mentrau trafnidiaeth gynaliadwy | 46 | 18 |
| Mesurau effeithlonrwydd adnoddau | 48 | 48 |
| Cynlluniau rheoli amgylcheddol ar gyfer safleoedd | 15 | 0 |
| BREEAM rhagorol lle bo hynny'n berthnasol | 4 | 0 |
| Cyflawni CEQUALL ar gyfer gwaith adeiladu | 3 | 0 |
| Defnyddio Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy lle bo hynny'n berthnasol | 8 | 0 |
| BREEAM Da iawn | 1 | 0 |

| **Cyfle Cyfartal** | **CRONFA DATBLYGU RHANBARTHOL EWROP Tach 22** | **CRONFA GYMDEITHASOL EWROP Tach 22** |
|---|---|---|
| Mesurau gweithredu cadarnhaol - menywod | 33 | 31 |
| Mesur gweithredu cadarnhaol – Pobl Ddu, Asiaidd, a Lleiafrifoedd Ethnig | 11 | 15 |
| Mesur gweithredu cadarnhaol - pobl ifanc | 11 | 19 |
| Mesur gweithredu cadarnhaol - pobl hŷn | 9 | 13 |
| Mesur gweithredu cadarnhaol - pobl anabl | 9 | 37 |
| Mesur gweithredu cadarnhaol – eraill | 5 | 21 |
| Gweithgarwch gwahanu galwedigaethol | 0 | 46 |
| Gweithgarwch cyflog cyfartal | 2 | 7 |
| Menywod mewn STEM | 39 | 27 |
| Gweithgarwch sy'n hyrwyddo'r Gymraeg | 8 | 10 |
| Gweithgarwch sy'n cefnogi siaradwyr Cymraeg | 44 | 67 |
| Ymgysylltu â'r Grŵp Mynediad ar gyfer Pobl Anabl | 5 | 6 |
| Darpariaeth gofal plant | 1 | 19 |

| | | |
|---|---|---|
| Darpariaeth gofal arall | 1 | 5 |

| **Themâu trawsbynciol cyffredinol** | **CRONFA DATBLYGU RHANBARTHOL EWROP Tach 22** | **CRONFA GYMDEITHASOL EWROP Tach 22** |
|---|---|---|
| Gweithgarwch arferion da cynnwys rhanddeiliaid | 20 | 9 |
| Datblygu / ymgysylltu â hyrwyddwyr themâu trawsbynciol | 83 | 91 |
| Integreiddio cymalau cymdeithasol | 25 | 11 |
| Pecyn cymorth themâu trawsbynciol, mecanwaith sylfaenol, datblygu ap | 4 | 1 |
| Datblygu pecyn hyfforddi ar themâu trawsbynciol | 0 | 1 |
| Cyflwyno rhaglen hyfforddi staff ar themâu trawsbynciol | 6 | 13 |
| Gweithgarwch sy'n cefnogi dangosyddion themâu trawsbynciol (mewn Blaenoriaethau / Amcanion lle nad oes dangosyddion) | 3 | 10 |

| **Trechu Tlodi** | **CRONFA DATBLYGU RHANBARTHOL EWROP Tach 22** | **CRONFA GYMDEITHASOL EWROP Tach 22** |
|---|---|---|
| Gweithgarwch meithrin sgiliau cymunedol | 19 | 8 |
| Gweithgarwch mentora / eirioli | 11 | 66 |
| Gweithgarwch cymorth gan gymheiriaid | 1 | 16 |
| Cynlluniau gwirfoddoli | 12 | 32 |
| Sefydliadau sy'n talu'r cyflog byw | 14 | 5 |

**Mae Atodiad 3 yn dangos casgliad o negeseuon twitter diweddar Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn tynnu sylw at gyfraniad i'r thema drawsbynciol**






Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
@wefocymru

Mae @CFWWrexham a ariennir gan yr UE a'u tîm cydlyniant cymunedol yn rhoi hyfforddiant cyn-cyflogaeth ar wahaniaethau diwylliannol yn y gymuned a'r gweithle i baratoi ffoaduriaid o Syria yn Wrecsam at fyw yn y DU.

#DimHiliaeth #AntiRacismDay #CyllidUECymru

Translate Tweet

Cymunedau am Waith
Communities for Work

1:30 PM · Mar 21, 2022 · Hootsuite Inc.

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
@wefocymru

Mae cyllid yr UE yn cefnogi prosiectau i wella effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi incwm isel, yn cefnogi mentrau ynni adnewyddadwy graddfa fach, ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu diwydiant ynni morol blaenllaw yng Nghymru #BuddsoddiYnEinPlaned #EarthDay2022 #CyllidUECymru



10:00 AM · Apr 22, 2022 · Hootsuite Inc.

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
@wefocymru

Mae prosiect Ehangu Gorwelion Môn @MonCFAnglesey yn hyfforddi staff mewn BSL i gefnogi pobl â nam ar eu synhwyrau. Mae grant Mynediad i Waith yn ariannu pryniant feisorau COVID clir i helpu â darllen gwefusau. moncf.co.uk #WythnosYmwybyddiaethByddardod #CyllidUECymru

Translate Tweet



10:00 AM · May 3, 2022 · Hootsuite Inc.

1 Retweet 2 Likes

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
@wefocymru

Mae'r prosiect Cymorth yn y Gwaith a gaiff ei gyllido gan Gronfeydd yr UE yn cynnig cymorth i'r rhai â chyflyrau #IechydMeddwl i ailymuno â byd gwaith. Mwy yma: icc.gig.cymru/gwasanaethau-a... @cymruiach_CIAW #WythnosYmwybyddiaethIechydMeddwl #CyllidUECymru

Translate Tweet



10:00 AM · May 10, 2022 · Hootsuite Inc.

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
@wefocymru

Mae @beaconwales a gyllidir gan yr UE yn galluogi diwydiant i gydweithio â phrifysgolion Cymru mewn gwaith ymchwil a datblygu ar y cyd, gan ddatblygu bio-economi uchel ei gwerth a chynaliadwy yng Nghymru. Mwy yma: beaconwales.org/cy/
#WorldBiodiversityDay #CyllidUECymru

Translate Tweet



11:00 AM · May 22, 2022 · Hootsuite Inc.

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
@wefocymru

Mae prosiect @RICE_Cymru a ariennir gan yr UE dan arweiniad @ESRI_Abertawe yn ymgysylltu ac yn cefnogi pobl ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr uned arddangos Algâu.

rice.cymru/cy/news.htm?id...

#CyllidEUCymru #WythnosAD22 @ChartSwansea @Prif_Abertawe

Translate Tweet



11:30 AM · Jun 22, 2022 · Hootsuite Inc.

2 Retweets

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
@wefocymru

Prosiectau @METaL_Project @SMARTAQUA2 @COATEDEngD a ariennir gan yr UE dan arweiniad Prifysgol Abertawe yn cefnogi Menywod ym maes Peirianneg a Meysydd Cyflogaeth STEM
materials-academy.co.uk
project-metal.co.uk
smartaqua.org.uk
#INWED22 #CyllidEUCymru
Translate Tweet




10:00 AM · Jun 23, 2022 · Hootsuite Inc.

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
@wefocymru

Dathlu #IYD2022 a #PontiorCenedlaethau gyda Chronfa Busnes Cymru @bancdatcymru a ariennir gan yr UE, cefnogi entrepreneuriaid ifanc ac ymgysylltu â @PRIMECymru i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd ar gyfer pobl hŷn:

developmentbank.wales/cy/astudiaetha...

#CyllidUECymru
Translate Tweet



10:00 AM · Aug 12, 2022 · Hootsuite Inc.

3 Retweets 3 Likes

← Tweet

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
@wefocymru

Mae prosiect Ehangu Gorwelion Môn @MonCFAnglesey sydd wedi'i ariannu gan yr UE, yn addysgu sgiliau hanfodol BSL sylfaenol i staff, sy'n ymwneud â gwaith, a all eu helpu i gefnogi cyfranogwyr byddar:

moncf.co.uk/bsl

#IWDP #CyllidUECymru
Translate Tweet




11:36 AM · Sep 20, 2022 · Hootsuite Inc.

1 Retweet 1 Like

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru
@wefocymru

Dathlu Diwrnod Rhyngwladol Ieithoedd Arwyddion gyda @JobsenseWales yn cynorthwyo cyfranogwyr sydd â nam ar y synhwyrau ac yn darparu fideos gan gyfranogwyr gydag iaith arwyddion ac isdeitlau
Wayne: youtube.com/watch?v=N9sCVn...
Morgan ac Emily: youtube.com/watch?v=GLwOak... https://www.youtube.com/watch?v=GLwOakW2jT4
#IDSL #CyllidUE



10:00 AM · Sep 23, 2022 · Hootsuite Inc.

2 Likes

**Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru**
@wefocymru

Mae Cadw'n Iach yn y Gwaith sydd wedi ennill gwobrau a gaiff ei redeg gan @CyngorRhCT yn darparu gweithdai Menopos i gefnogi cyflogwyr a menywod BBaCh yn y gweithlu, a'r cyfan yn bosibl o Gronfeydd yr UE.
Mwy yma: rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved...
#DiwrnodMenoposYByd #CyllidUECymru
Translate Tweet



9:30 AM · Oct 18, 2022 · Hootsuite Inc.

**Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru**
@wefocymru

Mae'r prosiect @ThresholdDAS Limitless, sydd wedi'i ariannu gan yr UE, yn darparu cymorth, diogelwch a chyfleoedd i fenywod sydd wedi profi cam-drin domestig newid eu bywydau. I gael mwy o wybodaeth ewch yma: threshold-das.org.uk/services/limit...
#IDEVAW #CyllidUECymru
Translate Tweet



**Adroddiad Rhwydwaith Gwledig Cymru – Pwyllgor Monitro'r Rhaglen**

**Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru**

**26 Ionawr 2023 9.00am, Microsoft Teams**

## Diweddariad ar Uned Cefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru (WRNSU)

Mae'r diweddariad hwn yn ymdrin â'r cyfnod o 1 Ionawr 2022 hyd heddiw.

## Staff Uned Cymorth Rhwydwaith

• Mae Rhwydwaith Gwledig Cymru yn gyfrifol am rwydweithio a chyfathrebu ar draws y Rhaglen Datblygu Gwledig.

• Mae newid sylweddol i raglen waith WRNSU wedi digwydd eleni oherwydd ailstrwythuro'r adran. Yn ogystal ag effaith Brexit / Covid dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydyn ni wedi gorfod diwygio ein rhaglen waith yn unol â'r newidiadau hyn.

• Ar hyn o bryd mae'r WRNSU yn cynnwys Pennaeth Rhwydwaith (0.5 FTE) a gefnogir gan un Rheolwr Rhwydwaith (0.75 FTE), un Rheolwr Gwefan ac Awdur Cynnwys (1 FTE) a Rheolwr Cyllid (1 FTE).

• Mae rôl WRNSU wedi parhau i esblygu dros y 12 mis diwethaf. Newidiodd COVID-19 y ffordd rydyn ni'n gweithio, gan ganolbwyntio mwy ar gyfathrebu digidol a rhannu arferion gorau ymhlith rhanddeiliaid.

• Mae WRNSU yn parhau i gynnal perthynas gref gyda'r Grwpiau Gweithredu Lleol ac Arweinwyr Polisi.

## Digwyddiadau a Chyfranogiad Rhwydwaith Gwledig Cymru

Cyflwynodd Cymru ei digwyddiad diwedd tymor ar 9 & 10 Mehefin 2022 – Dathlu Cymru Wledig.

Roedd y digwyddiad deuddydd yn cynnwys –

## Trosolwg o'r Digwyddiad

• 360 o gynrychiolwyr dros 2 diwrnod

• 30 o brosiectau wedi'u harddangos

• 6 Trafodaeth Panel ar thema

Fideo Digwyddiad –Fideo Digwyddiad Dathlu Cymru Wledig

**<u>Eitemau hyrwyddo</u>**

- Llyfryn Digwyddiad - [Llyfryn Digwyddiad CDG.pdf]
- Llyfryn Astudiaeth Achos - [Llyfryn Rhyngweithiol Astudiaethau Achos.pdf]

## Detholiad o Ffotograffau'r Digwyddiad




Cywain


Dathlu Cymru Wledig
Celebrating Rural Wales


7
Cadwch Gymru n Daclus -
Keep Wales Tidy
To adopt specific
Litter Free Zones
Litter Free Zones
cadwch keep
gymru wales
daclus tidy


Dathlu Cymru Wledig / Celebrating Rural Wales
Cofrestru
Registration
HELIX




**Detholiad o Astudiaethau Achos Fideo o'r digwyddiad**

- Arloesi – Asparagus Organig
- Bwyd a Thwristiaeth – Cymru ar y Rheilffordd
- Coetir a Choedwigaeth – Fferm Blaencennen
- Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy – Bioamrywiaeth Wrecsam
- Bwyd a Thwristiaeth - Plas Weunydd
- Cymunedau Arloesol – Academi Addysg Awyr Agored Glantawe
- Cymunedau Arloesol – Camau'r Cymoedd

**Derbyniad Rhwydweithio Gyda'r Nos Blas Cymru**

**Nodau ac Amcanion**

Roedd y digwyddiad hwn yn cefnogi Rhwydwaith Gwledig Cymru i gyflawni ei nodau i:

• Rannu'r arferion gorau

• Coladu a lledaenu astudiaethau achos

• Hyrwyddo'r Rhaglen Datblygu Gwledig a'i llwyddiannau

• Ailadrodd pwysigrwydd rhaglen ariannu sydd wedi'i chynllunio i gynorthwyo busnesau gwledig, mentrau, seilwaith, cymunedau a phobl

**Fideo Digwyddiad** – [Noson Blas Cymru - Fideo]

**Derbyniad canape a diodydd** – Derbyniad bwyd a diod o Gymru gan fwyta ac yfed ger arddangosfa o gynhyrchion Cymreig wedi'u plethu â ffeithiau allweddol a chanlyniadau o'r ystod o brosiectau CDG sydd wedi cynorthwyo cwmnïau bwyd a diod Cymru.

**Safleoedd Blasu Cynnyrch** gan gynnwys derbyniad diodydd wrth groesawu. Moctel a choctel ar thema'r haf i'r cynrychiolwyr wrth gyrraedd.



**Menter y Farchnad Cynhyrchwyr Bwyd** – lle mae'r cynhyrchwyr yn bresennol a gall cynrychiolwyr gwrdd â'r rhai sydd wedi elwa o brosiectau'r Rhaglen Datblygu Gwledig.

Bydd cynhyrchion ar gael i'w samplo a'u gwerthu.

• Tua 300 yn bresennol

• 30 o Gynhwysion o brosiectau wedi'u hariannu gan CDG wedi’u defnyddio yn y fwydlen

• 28 Prosiect wedi'u harddangos

• 129 o Gwmnïau Bwyd a Diod wedi’u hariannu gan CDG yn bresennol

Gwahoddiad rhwydweithio – Gwahoddiad Derbyniad Blas Cymru

**Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol y DU (Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chymru)**

Cymerodd Cymru ran mewn cyfarfodydd telegynadledda Rhwydwaith Gwledig Cenedlaethol y DU rhwng pedwar Rhwydwaith y DU hyd at fis Ebrill 2021 pan ddaeth Rhaglenni rhanbarthau eraill i ben. Roedd y cyfarfodydd hyn yn gyfle gwych i drafod materion rhanddeiliaid CDG a chytuno ar ymatebion cyson i faterion sy'n effeithio ar y DU gyfan.

Mae Rhwydwaith Gwledig Cymru yn parhau i weithio gyda chydweithwyr o'r Alban ynghylch rhannu arferion gorau.

Bu cynrychiolwyr Rhwydwaith Gwledig Cymru hefyd mewn cyfarfod Dyfodol Gwledig yn Nulyn ar 17 Tachwedd.

**Gweithgareddau Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop**

Mae cyfyngiadau bellach wedi'u cyflwyno gan Lywodraeth y DU i ganslo rhai o weithgareddau'r UE rhwng y DU a'r UE oherwydd Brexit. Mae mynychu gweithgareddau Rhwydwaith Datblygu Gwledig Ewrop wedi syrthio i'r categori hwn.

Gwahoddwyd Rhwydwaith Gwledig Cymru i fynychu lansiad Rhwydwaith PAC yr UE gan y Rhwydwaith PAC newydd a'u rhanddeiliaid a gynhaliwyd ym Mrwsel ar 6 Hydref 2022.

Gwahoddwyd yr aelodau i gymryd rhan mewn gweithdai a oedd yn ymdrin â gwahanol themâu, Gweithredu, Arloesi, Gwerthuso a Chyfathrebu. Bydd y canlyniad yn cael cyhoeddusrwydd ar wefan PAC maes o law.

**Grŵp Llywio Rhwydwaith Gwledig Cymru**

Cafodd pum cyfarfod eu cynnal yn ystod 2022. Rhoddir diweddariad rheolaidd o waith WRNSU i aelodau ym mhob un o'r cyfarfodydd.

Mae tîm WRNSU yn rhoi diweddariadau ar eu gwaith gydag amserlen ymgysylltu â rhanddeiliaid ac amserlenni digwyddiadau.

Gweithiodd Rhwydwaith Gwledig Cymru yn agos â'r Grŵp Llywio i lunio'r cynnwys a helpu i hyrwyddo'r digwyddiad Dathlu'r Gymru Wledig. Mae mwy o fanylion i'w gweld yma Dathlu Cymru Wledig - 9 & 10 Mehefin 2022.

**Gwefan Rhwydwaith Gwledig Cymru / Datblygu TG**

**Gwefan**

Mae safle pwrpasol rhwydwaith Rhwydwaith Gwledig Cymru wedi galluogi WRNSU i barhau i wella dulliau, arferion a phrosesau ar gyfer cyfathrebu allanol. Gellir gweld y safle ar blatfform Busnes Cymru : Rhwydwaith Gweldig Cymru | Drupal (gov.wales)

Daeth WRNSU y Rhwydwaith cyntaf i ddatblygu dau fap rhyngweithiol, gan hyrwyddo'r holl gyllid a ddyfarnwyd hyd yma gyda chysylltiadau byw i'r holl dudalennau prosiect perthnasol Prosiectau CDG. Mae'r uned yn parhau i weithio i wella'r wefan gyda Grwpiau Gweithredu Lleol allanol yn meddu ar gyfrifoldebau cyhoeddi ar gyfer enghreifftiau prosiect LEADER. Mae'r tudalennau gwe yn gysylltiedig â'n sianeli cyfryngau cymdeithasol sy'n cefnogi cyfathrebu allanol drwy sianeli eraill.

• Mae dros 1700 o brosiectau (gan gynnwys LEADER) a gyhoeddwyd ar dudalennau rhyngweithiol y Prosiect, mae nifer bellach yn cynnwys dolenni i dudalennau gwe byw. Ychwanegodd Rhwydwaith Gwledig Cymru 118 o brosiectau yn y cyfnod ym mis Ionawr – Tachwedd 2022.

• Mae o leiaf 2 ddarn o wybodaeth yn cael eu hychwanegu i'r wefan yn ddyddiol.

• Bu 102,476 ym edrych ar y wefan o Ionawr - 30 Tachwedd 2022. Hefyd, cafwyd etholiad Awdurdodau Lleol Cymru rhwng 14 Ebrill a 5 Mai 2022, oedd yn golygu nad oeddem yn gallu postio cymaint o gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal â hyn, cafodd holl weithgareddau'r cyfryngau cymdeithasol a'r wefan eu hoedi rhwng 8 – 20 Medi wedi i'r Frenhines farw gan olygu bod llai o draffig yn mynd i'r Wefan. Roedd gwall hefyd gyda Google analytics sy'n golygu na chawsom unrhyw ffigurau ar gyfer Mai 2022.

• Mae'r hafan yn cynnwys 'teils' neu 'gardiau' sy'n ein cysylltu â gwefannau a thudalennau eraill y Llywodraeth o fewn ein gwefan ac mae'n cael ei diweddaru bob cwpl o fisoedd.

• Rydym yn parhau i weithio gyda datblygwyr i wella llif y wefan. Mae'r wefan bellach wedi'i diweddaru ac rydym wedi creu adrannau newydd ar gyfer ein hastudiaethau achos ac wedi ychwanegu adran newydd o'r enw Dathlu'r Rhaglen Datblygu Gwledig Ddoe a Heddiw.

• Fe wnaethon ni hefyd greu adran pennyn newydd o'r enw Rhaglenni Gwledig lle ychwanegon ni ddau is-bennawd ar gyfer newyddion datblygu cynlluniau a Rhaglenni.

**Cyfryngau cymdeithasol**

Rydym yn parhau i gyhoeddi trydariadau hyrwyddo, ail-drydariadau gyda dyfyniadau a negeseuon Facebook ynghylch ffenestri'r cynllun a gweithgareddau CDG bob dydd. Fe wnaethon ni greu tudalen Instagram newydd ym mis Mawrth, ac mae ganddo dros gant o ddilynwyr eisoes. Yn ogystal â'n portffolio cyfryngau cymdeithasol, mae gennym restr chwarae YouTube newydd o fewn prif sianel Llywodraeth Cymru. Rhwydwaith Gwledig Cymru | Rhwydwaith Gwledig Cymru - YouTube

• Cynyddodd dilynwyr Twitter i 1966 erbyn diwedd Tachwedd 2022.

• Mae Facebook hefyd wedi gweld cynnydd cyson i 584 o ddilynwyr ym mis Tachwedd 2022. Yn ogystal, cafwyd etholiad Awdurdodau Lleol Cymru rhwng 14 Ebrill a 5 Mai 2022 oedd yn golygu na allem bostio cymaint o gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn ogystal â hyn, cafodd holl weithgareddau'r cyfryngau cymdeithasol a'r wefan eu oedi rhwng 8 – 20 Medi ar ôl i'r Frenhines farw.

• Mae postiad misol ar y Cyfryngau Cymdeithasol yn mynd allan i hyrwyddo astudiaeth achos gwahanol bob mis.

Rhoddwyd caniatâd mewnol i ychwanegu Sianeli Cyfryngau Cymdeithasol Rhwydwaith Gwledig Cymru, aeth y sianeli yn fyw yn gynnar yn 2022

Instagram - *https://www.instagram.com/walesrural*

Mae Instagram wedi gweld cynnydd mawr yn nifer y dilynwyr ers ei lansio, o fis Tachwedd 2022, mae gennym 114 o ddilynwyr yn barod.

You Tube - *Rhwydwaith Gwledig Cymru | Rhwydwaith Gwledig Cymru - YouTube*

Rydym wedi gweld cynnydd cyson yn y nifer sy'n gwylio ein fideos / astudiaethau achos a uwchlwythwyd ar ein rhestr chwarae ar sianel YouTube Llywodraeth Cymru.

**Cyfathrebu a Chyhoeddusrwydd WRNSU**

Yn y cyfnod Ion - Tachwedd 2022, ysgrifennwyd a rhanwyd astudiaethau achos 206, a chynhyrchodd WRNSU lyfryn rhyngweithiol o astudiaethau achos enghreifftiol o Raglen Datblygu Gwledig Cymru. Astudiaethau Achos - Llyfryn Rhyngweithiol

Mae manylion astudiaethau achos cyhoeddedig i'w gweld drwy'r dolenni canlynol :-

• Astudiaethau Achos Ysgrifenedig - Astudiaethau Achos

• Astudiaethau Achos Fideo - Astudiaethau Achos Fideo

Mae WRN yn parhau i gymeradwyo'r holl ddatganiadau i'r wasg a darparu cymorth cyfathrebu allanol i'r buddiolwyr.

**Cylchlythyrau**

• Cylchlythyr WRNSU - 10 rhifyn yn 2022; er bod llawer o gynlluniau wedi dod i ben a Rhaglen yr UE bellach yn ei blwyddyn olaf, mae tanysgrifwyr Cylchlythyr Rhwydwaith Gwledig Cymru yn parhau i fod yn sefydlog gyda dros 10,600 ym mis Rhagfyr 2022 ar draws y fersiynau Cymraeg a Saesneg

• Mae 22 diweddariad trwy e-gylchlythyr Gwlad (11 Saesneg; 11 Cymraeg) wedi eu darparu rhwng Ionawr - Tachwedd 2022. (16,486 Tanysgrifwyr ar draws y fersiynau Cymraeg a Saesneg)

• Mae 8 diweddariad rhaglenni wedi eu cynnwys yn y Cylchlythyr Newid Hinsawdd (Adnoddau Naturiol gynt) (4 Saesneg; 4 Cymraeg) rhwng Ionawr - Tachwedd 2022. (11,801 Tanysgrifwyr ar draws y fersiynau Cymraeg a Saesneg)

• Darparwyd 14 o ddiweddariadau rhaglenni i gylchlythyrau Cronfeydd yr UE (6 Saesneg; 6 Cymraeg) rhwng Ionawr a Tachwedd 2022. (13,518 Tanysgrifwyr ar draws y fersiynau Cymraeg a Saesneg)

• Cafodd 6 o ddiweddariad rhaglenni eu darparu i gylchlythyrau Bwyd a Diod Cymru (3 Saesneg; 3 Cymraeg) rhwng Ionawr - Tachwedd 2022. (15,103 Tanysgrifwyr ar draws y fersiynau Cymraeg a Saesneg)

• Roedd 2 o ddiweddariadau rhaglenni wedi eu darparu i gylchlythyrau Twristiaeth Cymru (1 Saesneg; 1 Cymraeg) rhwng Ionawr - Tachwedd 2022. 4 diweddariad (2 Gymraeg; 2 Saesneg) (19,219) Tanysgrifwyr ar draws y fersiynau Cymraeg a Saesneg)

• Ar gyfer y cylchlythyr Ffermio, un ar gyfer y Gwanwyn, un ar gyfer yr Haf ac un arall ar gyfer y Gaeaf.

Mae'r holl gylchlythyrau uchod yn cynnwys cyswllt hyrwyddo i wefan Rhwydwaith Gwledig Cymru ym mhob rhifyn.

*LEADER*

*Mae Grwpiau Gweithredu Lleol LEADER Cymru yn parhau i chwarae rhan weithredol wrth gefnogi eu cymunedau gwledig ar y cyfnod heriol hwn na welwyd ei debyg o'r blaen. Mae LEADER wedi profi ei fod yn offeryn economaidd-gymdeithasol defnyddiol o fewn adferiad economaidd yn dilyn argyfwng Covid-19.*

• *rhwydweithio a chydweithio i sicrhau dull gwybodus a phriodol o ddiwallu anghenion lleol*

*Cafodd Cynllun LEADER broses ail-werthuso yn chwarter olaf 2021. Cyflwynodd 16 o'r deunaw grŵp Gweithredu Lleol ail-werthusiad ar gyfer eu prosiectau LEADER, a derbyniwyd cyfanswm o 60 cais.*

Cyfanswm y gwariant ar gyfer cynllun LEADER oedd £37.9m tan ddiwedd Tachwedd 2022.

Daeth ugain o brosiectau LEADER i ben yn ystod Blwyddyn Ariannol 2021/2022 –

• Conwy Cynhaliol

• Sir Benfro – Gweithredu; costau rhedeg; Animeiddio a Chydweithrediad

• Castell-nedd Port Talbot – gweithredu; costau rhedeg; Animeiddio a Chydweithrediad

• Torfaen – Gweithredu; costau rhedeg; Animeiddio a Chydweithrediad

• Cydweithio Abertawe

• Merthyr Tudful – Gweithredu; costau rhedeg; Animeiddio a Chydweithrediad

• Sir Fynwy – Animeiddio a Chydweithrediad

Daeth 6 Prosiect LEADER arall i ben erbyn 30 Medi 2022

• Sir Fynwy - Gweithredu a chostau rhedeg

• Powys – Gweithredu; costau rhedeg; Animeiddio a Chydweithrediad

## Tabl Fframwaith Perfformiad 1

Mae'r tabl hwn yn adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig i'r holl newidiadau ariannol a dangosydd ar lefel Fframwaith Perfformiad ar gyfer rhaglenni Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru.

**Tabl Fframwaith Perfformiad ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru**

| Blaenoriaeth | Dangosydd | Gorllewin Cymru a'r Cymoedd | | | Dwyrain Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Targed presennol | Newid +/- | Targed arfaethedig | Targed presennol | Newid +/- |
| 1 | **Gwariant cymwys (€M)** | 477 | -23 | **454** | 207 | -27 |
| 1 | **Nifer y partneriaid sy'n cydweithredu mewn prosiectau ymchwil** | 1,800 | 1,857 | **3,657** | 540 | 298 |
| 2 | **Gwariant cymwys (€M)** | 333 | 123 | **456** | 91 | 27 |
| 2 | **Buddsoddiad mewn busnesau (£M)** | 191 | 93 | **284** | 80 | 152 |
| 3 | **Gwariant cymwys (€M)** | 224 | 0 | 224 | 9 | 0 |
| 3 | **Cynlluniau paratoi safleoedd cymorth ynni** | 2 | 6 | **8** | Amh | Amh |
| 3 | **Nifer y prototeipiau ynni adnewyddadwy a brofwyd** | 8 | -2 | **6** | Amh | Amh |
| 3 | **Nifer yr aelwydydd sydd â gwell dosbarthiad defnydd ynni** | 3,060 | -991 | **2,069** | 765 | 0 |
| 4 | **Gwariant cymwys (€M)** | 763 | -107 | **656** | 91 | 0 |
| 4 | **Cyfanswm hyd y rheilffordd sydd wedi'i hailadeiladu neu ei huwchraddio** | 24 | 0 | 24 | 5 | 0 |
| 4 | Tir wedi'i ddatblygu (Ha) | 100 | 0 | 100 | Amh | Amh |

Mae'r tabl hwn yn adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig i'r holl newidiadau ariannol a dangosydd ar **lefel Fframwaith Perfformiad** ar gyfer rhaglenni Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru fel y trafodwyd yn y papur hwn.